# Cod Ymarfer Rhan 2: Swyddogaethau Cyffredinol

## Pennod/Cynnwys


| | | |
|---|---|---|
| | Rhaglith | 2 |
| | Geirfa | 3 |
| **1** | Dyletswyddau llesiant a hollgyffredinol | 5 |
| **2** | Asesiad o anghenion y boblogaeth | 23 |
| | **2A** Cynnal asesiad poblogaeth o anghenion gofal a chymorth ac anghenion gofalwyr am gymorth | 27 |
| | **2B** Ffurfio trefniant partneriaeth at ddibenion cynnal asesiadau o anghenion y boblogaeth | 40 |
| **3** | Gwasanaethau ataliol ac ymyrraeth gynnar integredig | 42 |
| **4** | Hyrwyddo mentrau cymdeithasol, mentrau cydweithredol a gwasanaethau a arweinir gan ddefnyddwyr, a'r trydydd sector | 52 |
| **5** | Ymgysylltu, llais a chydgynhyrchu | 59 |
| **6** | Gwybodaeth, cyngor a chynhorthwy | 66 |
| **7** | Cofrestrau o bobl ag amhariad ar eu golwg, pobl ag amhariad ar eu clyw a phobl anabl eraill | 81 |


Caiff y cod ymarfer hwn ei ddyroddi o dan adran 145 o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014.

Mae'r cod hwn yn dirymu Cod Ymarfer Rhan 2 (Swyddogaethau Cyffredinol) a ddyroddwyd yn 2015 - ISBN 978-1-4734-5494-1.

## Rhaglith

1. Mae Penodau 1, 2a a 3 – 6 o'r ddogfen hon (ac eithrio pennod 2b, fel y nodir isod) yn god ymarfer ar gyfer awdurdodau lleol a ddyroddir o dan adran 145 o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 ('y Ddeddf'). Mae pennod 2b yn ganllawiau statudol a ddyroddir o dan adran 169 o'r Ddeddf, y mae'n **rhaid** i awdurdodau lleol a byrddau iechyd roi sylw iddynt.

2. Daw’r fersiwn ddiwygiedig hon o'r cod a'r canllawiau statudol i rym ar [dyddiad]. Mae'n dirymu Cod Ymarfer Rhan 2 (Swyddogaethau Cyffredinol) a ddyroddwyd yn 2015.

3. Mae'r Ddeddf i’w gweld yn: https://www.legislation.gov.uk/cy/anaw/2014/4/enacted/welsh

4. Wrth arfer eu swyddogaethau gwasanaethau cymdeithasol, **rhaid** i awdurdodau lleol weithredu’n unol â’r gofynion yn y Cod hwn. Nid yw adran 147 o’r Ddeddf (Gwyro oddi wrth ofynion mewn codau) yn gymwys i unrhyw ofynion yn y Cod hwn. Yn ogystal, **rhaid** i awdurdodau lleol roi sylw i unrhyw ganllawiau a nodir yma.

5. Yn y Cod a’r canllawiau statudol hyn, mynegir gofyniad fel “**rhaid**” neu “**ni chaiff/ni chaniateir**”. Mynegir canllawiau fel “**caiff**” neu “**dylai/ni ddylai**”.

6. Mae Rhan 2 o’r Ddeddf yn cynnwys darpariaethau sy’n ymwneud â swyddogaethau cyffredinol awdurdod lleol, gan gynnwys asesu anghenion poblogaeth am ofal cymdeithasol a gwasanaethau eraill megis y rhai sy’n hyrwyddo llesiant, a hyrwyddo mentrau cymdeithasol, mentrau cydweithredol, gwasanaethau sy’n cael eu harwain gan ddefnyddwyr, a’r trydydd sector. Yn ogystal, mae’r rhan hon yn rhoi sylw i sut y dylai pobl sy’n arfer swyddogaethau o dan y Ddeddf sicrhau eu bod yn cyflawni eu dyletswyddau i hyrwyddo llesiant pobl sydd angen gofal a chymorth a gofalwyr sydd angen cymorth, sut y mae’n **rhaid** i awdurdodau lleol ddarparu ystod o wasanaethau ataliol a sut y dylai awdurdodau lleol gyflawni eu dyletswyddau o ran cyflenwi gwasanaeth sy’n darparu gwybodaeth a chyngor ar ofal a chymorth, a chynhorthwy i gael mynediad at ofal a chymorth.

7. Mae'r gwaith o adolygu'r Cod a'r canllawiau hyn wedi'i wneud fel rhan o Raglen Ailgydbwyso Gofal a Chymorth Llywodraeth Cymru, sydd wedi mynd ati i geisio gwella gofal cymdeithasol drwy gryfhau gweithio mewn partneriaeth ac integreiddio gwasanaethau yn unol â'r Ddeddf. Mae dull gweithredu cydgynhyrchiol wedi bod yn ganolog i'r rhaglen hon, gan gynnwys sefydlu grwpiau technegol a grwpiau gorchwyl a gorffen sy'n cynnwys ystod eang o randdeiliaid, gan gynnwys pobl sydd angen gofal a chymorth a gofalwyr. Mae hyn yn parhau â'r broses o ymgysylltu a chydgynhyrchu y mae Llywodraeth Cymru wedi'i mabwysiadu mewn perthynas â gweithredu'r Ddeddf.

## Eiriolaeth

8. Mae'r Ddeddf yn ceisio sicrhau newid diwylliant a newid yn y dull o fynd ati o ran gofal cymdeithasol, lle mae unigolyn sydd angen gofal a chymorth yn bartner cyfartal yn ei berthynas â gweithwyr proffesiynol. Gall unrhyw unigolyn wahodd rhywun o'i ddewis i'w gynorthwyo i gymryd rhan lawn a mynegi ei farn, ei ddymuniadau a'i deimladau. Gall ffrindiau, teulu neu rwydwaith cymorth ehangach yr unigolyn ddarparu'r cymorth hwn.

9. Mae'r cod ymarfer ar eiriolaeth o dan Ran 10 o'r Ddeddf yn nodi'r swyddogaethau pan fo **rhaid** i awdurdod lleol, mewn partneriaeth â'r unigolyn, wneud penderfyniad ynghylch sut y gallai eiriolaeth helpu i bennu a chyflawni canlyniadau personol unigolyn; ynghyd â'r amgylchiadau pan fo **rhaid** i awdurdod lleol drefnu eiriolwr proffesiynol annibynnol. Mae penderfyniadau ynglŷn â'r angen am eiriolaeth yn rhan annatod o'r dyletswyddau perthnasol o dan y Cod hwn.

# Geirfa

| | |
|---|---|
| Ardal | Yn y Cod hwn, defnyddir ardal yng nghyd-destun cynlluniau ardal ar y cyd, y mae'n rhaid i awdurdodau lleol a byrddau iechyd eu paratoi o dan adran 14A o'r Ddeddf, yn dilyn asesiad o anghenion ar y cyd. Mae'r ardal yn cyfateb i ranbarth (gweler isod). |
| Byrddau Iechyd | Y saith Bwrdd Iechyd Lleol ledled Cymru. |
| Y Ddeddf | Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014. |
| Gofalwyr | Yn y Cod hwn, mae person yn ofalwr os yw'n dod o fewn y diffiniad o 'ofalwr' yn adran 3 o'r Ddeddf. |

| | |
|---|---|
| | Fel arfer mae gofalwr yn aelod o'r teulu neu'n ffrind sy'n darparu gofal di-dâl i oedolyn neu blentyn anabl, a hynny fel arfer yn ei gartref ei hun. At ddibenion polisi mae'n well gan Lywodraeth Cymru'r term 'gofalwr di-dâl', er mwyn gwahaniaethu rhyngddynt a gweithwyr gofal cyflogedig.<br><br>Mae'n bwysig nodi, at ddibenion y Ddeddf, nad yw person yn ofalwr os yw'n darparu gofal o dan gontract neu yn rhinwedd contract, neu fel gwaith gwirfoddol.<br><br>Fodd bynnag, dylid nodi hefyd, o dan adran 3(8) o'r Ddeddf, bod gan awdurdod lleol y disgresiwn i drin person fel gofalwr at ddibenion unrhyw un neu ragor o'i swyddogaethau o dan y Ddeddf os yw'r awdurdod o'r farn bod y berthynas rhwng y person sy'n darparu (neu'n bwriadu darparu) gofal a'r person y mae (neu y bydd) y gofal hwnnw ar ei gyfer yn golygu y byddai'n briodol trin y cyntaf fel gofalwr at ddibenion y swyddogaeth honno neu'r swyddogaethau hynny. |
| Rhanbarth / rhanbarthol | Yn y Cod hwn, mae rhanbarth / rhanbarthol yn cyfeirio at ardal y bwrdd partneriaeth rhanbarthol, sydd wedi'i sefydlu o dan Reoliadau Trefniadau Partneriaeth (Cymru) 2015. Mae'r rhanbarthau hyn ar yr un patrwm daearyddol â'r saith bwrdd iechyd. Mae ardal pob un o'r byrddau iechyd yn cydffinio ag un neu ragor o awdurdodau lleol. Yr awdurdodau lleol a'r bwrdd iechyd o fewn rhanbarth yw'r cyrff partneriaeth y mae'n ofynnol iddynt sefydlu trefniadau partneriaeth a Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol o dan Ran 9 o'r Ddeddf. |

# 1. Dyletswyddau llesiant a hollgyffredinol

## Cyflwyniad

10. Mae gwasanaethau cymdeithasol yn rhan annatod o fywyd cyhoeddus yng Nghymru, gan gefnogi pobl ar adegau anodd, yn ogystal ag yn y tymor hir. Maent yn amddiffyn pobl rhag cael eu cam-drin a'u hesgeuluso ac yn galluogi pobl i fyw bywydau bodlon a sicrhau llesiant.

11. Mae'r bennod hon yn gosod y cyd-destun ar gyfer rhoi'r Ddeddf a'i rheoliadau a'i chodau ymarfer cysylltiedig ar waith. Y cyd-destun hwnnw yw canolbwyntio ar lesiant pobl sydd angen gofal a chymorth a gofalwyr sydd angen cymorth, ar hawliau a hawlogaethau, ac ar roi grym i bobl greu perthynas newydd â gwasanaethau cymdeithasol. Mae'n ymwneud â chefnogi pobl sy'n cyflenwi gwasanaethau cymdeithasol, gan eu grymuso i greu atebion ar y cyd â phobl sydd angen gofal a chymorth a gofalwyr sydd angen cymorth.

12. Mae cydgynhyrchu yn ffordd o weithio lle mae ymarferwyr a phobl yn gweithio gyda'i gilydd fel partneriaid cyfartal i gynllunio a chyflenwi gofal a chymorth. Mae hyn yn cyfateb i'r dull gofal iechyd darbodus, ac egwyddorion gofal iechyd darbodus Llywodraeth Cymru. (**1**)

13. Mae'r dull hwn yn golygu gweithio gyda phobl i ddod o hyd i atebion priodol. Pan fo angen ymyrraeth, dylai bob amser fod yn gymesur ac yn amserol a dylai helpu pobl sydd angen gofal a chymorth a gofalwyr sydd angen cymorth i gyflawni eu canlyniadau personol.

14. Mae llesiant yn sail i'r system gyfan, o ran y rôl y gall ymyrraeth gynnar ac atal ei chwarae i hyrwyddo llesiant, a sut y mae pobl yn cael eu grymuso drwy wybodaeth, cyngor a chynhorthwy a thrwy gael eu cynnwys yn y broses o ddylunio a gweithredu gwasanaethau. Mae'r Cod hwn yn rhoi system ar waith lle mae pobl yn bartneriaid llawn yn y broses o ddylunio a gweithredu gofal a chymorth. Mae'n rhoi hawliau a chyfrifoldebau clir i bobl.

15. Mae pobl – plant, oedolion a gofalwyr, eu teuluoedd a'u cymunedau – yn asedau hollbwysig ac yn rhan annatod o'r fframwaith cyfreithiol hwn. Bydd gweithio gyda phobl yn allweddol er mwyn cyflawni llesiant a

**1** https://www.llyw.cymru/gofal-iechyd-darbodus

datgloi'r potensial i fod yn greadigol, gan wneud defnydd gwell a mwy effeithiol o'r holl adnoddau sydd ar gael.

16. Mae'r fframwaith cyfreithiol yn rhoi'r cyfle gorau posibl i bawb gael llesiant a lefel briodol o annibyniaeth. Gall pawb gael llais – cyfle – hawl – i gael eu clywed fel unigolyn, fel dinesydd, ac i gael rheolaeth dros eu bywydau o ddydd i ddydd.

17. Drwy ddiffinio llesiant, rhoi eglurder a thryloywder ynglŷn â hawliau a chyfrifoldebau a sicrhau dull sy'n seiliedig ar gydgynhyrchu ar lefel unigol, sefydliadol a strategol, mae'r bennod hon yn gosod fframwaith cryf ar gyfer yr holl godau a rheoliadau.

18. Mae'r bennod hon yn ymdrin â'r canlynol:
- diffiniad o lesiant
- y ddyletswydd llesiant
- hyrwyddo llesiant
- dyletswyddau hollgyffredinol eraill: cyffredinol
- ystyr 'rhoi sylw i'
- dyletswyddau hollgyffredinol eraill: Egwyddorion a Chonfensiynau'r Cenhedloedd Unedig
- monitro llesiant

19. Mae'r bennod hon yn gymwys i awdurdodau lleol mewn perthynas â'u swyddogaethau gwasanaethau cymdeithasol. Fodd bynnag, bydd goblygiadau i gyrff partner, gan gynnwys byrddau iechyd, y trydydd sector, y sector annibynnol a phobl sydd angen gofal a chymorth a gofalwyr sydd angen cymorth yng Nghymru.

## Cyd-destun a diben y bennod hon

20. Mae'r bennod hon yn darparu canllawiau ar yr adrannau canlynol o dan Ran 2 o'r Ddeddf:

- adran 5, o ran amlinellu sut y dylai awdurdodau lleol sicrhau eu bod yn cyflawni eu dyletswydd i geisio hyrwyddo llesiant pobl sydd angen gofal a chymorth a gofalwyr sydd angen cymorth;
- adran 6, o ran sut y dylai awdurdodau lleol gydymffurfio â'r dyletswyddau hollgyffredinol a amlinellir yn y Ddeddf;
- adran 7, o ran sut y dylai awdurdodau lleol gydymffurfio â dyletswyddau hollgyffredinol eraill a amlinellir yn y Ddeddf: Egwyddorion a Chonfensiynau'r Cenhedloedd Unedig.

21. Ni wneir unrhyw reoliadau o dan yr adrannau hyn o’r Ddeddf, ond cafodd datganiad statudol o’r canlyniadau personol i’w cyflawni ei ddyroddi gan Weinidogion Cymru o dan adran 8. Mae'r datganiad hwn yn rhan hanfodol o'r fframwaith statudol sy'n nodi'r canlyniadau sydd i'w cyflawni o ran llesiant pobl sydd angen gofal a chymorth a gofalwyr sydd angen cymorth.

22. Dylid darllen y Cod hwn ochr yn ochr â'r codau ymarfer a ddyroddwyd o dan yr holl rannau o dan y Ddeddf.

## Diffinio Llesiant

23. Mae adran 2 o Ran 1 o'r Ddeddf yn rhoi diffiniad clir o lesiant sy'n gymwys i:
   a) pobl sydd angen gofal  a chymorth
   b) gofalwyr sydd angen cymorth.

24. Mae’r cyfeiriad at lesiant yn y Ddeddf yn golygu llesiant person sydd angen gofal a chymorth a gofalwyr sydd angen cymorth mewn perthynas ag unrhyw un o'r agweddau canlynol:
   a) iechyd corfforol, iechyd meddwl a llesiant emosiynol
   b) amddiffyn rhag camdriniaeth ac esgeulustod
   c) addysg, hyfforddiant a gweithgareddau hamdden
   d) perthnasoedd domestig, teuluol a phersonol
   e) cyfraniad a wneir at y gymdeithas
   f) sicrhau hawliau a hawlogaethau
   g) llesiant cymdeithasol ac economaidd
   h) addasrwydd llety preswyl

   O ran plentyn, mae “llesiant” yn cynnwys hefyd:
   a) datblygiad corfforol, deallusol, emosiynol, cymdeithasol ac ymddygiadol
   b) “lles” fel y diffinnir y term Saesneg cyfatebol “welfare” at ddibenion Deddf Plant 1989.

   O ran oedolyn, mae “llesiant” yn cynnwys hefyd:
   a) rheolaeth ar fywyd pob dydd
   b) cymryd rhan mewn gwaith.

## Y ddyletswydd llesiant

25. Mae adran 5 o'r Ddeddf yn ei gwneud yn ofynnol i unrhyw berson sy'n arfer swyddogaethau o dan y Ddeddf geisio hyrwyddo llesiant (fel y'i diffinnir yn adran 2):

a) pobl sydd angen gofal a chymorth
b) gofalwyr sydd angen cymorth

26. Mae'r ddyletswydd hollgyffredinol hon i geisio hyrwyddo llesiant pobl sydd angen gofal a chymorth a gofalwyr sydd angen cymorth yn gymwys i bob person a chorff sy'n arfer swyddogaethau o dan y Ddeddf hon, gan gynnwys Gweinidogion Cymru, awdurdodau lleol, byrddau iechyd ac asiantaethau statudol eraill.

27. Er mwyn cyflawni'r ddyletswydd hon, **rhaid** i'r cyfrifoldeb dros lesiant gael ei rannu â phobl sydd angen gofal a chymorth a gofalwyr sydd angen cymorth. **Rhaid** i bobl sy'n arfer swyddogaethau o dan y Ddeddf rymuso pobl i gyfrannu at sicrhau eu llesiant eu hunain gyda'r lefel briodol o gymorth a gwasanaeth. Ni all asiantaethau a sefydliadau gyflawni canlyniad personol person, ond gallant ei helpu i gyflawni'r canlyniad hwnnw. Bydd gweithio mewn partneriaeth â phobl yn allweddol er mwyn sicrhau eu llesiant ac atal anghenion pobl am ofal a chymorth rhag datblygu.

28. Er mwyn ceisio hyrwyddo llesiant pobl sydd angen gofal a chymorth a gofalwyr sydd angen cymorth, mae angen i awdurdodau lleol ddeall beth sy'n bwysig i bobl a'r canlyniadau personol y maent am eu cyflawni. **Rhaid** i awdurdodau lleol ystyried y datganiadau canlyniadau llesiant sy'n sail i'r diffiniad o lesiant, o dan bob agwedd ar lesiant. Mae'r datganiadau hyn yn amlinellu'r canlyniadau personol cenedlaethol y dylai pobl sydd angen gofal a chymorth a gofalwyr sydd angen cymorth ddisgwyl eu cyflawni er mwyn byw bywydau bodlon.

29. Mae gan bobl sydd angen gofal a chymorth a gofalwyr sydd angen cymorth hawliau a chyfrifoldebau o ran cyflawni eu canlyniadau personol. Pan fo pobl yn cynhyrchu eu canlyniadau personol ar y cyd â gwasanaethau cymdeithasol a'u partneriaid, gallant ddisgwyl cyflawni canlyniadau personol sy'n adlewyrchu'r canlyniadau a nodir yn y Fframwaith Canlyniadau Cenedlaethol: (2)

| Ystyr llesiant | Canlyniadau llesiant cenedlaethol |
|---|---|
| Sicrhau hawliau a hawlogaethau<br><br>Hefyd o ran oedolion: Rheolaeth ar fywyd pob dydd | Rwy'n gwybod ac yn deall pa ofal, cymorth a chyfleoedd sydd ar gael ac yn eu defnyddio er mwyn fy helpu i sicrhau fy llesiant. |

**2** https://www.llyw.cymru/fframwaith-canlyniadau-cenedlaethol-gwasanaethau-cymdeithasol

| | |
|---|---|
| | Gallaf gael gafael ar yr wybodaeth gywir, pan fydd ei hangen arnaf, yn y ffordd rwyf am ei chael a defnyddio'r wybodaeth hon i reoli a gwella fy llesiant.<br>Caf fy nhrin ag urddas a pharch ac rwy'n trin eraill yn yr un ffordd.<br>Caiff fy llais ei glywed a gwrandewir arno.<br>Caiff fy amgylchiadau unigol eu hystyried.<br>Rwy'n siarad drosof fy hun ac yn cyfrannu at y penderfyniadau sy'n effeithio ar fy mywyd neu mae gennyf rywun a all wneud hynny drosof. |
| Iechyd corfforol, iechyd meddwl a llesiant emosiynol<br><br>Hefyd o ran plant: Datblygiad corfforol, deallusol, emosiynol, cymdeithasol ac ymddygiadol | Rwy'n iach ac yn weithgar ac yn gwneud pethau i gadw fy hun yn iach.<br>Rwy'n hapus ac yn gwneud pethau sy'n fy ngwneud yn hapus.<br>Caf y gofal a'r cymorth cywir, cyn gynted â phosibl. |
| Amddiffyn rhag camdriniaeth ac esgeulustod | Rwy'n ddiogel ac yn cael fy amddiffyn rhag camdriniaeth ac esgeulustod.<br>Caf gymorth i amddiffyn y bobl sy'n bwysig i mi rhag camdriniaeth ac esgeulustod.<br>Caf wybodaeth am sut i leisio fy mhryderon. |
| Addysg, hyfforddiant a gweithgareddau hamdden | Rwy'n gallu dysgu a datblygu i'm llawn botensial.<br>Rwy'n gwneud y pethau sy'n bwysig i mi. |
| Perthnasoedd domestig, teuluol a phersonol | Rwy'n perthyn.<br>Rwy'n cyfrannu at berthnasoedd diogel ac iach ac yn eu mwynhau. |
| Cyfraniad a wneir at y gymdeithas | Rwy'n ymgysylltu â'm cymuned ac yn cyfrannu ati.<br>Teimlaf fy mod yn cael fy ngwerthfawrogi mewn cymdeithas. |

| | |
|---|---|
| Llesiant cymdeithasol ac economaidd<br><br>Hefyd o ran oedolion: Cymryd rhan mewn gwaith | Rwy'n cyfrannu at fy mywyd cymdeithasol a gallaf fod gyda'r bobl a ddewisaf.<br>Nid wyf yn byw mewn tlodi.<br>Caf gymorth i weithio.<br>Caf yr help sydd ei angen arnaf i dyfu a bod yn annibynnol.<br>Caf ofal a chymorth drwy gyfrwng y Gymraeg os bydd angen hynny arnaf. |
| Addasrwydd llety preswyl. | Rwy'n byw mewn cartref sy'n fy helpu orau i sicrhau fy llesiant. |

30. Mae llesiant yn golygu gwahanol bethau i wahanol bobl. Bydd pobl sydd angen gofal a chymorth a gofalwyr sydd angen cymorth yn awyddus i gyflawni canlyniadau personol sy'n bersonol iddyn nhw a'u hamgylchiadau unigol. **Rhaid** i awdurdodau lleol ystyried canlyniadau personol pobl a chydgynhyrchu atebion gyda'r bobl hynny. Yn sail i'r broses hon, **rhaid** sicrhau bod ymatebion yn gymesur ac yn amserol.

31. Mae'n debygol y bydd person am gyflawni amryw o ganlyniadau personol sy'n ymwneud â mwy nag un agwedd ar lesiant. Mae pob un o'r agweddau hyn ar lesiant yr un mor bwysig â'i gilydd. Mae pob unigolyn yn wahanol: mae'n bosibl y bydd rhai agweddau'n bwysicach i rai pobl ac efallai y bydd angen gofal a chymorth arnynt i'w helpu i gyflawni'r agweddau hyn.

32. Gall fod adegau pan na ellir cyflawni canlyniadau personol drwy berthynas gyfartal rhwng pobl ac ymarferwyr a phan fydd **rhaid** i awdurdodau lleol ystyried a oes lle i gynnal ymchwiliad naill ai o dan adran 126 o'r Ddeddf neu o dan adran 47 o Ddeddf Plant 1989 – gweler y Cod Ymarfer ar Ran 7 (Diogelu).

## Hyrwyddo llesiant

33. Mae hyrwyddo llesiant yn golygu bod **rhaid** i awdurdodau lleol fod yn rhagweithiol o ran ceisio gwella'r agweddau hynny ar lesiant wrth arfer swyddogaethau gwasanaethau cymdeithasol ar gyfer person sydd angen gofal a chymorth a gofalwyr sydd angen cymorth. Mae ystyr llesiant wedi'i amlinellu yn adran 2 o'r Ddeddf a'r datganiadau canlyniadau llesiant.

34. **Rhaid** i awdurdod lleol hyrwyddo llesiant pobl sydd angen gofal a chymorth a gofalwyr sydd angen cymorth wrth gyflawni unrhyw un o'i

swyddogaethau mewn perthynas â pherson sydd angen gofal a chymorth; mae hyn yn cynnwys y bobl hynny nad oes ganddynt anghenion sy'n bodloni'r meini prawf cymhwysedd ond sydd ag anghenion gofal a chymorth a all gael eu diwallu mewn ffyrdd eraill, er enghraifft drwy ddarparu gwybodaeth, cyngor a chynhorthwy a gwasanaethau llesiant ataliol.

35. Mae'r Ddeddf yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol wneud trefniadau i hyrwyddo cydweithredu rhwng yr awdurdod lleol a'i 'bartneriaid perthnasol' gyda'r nod o wella llesiant oedolion yn eu hardal sydd ag anghenion gofal a chymorth a gwella llesiant plant yn eu hardal. Mae partner perthnasol (o ran y trefniadau i hyrwyddo cydweithredu ar gyfer oedolion) wedi'i restru yn adran 162 (4) o'r Ddeddf. Mewn achosion unigol, **rhaid** i bartner perthnasol gydymffurfio â chais gan yr awdurdod lleol i gydweithredu o ran cyflawni ei swyddogaethau gwasanaethau cymdeithasol, a all gynnwys helpu pobl i gyflawni eu canlyniadau personol, oni bai yr ystyrir nad yw hyn yn gydnaws â dyletswyddau'r partner perthnasol neu y byddai fel arall yn cael effaith andwyol ar arfer swyddogaethau'r partner perthnasol.

## Hysbysu'r asesiad o anghenion y boblogaeth

36. Wrth hyrwyddo llesiant pobl sydd angen gofal a chymorth a gofalwyr sydd angen cymorth, **rhaid** i awdurdodau lleol ddefnyddio gwybodaeth am lesiant pobl a'r hyn sy'n rhwystr i hyrwyddo llesiant pobl i hysbysu'r asesiad o anghenion y boblogaeth. Diben yr asesiad o anghenion y boblogaeth yw nodi ystod a lefel y gwasanaethau sydd eu hangen i ddiwallu ac atal anghenion gofal a chymorth y boblogaeth, ac anghenion cymorth gofalwyr. Ceir rhagor o wybodaeth am y gofyniad i gynnal asesiad o anghenion y boblogaeth ym mhennod 2 o'r Cod hwn.

## Gohirio ac atal yr angen am ofal

37. **Rhaid** i'r gwaith o hyrwyddo llesiant pobl gynnwys ffocws ar ohirio ac atal yr angen am ofal a chymorth er mwyn atal anghenion pobl rhag dwysáu. **Rhaid** i ystod a lefel y gwasanaethau ataliol y mae awdurdodau lleol yn eu darparu neu'n eu trefnu geisio hyrwyddo llesiant pobl sydd angen gofal a chymorth a gofalwyr sydd angen cymorth, yn ogystal â chyflawni'r dibenion yn adran 15 o'r Ddeddf.

## Darparu gwybodaeth, cyngor a chynhorthwy

38. Er mwyn i bobl allu pennu'r canlyniadau y maent am eu cyflawni a gwneud penderfyniadau gwybodus ynglŷn â'r ffodd orau o reoli eu llesiant, **rhaid** sicrhau bod gwybodaeth a chyngor ynghylch gofal a chymorth, a help i gael gafael ar ofal a chymorth, ar gael ar yr adeg iawn ac yn y lle iawn. **Rhaid** i awdurdodau lleol roi system ar waith sy'n darparu'r wybodaeth, y cyngor a'r cynhorthwy sydd eu hangen ar bobl i'w helpu i reoli eu bywydau o ddydd i ddydd a gwneud y pethau sy'n bwysig iddynt (gweler pennod 6 ar wybodaeth, cyngor a chynhorthwy).

## Hyrwyddo mentrau cymdeithasol, mentrau cydweithredol, gwasanaethau a arweinir gan ddefnyddwyr, a'r trydydd sector

39. Dylai pobl gael eu cynnwys yn y broses o ddylunio a gweithredu gwasanaethau ar bob lefel, fel unigolion ac fel rhan o'r boblogaeth gyfan. **Rhaid** i awdurdodau lleol geisio grymuso pobl i greu atebion arloesol ar gyfer gohirio, atal a diwallu'r angen am ofal a chymorth drwy rwydweithiau a chymunedau lleol. Mae pennod 4 yn amlinellu dull o gyflawni'r ddyletswydd o dan adran 16 o'r Ddeddf i hyrwyddo mentrau cymdeithasol, mentrau cydweithredol, gwasanaethau sy'n cael eu harwain gan ddefnyddwyr, a'r trydydd sector.

40. Mae'r ddyletswydd o dan adran 16 o'r Ddeddf hefyd yn golygu rhoi trefniadau cadarn ar waith i sicrhau bod pobl yn cael eu cynnwys yn y broses o ddylunio a gweithredu gwasanaethau. Mae hyn yn golygu rhoi egwyddorion cydgynhyrchu ar waith, gyda phwyslais clir ar ganlyniadau ac ar gefnogi mwy o drefniadau sy'n cael eu dylunio a'u harwain gan bobl sydd angen gofal a chymorth a gofalwyr sydd angen cymorth. Gall annog pobl leol a busnesau i gymryd mwy o ran yn eu cymunedau helpu pobl i sicrhau eu llesiant. Mae pennod 5 o'r Cod hwn yn amlinellu'r gofynion o ran ymgysylltu, llais a chydgynhyrchu.

## Asesu anghenion pobl

41. Y bobl eu hunain sydd yn y sefyllfa orau i bennu'r canlyniadau personol y maent am eu cyflawni, ar sail eu gwerthoedd eu hunain a'r hyn sy'n bwysig iddynt. **Rhaid** i awdurdodau lleol sicrhau bod gan bobl lais a mwy o reolaeth ar y gofal a'r cymorth y maent yn eu derbyn drwy gynnwys unigolion yn y broses o wneud penderfyniadau sy'n effeithio ar eu bywydau. Bydd y dull hwn yn cryfhau'r gofyniad am wasanaethau sy'n canolbwyntio ar bobl, gan gynnwys sicrhau bod pobl yn cael eu cynnwys er mwyn iddynt gyfrannu'n uniongyrchol at eu llesiant eu

hunain. (Gweler y codau a ddyroddwyd ar gyfer Rhannau 3 a 4 o'r Ddeddf, ar asesu a chynllunio gofal.)

42. Wrth asesu angen, **rhaid** i awdurdodau lleol weithio gyda phobl i ganfod yr hyn sy'n bwysig iddynt. Bydd pobl am gyflawni gwahanol agweddau ar lesiant, yn dibynnu ar eu hamgylchiadau; gelwir y rhain yn ganlyniadau personol. **Rhaid** i awdurdodau lleol ystyried y canlyniadau personol y mae unigolyn am eu cyflawni, yr adnoddau sydd ar gael a sut y bydd yr awdurdod lleol yn ei helpu i gyflawni'r canlyniadau hyn. Yn ganolog i hyn bydd deall y rhwystrau mae person yn eu hwynebu wrth geisio cyflawni ei ganlyniadau personol.

43. O bryd i'w gilydd, bydd angen cymorth ar unigolion gan deulu, ffrindiau, gofalwyr neu eu rhwydwaith cymorth ehangach er mwyn sicrhau eu bod yn cael eu cynnwys yn weithredol yn y broses o gynllunio eu gofal a'u cymorth. Bydd adegau pan na fydd yn bosibl neu'n briodol i deulu, ffrindiau, gofalwyr neu eu rhwydwaith cymorth ehangach ddarparu'r cymorth hwnnw. O dan amgylchiadau o'r fath, **rhaid** i awdurdodau lleol drefnu eiriolwr annibynnol i hwyluso cynnwys unigolyn os na fydd yr unigolyn hwnnw ond yn gallu goresgyn y rhwystr(au) i gyfranogi'n llawn yn y broses o bennu, adolygu a diwallu ei anghenion gofal a chymorth os oes unigolyn priodol ar gael i gefnogi a chynrychioli ei safbwyntiau, ei ddymuniadau a'i deimladau. (Mae canllawiau manwl yn y cod ymarfer ar eiriolaeth o dan Ran 10 ac mewn rhannau perthnasol eraill o'r Ddeddf.)

44. Mae'n bosibl y bydd asesiad o anghenion gofal a chymorth unigolyn, neu anghenion cymorth yn achos gofalwr, yn cynnwys darparu cyngor a chynhorthwy neu ddatblygu cynllun gofal a chymorth, neu gynllun cymorth yn achos gofalwyr. Ym mhob achos, **rhaid** i awdurdodau lleol weithio'n agored a thryloyw mewn partneriaeth go iawn â phobl i hyrwyddo llesiant pobl, a bod yn hyblyg wrth gyflawni'r agweddau hynny ar lesiant sy'n bwysicach i berson. Diben yr asesiad yw sicrhau bod unigolion a theuluoedd yn cael ymateb cymesur ac amserol sy'n eu galluogi i gyflawni eu canlyniadau personol (gweler y cod a ddyroddwyd ar gyfer Rhan 3 o'r Ddeddf, ar asesu). Bydd hyn yn gofyn am atebion unigol a nodir gan weithwyr proffesiynol a phobl, mewn partneriaeth.

45. Dylai plant gael cymorth gan ymarferwyr amrywiol a phobl eraill sy'n dod i gysylltiad â nhw, gan gynnwys eu teulu a'u ffrindiau, i nodi'r hyn sy'n bwysig iddynt. Bydd angen i'r cymorth fod yn briodol i'w hoedran a'u dealltwriaeth.

46. **Rhaid** i awdurdodau lleol ystyried anghenion cymorth gofalwyr, a chymryd camau i drefnu darpariaeth, drwy asesiad gofalwyr lle y bo hynny'n briodol. Wrth gynnal asesiad o anghenion cymorth gofalwyr, **rhaid** i awdurdodau lleol ystyried y canlyniadau personol y mae gofalwr am eu cyflawni (gweler y cod a ddyroddwyd ar gyfer Rhan 3 o'r Ddeddf, ar asesu).

## Diwallu anghenion

47. Wrth ddatblygu cynllun gofal a chymorth (neu gynllun cymorth yn achos gofalwyr), **rhaid** i awdurdodau lleol weithio gyda phobl i nodi canlyniadau personol a chytuno ar gerrig milltir realistig y mae modd arsylwi arnynt a'u cyflawni er mwyn gwireddu pob canlyniad a monitro ac olrhain cynnydd tuag at gyflawni canlyniadau personol (gweler y cod a ddyroddwyd ar gyfer Rhan 4 o'r Ddeddf, ar gynllunio gofal, a'r cod mewn perthynas â mesur perfformiad gwasanaethau cymdeithasol).

48. Mae gan bawb hawl i lesiant ac mae'n gyfrifoldeb i bawb. **Rhaid** i awdurdodau lleol edrych ar yr hyn y gall pobl a'u cymunedau ei gyfrannu at sicrhau eu llesiant, a **rhaid** i'w rolau a'u cyfrifoldebau gael eu cofnodi mewn cynllun gofal a chymorth. Bydd hyn yn golygu adeiladu ar adnoddau pobl, gan gynnwys eu cryfderau, eu medrau, eu teuluoedd a'u cymunedau (gweler y Cod a ddyroddwyd ar gyfer Rhan 4 o'r Ddeddf, ar gynllunio gofal).

49. **Rhaid** i'r gwaith o integreiddio gwasanaethau ganolbwyntio ar bobl er mwyn sicrhau canlyniadau personol. Mae gwasanaethau'n gwneud cyfraniadau penodol i helpu pobl i sicrhau llesiant. **Rhaid** i awdurdod lleol weithio gyda phob un o'i adrannau ei hun a gyda phartneriaid perthnasol eraill yr ystyrir eu bod yn hanfodol i helpu pobl i sicrhau eu llesiant (gweler adrannau 162 a 163 o'r Ddeddf mewn perthynas â'r dyletswyddau ar awdurdodau lleol i hyrwyddo cydweithredu).

## Dyletswyddau hollgyffredinol

50. Os bydd awdurdod lleol yn trefnu i drydydd parti ddarparu gwasanaethau cymdeithasol ar ei ran, bydd y dyletswyddau hollgyffredinol yn adrannau 6 a 7 o'r Ddeddf yn aros gyda'r awdurdod. **Rhaid** i'r awdurdod gymryd camau i sicrhau bod pob gwasanaeth yn cael ei gyflenwi mewn ffordd sy'n cydymffurfio â'r dyletswyddau hollgyffredinol hyn.

## Dyletswyddau hollgyffredinol eraill: cyffredinol

51. Mae adran 6 o'r Ddeddf yn amlinellu amryw o ddyletswyddau hollgyffredinol sy'n gymwys pan fydd pobl yn arfer swyddogaethau o dan y Ddeddf mewn perthynas ag:

   a) unigolyn sydd ag anghenion gofal a chymorth, neu a allai fod ag anghenion o'r fath
   b) gofalwr sydd ag anghenion gofal a chymorth, neu a allai fod ag anghenion o'r fath
   c) plant sy'n derbyn gofal a phlant sy'n cael eu lletya

52. Mae'r dyletswyddau hollgyffredinol a amlinellir yn adran 6 o'r Ddeddf yn gymwys pan fydd yr unigolyn angen gofal a chymorth neu pan fydd gofalwr angen cymorth, hyd yn oed os na phennwyd bod gan yr unigolyn anghenion o'r fath, neu os pennwyd nad yw'r anghenion hynny yn bodloni'r meini prawf cymhwysedd ond bod gan yr unigolyn anghenion gofal a chymorth y gellir eu diwallu mewn ffyrdd eraill.

53. **Rhaid** i berson sy'n arfer swyddogaethau o dan y Ddeddf mewn perthynas ag unigolyn gydymffurfio â'r dyletswyddau hollgyffredinol. Bydd rhai o'r dyletswyddau hollgyffredinol hyn yn gymwys ym mhob achos, waeth a yw'r swyddogaethau'n cael eu cyflawni mewn perthynas ag oedolyn neu mewn perthynas â phlentyn. Mae'r rhain wedi'u hamlinellu yn adran 6(2) o'r Ddeddf. Mae dyletswyddau hollgyffredinol eraill sy'n gymwys hefyd, naill ai pan fo swyddogaethau'n cael eu cyflawni mewn perthynas ag oedolion (fel yr amlinellir yn adran 6(3)) neu mewn perthynas â phlant (adran 6(4)). Dyma'r dyletswyddau hollgyffredinol hyn:

   - **Y ddyletswydd gyffredinol i ganfod barn, dymuniadau a theimladau'r unigolyn a rhoi sylw i'r farn honno, y dymuniadau hynny a'r teimladau hynny, i'r graddau y mae'n rhesymol ymarferol (adran 6(2)(a)).**

   Mae hon yn broses annatod o ran deall ac asesu canlyniadau personol, beth sy'n bwysig i bobl a'u hanghenion gofal a chymorth. **Rhaid** i awdurdodau lleol ystyried barn, dymuniadau a theimladau pobl wrth nodi, asesu a helpu pobl i sicrhau llesiant, yn enwedig os yw'r safbwyntiau hyn yn effeithio ar y penderfyniadau ynglŷn â gofal a chymorth ac os yw pobl wedi mynegi unrhyw farn, dymuniadau a theimladau yn y gorffennol ond nad ydynt bellach yn gallu gwneud hynny.

- **Y ddyletswydd hollgyffredinol i roi sylw i bwysigrwydd hyrwyddo a pharchu urddas yr unigolyn (adran 6(2)(b)).**

Rhan allweddol o'r gwaith o helpu pobl i gyflawni'r hyn sy'n bwysig iddynt, ac o osod pobl wrth graidd eu gofal a'u cymorth, fydd hyrwyddo a pharchu urddas person. **Rhaid** i awdurdodau lleol roi sylw i hyrwyddo a pharchu urddas unigolyn.

- **Y ddyletswydd hollgyffredinol i roi sylw i bwysigrwydd darparu cymorth priodol er mwyn galluogi'r unigolyn i gymryd rhan yn y penderfyniadau sy'n effeithio arno i'r graddau sy'n briodol o dan yr amgylchiadau, yn enwedig pan fo gallu'r unigolyn i gyfathrebu wedi'i gyfyngu am unrhyw reswm (adran 6(2)(d).**

Mae paragraff 35 uchod yn amlinellu rolau teulu, ffrindiau, gofalwyr, rhwydweithiau cymorth ehangach neu eiriolwyr annibynnol o ran darparu cymorth priodol i sicrhau bod unigolion yn cael eu cynnwys yn weithredol yn eu gofal a'u cymorth. Mae canllawiau manwl wedi'u hamlinellu yn y cod ymarfer ar eiriolaeth o dan Ran 10 a rhannau perthnasol eraill o'r Ddeddf.

Mewn perthynas â phlant, bydd hyn yn dibynnu ar eu hoedran a'u dealltwriaeth a dylent gael eu cefnogi gan amrywiaeth o ymarferwyr a phobl eraill sy'n dod i gysylltiad â nhw, gan gynnwys eu teulu a'u ffrindiau. Yn ogystal â hyn, **rhaid** i unrhyw bobl sy'n darparu gofal a chymorth i blentyn o dan 16 oed gael barn y bobl sydd â chyfrifoldeb rhiant dros y plentyn. Bydd hyn yn hollbwysig o ran pennu sut y gellir cyflawni canlyniadau personol.

- **Y ddyletswydd hollgyffredinol i roi sylw i nodweddion, diwylliant a chredoau'r unigolyn (gan gynnwys, er enghraifft, iaith) (adran 6(2)(c).**

Bydd hyn yn unigryw i bob person. Er enghraifft, efallai y bydd gan rai pobl gredoau ysbrydol neu grefyddol sydd o bwys arbennig iddynt. **Rhaid** i awdurdodau lleol ystyried amgylchiadau unigol pobl a sicrhau bod y rhain yn cael eu hadlewyrchu wrth hyrwyddo eu llesiant.

Mae'r Ddeddf yn diffinio llesiant. Mae'r diffiniad hwn yn cynnwys 'sicrhau hawliau a hawlogaethau' ('*securing rights and entitlements'*). I lawer o bobl, mae iaith yn rhan annatod o'u gofal a bydd sicrhau hawliau a hawlogaethau yn golygu gallu defnyddio eu hiaith eu hunain i gyfathrebu a chymryd rhan yn eu gofal fel partneriaid cyfartal.

Dylai awdurdodau lleol yn benodol sicrhau bod gwasanaethau Cymraeg yn cael eu hymgorffori mewn gwaith dylunio a chyflenwi a bod gwasanaethau Cymraeg yn cael eu cynnig i siaradwyr Cymraeg heb iddynt orfod gofyn amdanynt. Mae Llywodraeth Cymru wedi sefydlu fframwaith strategol ar gyfer gwasanaethau Cymraeg mewn iechyd, gwasanaethau cymdeithasol a gofal cymdeithasol (*Mwy na geiriau...*). (3)

Mae'r Fframwaith yn amlinellu chwe amcan allweddol y mae angen i bob sefydliad (gan gynnwys awdurdodau lleol) weithio tuag atynt. Mae hyn yn cynnwys yr amcan o ddefnyddio dull systematig o ran gwasanaethau Cymraeg fel rhan annatod o'r broses o ddylunio a chyflenwi gwasanaethau.

- **Y ddyletswydd hollgyffredinol (mewn perthynas ag oedolion) i roi sylw i bwysigrwydd dechrau â'r rhagdybiaeth mai'r oedolyn sydd yn y sefyllfa orau i farnu llesiant yr oedolyn (adran 6(3)(a)).**

**Rhaid** i awdurdodau lleol roi sylw i bwysigrwydd dechrau **â'r** rhagdybiaeth mai'r oedolyn sydd yn y sefyllfa orau i farnu llesiant yr oedolyn. **Rhaid** i hyn gael ei wneud yn rhan annatod o arferion i sicrhau bod pobl yn bartneriaid cyfartal yn y broses o ddylunio a chyflenwi eu gofal. Bydd hyn yn cynnwys pennu'r hyn sy'n bwysig iddynt a'r hyn y maent am ei gyflawni. **Ni chaiff** awdurdodau lleol wneud unrhyw benderfyniadau yn seiliedig ar ragdybiaethau ynglŷn ag amgylchiadau person.

- **Y ddyletswydd hollgyffredinol (mewn perthynas ag oedolion) i roi sylw i bwysigrwydd hyrwyddo annibyniaeth yr oedolyn pan fo'n bosibl (adran 6(3)(b)).**

54. **Rhaid** i awdurdodau lleol roi sylw i bwysigrwydd hyrwyddo annibyniaeth yr oedolyn lle y bo hynny'n bosibl.

55. Diffinnir llesiant mewn perthynas â phob agwedd ar fywyd person. Ar gyfer person sydd angen gofal a chymorth a gofalwr sydd angen cymorth, y bwriad yw y bydd llesiant yn cynnwys agweddau allweddol ar fyw'n annibynnol, fel y nodir yng Nghonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau Pobl ag Anableddau (yn enwedig Erthygl 19 o'r Confensiwn).

**3** https://www.llyw.cymru/mwy-na-geiriau-cynllun-y-gymraeg-mewn-iechyd-gofal-cymdeithasol

56. Mae'r dull o hyrwyddo llesiant pobl drwy nodi'r canlyniadau personol y maent am eu cyflawni ym mhob agwedd ar eu bywydau pob dydd, a'r rhwystrau y maent yn eu hwynebu wrth geisio cyflawni'r canlyniadau hyn, yn un sy'n cydnabod y gall gofal a chymorth gyfrannu at ddileu rhwystrau o'r fath yn unol â'r model cymdeithasol o anabledd. Mae'n cydnabod y gall pobl anabl gyflawni eu potensial a chymryd rhan lawn fel aelod o gymdeithas, yn unol â Fframwaith Gweithredu Byw'n Annibynnol Llywodraeth Cymru.

57. Mae Fframwaith Gweithredu Byw'n Annibynnol Llywodraeth Cymru yn mynegi hawliau pobl anabl i gymryd rhan lawn ym mhob agwedd ar fywyd. (**4**)

- **Y ddyletswydd hollgyffredinol (mewn perthynas â phlant) i roi sylw i bwysigrwydd hyrwyddo magwraeth y plentyn gan deulu'r plentyn, i'r graddau y mae gwneud hynny yn gyson â hyrwyddo llesiant y plentyn (adran 6(4)(a)).**

Wrth arfer swyddogaethau o dan y Ddeddf mewn perthynas â phlentyn sydd angen gofal a chymorth neu y gall fod ganddo anghenion gofal a chymorth (neu, os yw'r plentyn yn ofalwr, ei fod angen gofal a chymorth neu y gall fod ganddo anghenion gofal a chymorth), neu wrth arfer swyddogaethau o dan Ran 6 o'r Ddeddf mewn perthynas â phlant sy'n derbyn gofal, **rhaid** i awdurdodau lleol roi sylw i bwysigrwydd hyrwyddo magwraeth y plentyn gan deulu'r plentyn, i'r graddau y mae gwneud hynny yn gyson â hyrwyddo llesiant y plentyn. **Rhaid** i awdurdodau lleol ddatblygu eu gwasanaethau ataliol a llesiant i gefnogi'r dyletswyddau hollgyffredinol.

- **Y ddyletswydd hollgyffredinol (mewn perthynas â phlant o dan 16 oed) i ganfod barn, dymuniadau a theimladau'r personau sydd â chyfrifoldeb rhiant dros y plentyn, a rhoi sylw i'r farn honno, y dymuniadau hynny a'r teimladau hynny, i'r graddau y mae gwneud hynny a) yn gyson â hyrwyddo llesiant y plentyn, a b) yn rhesymol ymarferol (adran 6(4)(b)).**

**Rhaid** i awdurdodau lleol ystyried barn, dymuniadau a theimladau'r personau sydd â chyfrifoldeb rhiant dros blentyn sydd o dan 16 oed, a rhoi sylw i'r farn honno, y dymuniadau hynny a'r teimladau hynny, i'r graddau y mae gwneud hynny yn gyson â hyrwyddo llesiant y plentyn

**4** https://www.llyw.cymru/gweithredu-ar-anabledd-hawl-i-fywn-annibynnol-fframwaith-chynllun-gweithredu

ac i'r graddau y mae gwneud hynny yn rhesymol ymarferol. Wrth asesu a chyflenwi gofal a chymorth, **rhaid** i awdurdodau lleol weithio gyda rhieni plant i ddatblygu cynllun gofal a chymorth sy'n hyrwyddo magwraeth plentyn gyda'i deulu, yn gyson ag anghenion diogelu a dymuniadau a theimladau'r plentyn (gweler y canllawiau statudol a ddyroddwyd o dan Ran 7 o'r Ddeddf).

## Ystyr 'rhoi sylw'

58. Mae'r dyletswyddau hollgyffredinol yn adran 6 o'r Ddeddf yn ei gwneud yn ofynnol i'r sawl sy'n arfer swyddogaethau o dan y Ddeddf 'roi sylw' i faterion penodol. Yng nghyd-destun y dyletswyddau hollgyffredinol hyn, mae gofyniad i 'roi sylw' i fater penodol yn debyg i ofyniad i 'ystyried' y mater hwnnw.

59. **Rhaid** i awdurdod lleol ddangos ei fod wedi cydymffurfio â'r dyletswyddau hollgyffredinol mewn ffordd ystyrlon. **Rhaid** i awdurdod lleol bennu sut y gellid cyflawni'r gydymffurfiaeth honno. Mae trefniadau megis hyfforddiant staff a chyflwyno camau diogelu gweithdrefnol yn enghreifftiau o ffyrdd o sicrhau cydymffurfiaeth.

60. I sicrhau eu bod yn cydymffurfio â'r dyletswyddau hollgyffredinol, dylai awdurdodau lleol ystyried y canlynol wrth arfer swyddogaethau mewn perthynas ag unigolion:

- Dylai awdurdod lleol allu dangos ei fod wedi cydymffurfio â'r dyletswyddau hollgyffredinol i roi sylw i'r materion penodol sy'n berthnasol i'r penderfyniad pan fo penderfyniad penodol yn cael ei wneud mewn perthynas ag unigolyn sydd angen gofal a chymorth;
- Dylai awdurdod lleol gadw cofnod cywir o'r ffordd y mae wedi rhoi sylw i'r materion penodol hynny wrth wneud penderfyniadau ynglŷn â nodi anghenion unigolyn a darparu gwasanaethau i ddiwallu'r anghenion hynny.
- Dylai awdurdod lleol roi'r pwys sy'n briodol o dan yr holl amgylchiadau, gan gydbwyso hyn yn erbyn unrhyw ffactorau eraill sy'n berthnasol i'r penderfyniad dan sylw.

61. Mae gan unigolion hawl i gyflwyno cwyn yn uniongyrchol i awdurdod lleol os ydynt yn teimlo nad yw'r awdurdod lleol wedi cydymffurfio â'r dyletswyddau hollgyffredinol wrth gyflawni ei swyddogaethau o dan y Ddeddf, er enghraifft, wrth wneud penderfyniadau ynglŷn â nodi anghenion unigolyn a darparu gwasanaethau i ddiwallu'r anghenion hynny. Cyhoeddwyd canllawiau i wasanaethau cymdeithasol awdurdodau lleol ynglŷn â sut i ymdrin â chwynion a sylwadau ym mis

Awst 2014. Mae'r rhain yn amlinellu manylion y broses ddau gam y mae'n **rhaid** i awdurdodau lleol ei dilyn wrth ymateb i unrhyw gwynion am y ffordd y maent yn cyflawni unrhyw un o'i swyddogaethau gwasanaethau cymdeithasol. (5)

## Dyletswyddau hollgyffredinol eraill: Egwyddorion a Chonfensiynau'r Cenhedloedd Unedig

62. Mae adran 7 o'r Ddeddf yn gosod dyletswyddau ar bobl sy'n arfer swyddogaethau o dan y Ddeddf i roi sylw dyladwy i Egwyddorion y Cenhedloedd Unedig ar gyfer Pobl Hŷn a Chonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn. Mae'r dyletswyddau hyn yn gymwys pan fo person yn arfer swyddogaethau mewn perthynas ag unigolyn. Mae ystyr rhoi 'sylw dyladwy' i gonfensiynau ac egwyddorion y Cenhedloedd Unedig a amlinellir yn adran 7 o'r Ddeddf yr un fath ag ystyr 'rhoi sylw' i'r materion penodol yn adran 6 o'r Ddeddf. I sicrhau eu bod yn cydymffurfio ag egwyddorion a chonfensiynau'r Cenhedloedd Unedig, dylai awdurdodau lleol ystyried y canllawiau ym mharagraffau 59 i 62 o'r Cod hwn. Mae'r canllawiau hyn wedi'u datblygu fel eu bod yn cyd-fynd ag 'egwyddorion Brown' (**6**)

63. Wrth arfer swyddogaethau o dan y Ddeddf mewn perthynas ag oedolion sydd angen gofal a chymorth a gofalwyr sydd angen cymorth, **rhaid** i unrhyw bersonau sy'n arfer swyddogaethau o dan y Ddeddf roi sylw dyladwy i **Egwyddorion y Cenhedloedd Unedig ar gyfer Pobl Hŷn** a fabwysiadwyd gan Gynulliad Cyffredinol y Cenhedloedd Unedig ar 16 Rhagfyr 1991. Ceir 18 egwyddor, wedi'u grwpio'n 5 thema: annibyniaeth, cyfranogi, hunangyflawniad, gofal ac urddas.

64. Wrth arfer swyddogaethau o dan y Ddeddf mewn perthynas â phlant sydd angen gofal a chymorth, gofalwyr ifanc sydd angen cymorth, a phersonau y mae swyddogaethau'n cael eu cyflawni mewn cysylltiad â nhw o dan Ran 6 (plant sy'n derbyn gofal a phlant sy'n cael eu lletya), **rhaid** i unrhyw bersonau sy'n arfer swyddogaethau o dan y Ddeddf roi sylw dyladwy i Ran 1 o **Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn.** Nid yw'r ddyletswydd hon yn gymwys i Weinidogion Cymru gan fod ganddynt eisoes ddyletswydd i roi sylw

---

**5** https://www.llyw.cymru/gweithdrefn-gwynion-y-gwasanaethau-cymdeithasoledure

**6** Yn R. (Brown) v Secretary of State for Work and Pensions [2008] EWHC 3158, ystyriodd y llys beth y mae'n rhaid i gorff perthnasol ei wneud i fodloni ei rwymedigaeth i roi sylw dyladwy i'r amcanion a amlinellir yn y ddyletswydd cydraddoldeb gyffredinol. Y ddyletswydd cydraddoldeb yn Brown oedd y Ddyletswydd Cydraddoldeb i Bobl Anabl yn a.49A o Ddeddf Gwahaniaethu ar sail Anabledd 1995. Mae achosion diweddar wedi cadarnhau bod yr egwyddorion yn Brown yn gymwys hefyd i'r ddyletswydd yn a.149 o Ddeddf Cydraddoldeb 2010.

dyladwy i'r Confensiwn yn unol â Mesur Hawliau Plant a Phobl Ifanc (Cymru) 2011.

65. Yn ogystal ag egwyddorion a chonfensiynau'r Cenhedloedd Unedig a amlinellir yn y Ddeddf, wrth arfer swyddogaethau gwasanaethau cymdeithasol mewn perthynas â phobl anabl sydd angen gofal a chymorth a gofalwyr anabl sydd angen cymorth, **rhaid** i awdurdodau lleol roi sylw dyladwy i Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau Pobl ag Anableddau.

## Monitro Llesiant

66. Mae adran 8 o'r Ddeddf yn nodi bod **rhaid** i Weinidogion Cymru hefyd nodi mesurau canlyniadau ar gyfer asesu a yw'r canlyniadau personol wedi'u cyflawni.

67. Mae'r fframwaith canlyniadau cenedlaethol ar gyfer pobl sydd angen gofal a chymorth a gofalwyr sydd angen cymorth wedi'i gyhoeddi. Bydd hwn yn darparu tystiolaeth ynghylch a yw llesiant yn cael ei gyflawni.

68. Bydd y fframwaith canlyniadau cenedlaethol yn darparu tystiolaeth ynghylch a yw gwasanaethau gofal a chymorth yn gwella canlyniadau llesiant i bobl yng Nghymru gan ddefnyddio dangosyddion cyson a chymaradwy.

69. Mae'r fframwaith canlyniadau cenedlaethol ar gyfer pobl sydd angen gofal a chymorth ar gael yn: lFframwaith canlyniadau cenedlaethol gwasanaethau cymdeithasol | LLYW.CYMRU

70. Bydd fframwaith mesur perfformiad ar gyfer gwasanaethau gofal a chymorth yn sail i'r fframwaith canlyniadau cenedlaethol ac yn dangos y cyfraniad mae gwasanaethau'n ei wneud at helpu pobl i sicrhau llesiant.

71. Mae fframwaith perfformiad ar gyfer awdurdodau lleol wedi'i gynnwys yn y cod ymarfer mewn perthynas â pherfformiad gwasanaethau cymdeithasol. **Rhaid** i awdurdodau lleol gydymffurfio â'r safonau ansawdd a'r mesurau perfformiad a amlinellir yn y cod ymarfer mewn perthynas â mesur perfformiad gwasanaethau cymdeithasol, a ddyroddwyd ar wahân o dan adran 145 o'r Ddeddf.

# 2. Asesiad o Anghenion y Boblogaeth

## Cyflwyniad

72. Diben y bennod hon yw amlinellu:

- y gofyniad ar awdurdodau lleol a byrddau iechyd i gynnal asesiad i weld i ba raddau y mae yna bobl sydd angen gofal a chymorth a gofalwyr sydd angen cymorth;
- y gofyniad ar awdurdodau lleol o fewn ardal bwrdd iechyd i lunio un trefniant partneriaeth gyda'r bwrdd iechyd hwnnw at ddibenion cynnal yr asesiad hwn.

73. Mae pennod 2a o'r Cod ymarfer hwn yn gymwys i awdurdodau lleol mewn perthynas â'u swyddogaethau gwasanaethau cymdeithasol. Mae pennod 2b yn ganllawiau statudol a ddyroddir o dan adran 169 o'r Ddeddf, ac maent yn gymwys i awdurdodau lleol ac i fyrddau iechyd. Bydd goblygiadau hefyd i gyrff partner megis y trydydd sector a'r sector annibynnol ac i bobl sydd angen gofal a chymorth a gofalwyr sydd angen cymorth yng Nghymru.

## Y cyd-destun

74. Mae'r bennod hon yn rhoi sylw i adran 14 ac i reoliadau a wnaed o dan adran 14 ac adran 166 o'r Ddeddf. Mae adran 14 o'r Ddeddf yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol a byrddau iechyd gynnal asesiad ar y cyd o'r anghenion gofal a chymorth, ac anghenion cymorth gofalwyr yn ardal yr awdurdod lleol. **Rhaid** i'r asesiad hwn nodi'r canlynol hefyd:

- i ba raddau nad yw'r anghenion hynny'n cael eu diwallu
- ystod a lefel y gwasanaethau sy'n ofynnol er mwyn diwallu'r anghenion hynny
- ystod a lefel y gwasanaethau sy'n ofynnol er mwyn cyflenwi'r gwasanaethau ataliol
- gwasanaethau sy'n ofynnol yn adran 15 o'r Ddeddf
- sut y bydd y gwasanaethau hyn yn cael eu cyflenwi drwy gyfrwng y Gymraeg.

75. Mae adran 14 o'r Ddeddf hefyd yn rhoi'r pŵer i Weinidogion Cymru gyflwyno rheoliadau mewn perthynas â'r modd y cynhelir yr asesiadau hyn, megis o ran eu hamseru a'u hadolygu.

76. Mae adran 166 o’r Ddeddf yn darparu pwerau gwneud rheoliadau i Weinidogion Cymru i’w gwneud yn ofynnol creu trefniadau partneriaeth penodol ar gyfer darparu gwasanaethau cymdeithasol neu arfer swyddogaethau bwrdd iechyd. Gallai’r rhain fod yn drefniadau partneriaeth gan un neu ragor o awdurdodau lleol ac un neu ragor o fyrddau iechyd. I ddarparu ar gyfer asesiadau anghenion poblogaeth mwy effeithiol o dan adran 14 o’r Ddeddf, **rhaid** i drefniadau partneriaeth gael eu sefydlu fel bod pob bwrdd iechyd a’r awdurdodau lleol yn ardal pob bwrdd iechyd yn cydgysylltu’r ymarfer asesu fel y gellir cynhyrchu adroddiad cyfunol ar yr asesiad o anghenion y boblogaeth yn ardal y bwrdd iechyd.

## Diben

77. Diben yr asesiad o anghenion y boblogaeth yw sicrhau bod awdurdodau lleol a byrddau iechyd ar y cyd yn cynhyrchu sylfaen dystiolaeth glir a phenodol mewn perthynas ag anghenion pobl sydd angen gofal a chymorth, a gofalwyr, fel sail i’r gwaith o gyflawni eu swyddogaethau statudol a llywio penderfyniadau cynllunio a gweithredol. Bydd hyn yn sicrhau bod gwasanaethau’n cael eu cynllunio a’u datblygu mewn ffordd effeithlon ac effeithiol gan bartneriaid yn y sector cyhoeddus er mwyn hyrwyddo llesiant pobl ag anghenion gofal a chymorth.

78. Bydd asesiad o anghenion y boblogaeth yn sbarduno newid, gan gynnwys drwy alluogi awdurdodau lleol a byrddau iechyd i ganolbwyntio ar ddulliau ataliol a hirdymor o fynd ati o ran anghenion gofal a chymorth. Bydd yn darparu’r wybodaeth ofynnol i gefnogi penderfyniadau yn ymwneud ag adnoddau a chyllidebau, gan sicrhau bod gwasanaethau a chanlyniadau yn cael eu targedu, a’u bod yn gynaliadwy, yn effeithiol ac yn effeithlon. Bydd yn sail i’r gwaith o integreiddio gwasanaethau a chefnogi’r dyletswyddau a amlinellir yn Rhan 9 o’r Ddeddf yn enwedig.

79. **Ni chaniateir** ystyried asesiadau anghenion poblogaeth fel ymarferiad i fodloni Llywodraeth Cymru. Maent yn ddulliau allweddol o lywio'r broses o gynllunio a chyflenwi gwasanaethau iechyd a gofal integredig ar draws y rhanbarth, ac mae gofyn cael arweiniad clir a chyfranogaeth gan y bwrdd partneriaeth rhanbarthol. **Rhaid** i awdurdodau lleol a byrddau iechyd sicrhau bod adroddiad yr asesiad o anghenion y boblogaeth yn llywio’r gwaith cynllunio a chyflenwi integredig mewn modd ystyrlon. **Rhaid** iddynt adolygu ac adnewyddu’r dystiolaeth sydd

ynddo'n rheolaidd yn unol ag unrhyw newidiadau, neu unrhyw newidiadau a ddisgwylir, yn ystod y cylch adrodd.

80. Dylid ystyried asesiadau anghenion poblogaeth yn rhan o lwybr parhaus sy'n adeiladu ar wybodaeth sefydledig, yn ei mireinio ac yn ychwanegu ati; gan gynnwys gwybodaeth a gasglwyd mewn cylchoedd blaenorol o asesu anghenion y boblogaeth a gwybodaeth a gasglwyd o fannau eraill, lle y bo hynny'n berthnasol

81. Mae'r asesiad hwn o anghenion y boblogaeth yn cysylltu â gofynion eraill ar wasanaethau cymdeithasol awdurdod lleol o dan y Ddeddf, ac yn eu hategu. Er enghraifft, bydd yr asesiad yn helpu awdurdodau lleol i fodloni'r gofyniad yn adran 16 o'r Ddeddf i hyrwyddo mentrau cymdeithasol, mentrau cydweithredol, gwasanaethau sy'n cael eu harwain gan ddefnyddwyr, a'r trydydd sector. Bydd yn cefnogi'r gofyniad i nodi'r gofal a'r cymorth a'r gwasanaethau ataliol y dylai'r modelau gwasanaeth amgen hyn eu darparu. Yn yr un modd, bydd yn llywio natur y gwasanaeth gwybodaeth, cyngor a chynhorthwy sy'n ofynnol.

82. Mae'r Ddeddf yn ei gwneud yn glir bod **rhaid** i'r asesiad o anghenion y boblogaeth gael ei ystyried wrth gynhyrchu strategaethau iechyd a llesiant yn unol â Deddf Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2006 a chynlluniau plant a phobl ifanc yn unol â Deddf Plant 2004. **Rhaid** i'r asesiad o anghenion y boblogaeth roi'r lle blaenaf i lesiant yn ei ystyriaethau, a sicrhau ei fod yn cyd-fynd â'r Pum Ffordd o Weithio a ymgorfforwyd yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015. Bydd Llywodraeth Cymru yn sicrhau bod cysylltiad statudol yn parhau ag unrhyw ddeddfwriaeth bellach yn ymwneud â swyddogaeth cynllunio strategol awdurdodau cyhoeddus. Y disgwyliad yw y bydd yr asesiad o anghenion y boblogaeth a amlinellir yn y Cod hwn yn gwneud cyfraniad sylweddol at ddatblygu elfennau unrhyw gynlluniau a strategaethau yn ymwneud ag iechyd a gwasanaethau cymdeithasol, nawr neu yn y dyfodol.

83. Mae'r Cynlluniau Tymor Canolig Integredig a gynhyrchir gan fyrddau iechyd dros gyfnod o dair blynedd, fel sy'n ofynnol gan Ddeddf Cyllid y GIG (Cymru) 2014, yn amlinellu sut y bydd adnoddau yn cael eu defnyddio i fynd i'r afael ag anghenion iechyd y boblogaeth a gwella canlyniadau iechyd, gwella ansawdd gofal a sicrhau'r gwerth gorau o adnoddau. Bydd asesiadau anghenion poblogaeth a gynhelir o dan adran 14 o'r Ddeddf yn llywio'r cynlluniau hyn ac yn cael eu llywio ganddynt.

84. Mae Rhan 2 o Ddeddf Tai (Cymru) 2014 yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol gynhyrchu strategaeth digartrefedd at ddibenion atal ac ymateb i ddigartrefedd. Gan ei bod yn debygol y bydd gan y rhai sy'n cael eu heffeithio, neu sy'n wynebu risg o gael eu heffeithio gan ddigartrefedd, anghenion gofal a chymorth, dylai'r asesiad o anghenion y boblogaeth hwn lywio'r gwaith o gynhyrchu strategaeth digartrefedd.

85. Bydd Arolygiaeth Gofal Cymru ac Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru yn ystyried asesiadau anghenion poblogaeth sydd wedi'u cynhyrchu wrth arolygu adrannau gwasanaethau cymdeithasol awdurdodau lleol a byrddau iechyd.

## **2A.** Cynnal asesiad poblogaeth o anghenion gofal a chymorth ac anghenion gofalwyr am gymorth

### Cynhyrchu adroddiad yr asesiad o anghenion y boblogaeth

86. **Rhaid** cynhyrchu adroddiad ar yr asesiad o anghenion y boblogaeth. Mae pennod 2b o’r Cod hwn yn amlinellu’r gofyniad i lunio trefniant partneriaeth at ddibenion cynnal asesiad o anghenion y boblogaeth. Dylai awdurdodau lleol a’r bwrdd iechyd mewn trefniant partneriaeth gyfuno eu hasesiadau anghenion poblogaeth mewn un adroddiad. Felly, dylai cyfanswm o saith adroddiad cyfunol ar asesiadau anghenion poblogaeth gael eu cyhoeddi yn unol â’r trefniadau partneriaeth a amlinellir ym mhennod 2B.

87. Mae asesiadau anghenion poblogaeth yn canolbwyntio ar anghenion iechyd a gofal cymdeithasol. Dylent hefyd adlewyrchu gwybodaeth ehangach gan gynnwys yr asesiadau llesiant a wneir gan Fyrddau Gwasanaethau Cyhoeddus a gwaith Pwyllgorau Cydweithredol Rhanbarthol (tai) a chlystyrau gofal sylfaenol, gan gynnwys cynllunio ar draws clystyrau. Efallai y bydd awdurdodau lleol a byrddau iechyd, mewn cytundeb partneriaeth, am ystyried cyfuno eu hasesiadau o anghenion y boblogaeth ag asesiadau llesiant y Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus mewn un adroddiad asesu rhanbarthol.

88. Mae adolygu, asesu a chynllunio parhaus yn hanfodol er mwyn sicrhau bod gwasanaethau'n parhau i fod yn gyfredol ac yn effeithiol o ran cyflawni canlyniadau gwell i bobl. Adnodd byw yw asesiadau anghenion poblogaeth, yn hytrach nag ymarferiad untro, a dylent gael eu hadolygu'n rheolaidd, eu dadansoddi’n unol â thystiolaeth sydd ar gael yn rhwydd, a'u diweddaru yn ôl yr angen.

89. Mae’n ofynnol i’r awdurdod lleol a’r bwrdd iechyd gymeradwyo adroddiad yr asesiad o anghenion y boblogaeth yn ffurfiol.

90. Ar ôl iddynt gael eu cwblhau, **rhaid** i adroddiadau asesu gael eu cyhoeddi ar wefannau pob awdurdod lleol a bwrdd iechyd oedd yn rhan o’r gwaith o’u cynhyrchu. Yn ogystal, **rhaid** i gopi o adroddiad yr asesiad o anghenion y boblogaeth gael ei anfon at Weinidogion Cymru adeg ei gyhoeddi. Gall y swyddogaeth hon gael ei dirprwyo i’r corff cydgysylltu arweiniol (gweler pennod 2B).

91. Dylai adroddiad yr asesiad o anghenion y boblogaeth gael ei ddrafftio gan ddefnyddio iaith hygyrch fel y gall aelodau’r cyhoedd ei ystyried. Mae’n bwysig bod yr adroddiad asesu yn esbonio sut y daeth yr

awdurdodau lleol a'r bwrdd iechyd i'w penderfyniad mewn perthynas â'r anghenion a nodir a lefel y gwasanaethau sy'n ofynnol i ddiwallu'r anghenion hynny.

### Amserlen ar gyfer cynnal asesiad o anghenion y boblogaeth

92. **Rhaid** i awdurdodau lleol a byrddau iechyd gynhyrchu un adroddiad ar asesiad o anghenion y boblogaeth ym mhob cylch etholiadol llywodraeth leol.

93. Dylai adroddiadau'r asesiadau o anghenion y boblogaeth gael eu cynhyrchu o fewn amserlen a fydd yn llywio unrhyw system gynllunio integredig ehangach mewn ffordd ystyrlon. Dylent gyd-fynd â'r amserlenni ar gyfer cynhyrchu asesiadau llesiant ac adroddiadau ar sefydlogrwydd y farchnad. Dylai'r dystiolaeth o'r asesiadau anghenion poblogaeth a'r adroddiadau ar sefydlogrwydd y farchnad helpu i lywio'r cynlluniau ardal ar y cyd.

## Asesiadau o'r Effaith ar Gydraddoldeb

94. Fel yr amlinellir ym mhennod 1 o'r Cod hwn, **rhaid** i awdurdodau lleol roi sylw dyladwy i Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau Pobl ag Anableddau, Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn ac Egwyddorion y Cenhedloedd Unedig ar gyfer Pobl Hŷn mewn perthynas ag unigolyn sydd angen gofal a chymorth a gofalwr sydd angen cymorth. Yn ogystal, mae Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus yn adran 149 o Ddeddf Cydraddoldeb 2010 yn ei gwneud yn ofynnol i bob awdurdod lleol roi sylw dyladwy i nodweddion gwarchodedig wrth gyflawni eu swyddogaethau.

95. Felly, **rhaid** i awdurdodau lleol a byrddau iechyd gynnal Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb fel rhan o'r broses o gynnal asesiad o anghenion y boblogaeth. **Rhaid** i hyn gynnwys asesiadau effaith o ran oedran, anabledd, ailbennu rhywedd, priodas a phartneriaeth sifil, beichiogrwydd a mamolaeth, hil, crefydd a chredoau, rhyw a chyfeiriadedd rhywiol.

## Adolygu adroddiadau ar asesiadau o anghenion y boblogaeth

96. Wrth gynhyrchu adroddiad yr asesiad o anghenion y boblogaeth, **rhaid** i awdurdodau lleol a byrddau iechyd edrych i'r dyfodol ac ystyried yr anghenion gofal a chymorth ac anghenion gofalwyr ar gyfer y cyfnod hyd at gyhoeddi'r asesiad o anghenion y boblogaeth nesaf.

97. Fodd bynnag, o ystyried y gall amgylchiadau newid, **rhaid** i'r cytundeb partneriaeth a sefydlwyd i gynnal yr asesiad o anghenion y boblogaeth adolygu adroddiad yr asesiad yn rheolaidd. Dylai'r adroddiad gael ei adolygu fel y bo'n ofynnol, ond o leiaf unwaith hanner ffordd drwy gyfnod yr asesiad o anghenion y boblogaeth. Os bydd yr adolygiad hwn yn nodi newid sylweddol mewn anghenion gofal a chymorth neu anghenion gofalwyr, dylai adendwm gael ei gynhyrchu, ei gyhoeddi a'i anfon at Weinidogion Cymru.

## Strwythur adroddiad yr asesiad o anghenion y boblogaeth

98. Dylai fod dwy ran i adroddiad yr asesiad o anghenion y boblogaeth:
- asesiad o'r angen
- ystod a lefel y gwasanaethau sy'n ofynnol.

## Adran 1: Asesiad o'r angen

99. **Rhaid** i awdurdodau lleol a byrddau iechyd asesu'r canlynol ar y cyd:

- i ba raddau y mae yna bobl yn yr ardal asesu sydd angen gofal a chymorth
- i ba raddau y mae yna ofalwyr yn yr ardal asesu sydd angen cymorth
- i ba raddau y mae yna bobl nad yw eu hanghenion gofal a chymorth (neu, yn achos gofalwyr, eu hanghenion cymorth) yn cael eu diwallu.

100. Er mwyn cynnal yr asesiad hwn, bydd angen i awdurdodau lleol a byrddau iechyd ddefnyddio amryw o ffynonellau gwybodaeth. Dylid cael gafael ar yr wybodaeth hon gyda'r nod nid yn unig o nodi maint angen ar adeg cynnal yr asesiad o anghenion y boblogaeth ond hefyd fel y gellir dadansoddi angen yn y dyfodol dros weddill cyfnod yr asesiad o anghenion y boblogaeth.

101. **Rhaid** i awdurdodau lleol a byrddau iechyd sicrhau bod eu hasesiad o anghenion y boblogaeth yn adlewyrchu'r anghenion presennol, tueddiadau'r dyfodol a'r heriau polisi amlgenhedlaeth sy'n gysylltiedig â hwy. Gall hyn gynnwys ymchwilio i dueddiadau'r dyfodol gan ddefnyddio technegau'n ymwneud â'r dyfodol i ystyried y cysylltiadau rhyngddynt, a nodi'r goblygiadau a'r effaith ar eich rhanbarth, ei phobl a'r gwasanaethau sy'n eu cefnogi. Mae adroddiad Tueddiadau'r Dyfodol Llywodraeth Cymru yn nodi'r tueddiadau cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol allweddol a allai effeithio ar

Gymru yn y dyfodol a rhai o'r ffactorau a allai ddylanwadu ar gyfeiriad y tueddiadau hynny.(7)

102. Mae Llywodraeth Cymru yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol a byrddau iechyd ddarparu ystod eang o wybodaeth ystadegol mewn perthynas â gwasanaethau gofal a chymorth. Bydd yr ystadegau hyn, yn ogystal ag ystadegau y mae awdurdodau lleol a byrddau iechyd yn eu cynhyrchu ar gyfer eu hanghenion eu hunain, yn ddefnyddiol wrth gynnal asesiad o anghenion y boblogaeth. Gall storfeydd data presennol, megis Iechyd Cyhoeddus Cymru a Data Cymru, fod yn ddefnyddiol neu'n berthnasol hefyd. Gallai cofrestrau o bobl ag amhariad ar eu golwg, pobl ag amhariad ar eu clyw a phobl anabl eraill a gedwir gan awdurdodau lleol lywio'r asesiad o anghenion pobl â'r cyflyrau hyn (a chael eu llywio gan yr asesiad o anghenion y boblogaeth hwn). Fodd bynnag, ni ddylai awdurdodau lleol a byrddau iechyd ddibynnu ar gofrestrau yn unig mewn perthynas â phobl anabl a phobl ag amhariad synhwyraidd.

103. Mae'r cod ymarfer ar ganlyniadau a ddyroddwyd o dan adran 9 o'r Ddeddf yn amlinellu gofynion y fframwaith mesur perfformiad sy'n rhan o'r Fframwaith Canlyniadau Cenedlaethol. Dylid rhoi sylw arbennig i'r mesuriadau perfformiad hyn fel rhan o'r asesiad o anghenion y boblogaeth er mwyn sicrhau bod yr anghenion gofal a chymorth a nodir yn cyd-fynd â gofynion y Fframwaith Canlyniadau Cenedlaethol. Bydd y mesuriadau perfformiad yn dangos y newid mewn darpariaeth gwasanaethau i helpu pobl i aros yn eu cymuned a phlant i aros gyda'u teuluoedd.

104. Dylai awdurdodau lleol a byrddau iechyd fod yn arloesol o ran canfod ymchwil, ystadegau a ffynonellau data lleol a allai gyfrannu at asesiad, gan gynnwys defnyddio technoleg. Dylent ystyried hefyd ganfyddiadau asesiadau presennol megis y rhai a gynhelir fel rhan o'r gwaith o weithredu'r rhaglen Teuluoedd yn Gyntaf.

105. Mae gwybodaeth ansoddol hefyd yn hollbwysig i lywio'r asesiadau hyn. Dylai unrhyw asesiad o anghenion y boblogaeth sicrhau cydbwysedd rhwng gwybodaeth ansoddol a gwybodaeth feintiol. Ni ddylai awdurdodau lleol gynnal asesiad o anghenion y boblogaeth fel ymarferiad ystadegol yn unig. Wrth gael gwybodaeth ansoddol, efallai y bydd prifysgolion a sefydliadau lleol wedi cynnal ymchwil a allai fod yn ddefnyddiol wrth nodi anghenion lleol. Yn ogystal, dylid ystyried ymchwil genedlaethol a allai fod yn berthnasol i amgylchiadau lleol. Er enghraifft, efallai y bydd adroddiadau gan Sefydliad Joseph Rowntree, y

**7** https://www.llyw.cymru/tueddiadaur-dyfodol-2021

Gymdeithas Genedlaethol er Atal Creulondeb i Blant (NSPCC) a sefydliadau tebyg eraill yn nodi materion neu themâu y bydd awdurdodau lleol a byrddau iechyd efallai am fod yn ymwybodol ohonynt a'u cymhwyso yn eu hardal asesu eu hunain.

106. Mae'n debygol y bydd gan ymarferwyr, gweithwyr proffesiynol ac aelodau eraill o staff mewn awdurdodau lleol a byrddau iechyd, yn ogystal â mewn asiantaethau partner megis yr heddlu ac addysg, safbwyntiau gwybodus ar faint yr anghenion gofal a chymorth ac anghenion gofalwyr yn yr ardal. Dylai eu profiad a'u harbenigedd fod yn ffynhonnell wybodaeth wych wrth gynnal asesiad.

## Ymgysylltu â Dinasyddion

107. Mae cyfraniad amrywiaeth eang o ddinasyddion, rhanddeiliaid a phartneriaid yn yr asesiad o anghenion y boblogaeth yn rhan annatod o'r gwaith o gynnal asesiad o anghenion y boblogaeth sy'n ystyrlon ac wedi'i ymchwilio'n dda.

108. Mae pobl yn chwarae rôl hanfodol o ran sicrhau'r gwasanaethau gorau posibl sy'n ymwneud ag anghenion. Rydym i gyd yn disgwyl gallu gwneud ein penderfyniadau ein hunain a rheoli'r materion allweddol yn ein bywydau. Pan fo penderfyniadau'n cynnwys eraill, neu os nad yw'r mater o fewn ein rheolaeth yn llwyr, rydym yn dal i ddisgwyl y bydd ein llais yn cael ei glywed. Gallai hyn gynnwys cyfleoedd i deulu, ffrindiau neu eraill eirioli ar ein rhan. **Rhaid** i wasanaethau gofal a chymorth weithredu mewn ffordd sy'n cryfhau ein llais.

109. **Rhaid** cynnwys ystod eang o unigolion, grwpiau a sefydliadau yn y broses o gynnal yr asesiad o anghenion y boblogaeth a chael cyfle i nodi beth y credant yw'r anghenion mewn ardal, gan gynnwys anghenion gofalwyr, a pha wasanaethau sydd eu hangen i ddiwallu'r anghenion hynny, gan gynnwys gwasanaethau ataliol. Mae pennod 5 o'r Cod hwn, ar ymgysylltu, llais a chydgynhyrchu, yn amlinellu sut y mae'n **rhaid** i awdurdodau lleol gynnwys pobl wrth gydgynhyrchu'r broses o ddylunio a gweithredu gwasanaethau.

110. Mae iechyd a llesiant personol gofalwyr yn rhan annatod o'u gallu i ddarparu gofal a chymorth i eraill. Efallai y bydd angen i'r gofalwyr eu hunain gael elfen o gymorth i fyw eu bywydau mor annibynnol â phosibl. Felly, mae'n bwysig ymgysylltu â gofalwyr i sicrhau bod eu hanghenion iechyd a llesiant yn cael eu nodi a'u diwallu.

111. **Rhaid** ymgysylltu â phobl, gan gynnwys plant sydd â phrofiad o ddefnyddio gwasanaethau gofal a chymorth, rhieni plant ag anghenion

gofal a chymorth a gofalwyr. Dylai awdurdodau lleol a byrddau iechyd ystyried trefniadau arbennig i ymgysylltu â phlant yn uniongyrchol ac yn llwyddiannus. Yn ogystal, **rhaid** i safbwyntiau'r rhai nas clywir eu llais yn aml, gan gynnwys y rhai o grwpiau lleiafrifol megis pobl ddigartref a theithwyr, gael eu hystyried fel rhan o'r asesiad o anghenion y boblogaeth. Dylai'r ymgysylltu adlewyrchu hefyd amrywiaeth y bobl yn y gymuned, gan gynnwys gwahanol lefelau o anghenion gofal a chymorth. **Rhaid** i awdurdodau lleol a byrddau iechyd sefydlu a rhoi cyhoeddusrwydd i weithdrefn i gael barn pobl. **Rhaid** i ran gyntaf adroddiad yr asesiad o anghenion y boblogaeth amlinellu sut y mae'r awdurdodau lleol a'r bwrdd iechyd wedi ymgysylltu â phobl fel rhan o'r gwaith o'i gynhyrchu.

112. Dylai awdurdodau lleol a byrddau iechyd fod yn arloesol wrth ymgysylltu â phobl ac efallai y byddant yn ystyried defnyddio holiaduron a chyfweliadau. Mae'n debygol y bydd ansawdd cyfraniad pobl i'r asesiad o anghenion y boblogaeth yn gwella yn sgil trafodaeth. Felly, efallai y bydd yn ddymunol cael panel ffurfiol o bobl sydd â phrofiad o ddefnyddio gwasanaethau gofal a chymorth neu o ofalu am rywun sy'n defnyddio gwasanaethau gofal a chymorth, i drafod materion allweddol yn y sector gofal cymdeithasol a'r ffordd ymlaen. Gallai hwn fod yn banel newydd a sefydlwyd yn benodol ar gyfer y dasg hon neu'n banel neu fforwm presennol y gellir ei ddefnyddio at y diben hwn. Efallai yr hoffai awdurdodau lleol a byrddau iechyd ystyried gweithgareddau penodol i ymgysylltu â phlant ag anghenion gofal a chymorth neu blant sy'n gweithredu fel gofalwyr.

113. Wrth gynnal adolygiadau o adroddiadau'r asesiadau o anghenion y boblogaeth, dylai awdurdodau lleol a byrddau iechyd barhau i ystyried safbwyntiau'r bobl y maent yn ymgysylltu â nhw wrth ddatblygu'r adroddiadau asesu cychwynnol. Efallai y bydd angen gwneud gwaith ymgysylltu ychwanegol yn ystod y cyfnod adolygu.

114. Dylai awdurdodau lleol a byrddau iechyd sicrhau bod yr iaith a ddefnyddir wrth ymgysylltu â phobl yn hygyrch ac nad yw'n rhy dechnegol er mwyn annog ymgysylltu ystyrlon â'r cyhoedd.

## Ymgysylltu â Darparwyr Gwasanaethau

115. Bydd gan sefydliadau'r trydydd sector a'r sector preifat, megis darparwyr cartrefi gofal a gofal cartref, wybodaeth ac arbenigedd i wneud cyfraniad arwyddocaol at asesiad o anghenion y boblogaeth. Felly, wrth gynnal asesiad, **rhaid** i awdurdodau lleol a byrddau iechyd ymgysylltu â'r trydydd sector a'r sector preifat. Efallai y bydd

sefydliadau'r trydydd sector a'r sector preifat yn gallu helpu i nodi pobl nad ydynt yn hysbys i awdurdodau lleol neu fyrddau iechyd ond sydd ag anghenion gofal a chymorth sydd heb eu diwallu.

116. O ystyried y ffaith bod natur sefydliadau'r trydydd sector a'r sector preifat yn amrywio'n fawr ledled Cymru, mae angen i'r dull ymgysylltu gael ei bennu'n lleol. Er hynny, bydd ymgysylltu effeithiol o fudd i bawb wrth fynd ati i fodloni gofynion y Ddeddf.

117. **Rhaid** i ran gyntaf adroddiad yr asesiad o anghenion y boblogaeth amlinellu sut y mae'r awdurdodau lleol a'r bwrdd iechyd wedi ymgysylltu â defnyddwyr gwasanaethau fel rhan o'r gwaith o'i gynhyrchu.

## Asesiadau Unigol

118. Dylai awdurdodau lleol a byrddau iechyd gael eu llywio hefyd gan broses o gynnal asesiadau unigol o anghenion gofal a chymorth, neu anghenion cymorth gofalwyr (fel yr amlinellir yn y cod ymarfer a ddyroddwyd mewn perthynas â Rhan 3 o'r Ddeddf), i ddeall maint anghenion gofal a chymorth ac anghenion gofalwyr mewn ardal. Bydd gwybodaeth a gesglir wrth gynnal asesiad, yn ogystal â'r cynlluniau gofal a chymorth unigol, a chynlluniau cymorth gofalwyr, yn ffynhonnell wybodaeth am angen yn yr ardal. Bydd gwybodaeth reoli a gesglir gan y Gwasanaeth Gwybodaeth, Cyngor a Chynhorthwy ar yr ystod a'r mathau o ymholiadau 'gofal a chymorth' a dderbynnir yn darparu tystiolaeth y gall awdurdodau lleol a byrddau iechyd ei defnyddio. Er y bydd bob amser angen cyflenwi rhai gwasanaethau pwrpasol er mwyn cyflawni canlyniadau personol unigolyn, efallai y bydd ystyried asesiadau unigol fel rhan o asesiad o anghenion y boblogaeth strategol yn nodi patrymau o anghenion y gellir eu diwallu heb gynlluniau gofal a chymorth unigol.

119. Bydd asesiadau anghenion poblogaeth a gynhelir yn unol â'r Cod hwn yn ymarferion strategol. Fodd bynnag, wrth geisio sicrhau dealltwriaeth strategol, efallai y bydd **rhaid** i awdurdodau lleol a byrddau iechyd ystyried rhywfaint o wybodaeth bersonol. Mae sefydliadau yn dibynnu fwyfwy ar dechnegau anonymeiddio i alluogi defnydd ehangach o ddata personol. Mae'r cod ymarfer *Anonymisation: managing data protection risk* a ddyroddwyd gan Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth, yn esbonio'r materion sy'n gysylltiedig ag anonymeiddio data personol, a datgelu data ar ôl iddynt gael eu hanonymeiddio. Mae'r cod yn disgrifio'r camau y gall sefydliad eu cymryd i sicrhau ei fod yn anonymeiddio'n effeithiol ond yn cadw data defnyddiol.

## Cyflwyno canfyddiadau'r asesiad

120. Mae'n debygol y bydd yr ymarfer casglu tystiolaeth yn nodi ystod sylweddol o anghenion gofal a chymorth ledled ardal yr asesiad. Er bod yr holl anghenion gofal a chymorth yn bwysig a bod angen gwasanaethau i ddiwallu'r anghenion hynny, i sicrhau bod adroddiad yr asesiad o anghenion y boblogaeth yn offeryn strategol defnyddiol dylai awdurdodau lleol a byrddau iechyd strwythuro'r dystiolaeth o gwmpas y themâu craidd cyffredinol a nodir.

121. **Rhaid** i'r adroddiadau hefyd gyfrannu at y gofynion cynllunio ehangach yn y tymor hir. Bydd y dystiolaeth a nodir yn yr asesiadau anghenion poblogaeth a'r adroddiadau ar sefydlogrwydd y farchnad yn helpu i lywio a siapio'r cynlluniau ardal ar y cyd y mae'n **rhaid** i awdurdodau lleol a byrddau iechyd eu cynhyrchu o dan adran 14A o'r Ddeddf.

122. Gall awdurdodau lleol a byrddau iechyd benderfynu ar themâu craidd canfyddiadau'r asesiad. Fodd bynnag, **rhaid** i adran 1 o adroddiad yr asesiad o anghenion y boblogaeth gynnwys asesiadau o anghenion iechyd, gofal a chymorth y grwpiau poblogaeth â blaenoriaeth a ganlyn:

- babanod, plant a phobl ifanc
- pobl hŷn
- pobl sy'n cael eu hanablu neu sydd â chyflyrau iechyd hirdymor
- pobl ag anabledd dysgu
- pobl niwrowahanol
- pobl ag anghenion iechyd meddwl, gan gynnwys y rhai sy'n byw â dementia
- pobl ag amhariadau ar y synhwyrau
- gofalwyr sydd angen cymorth
- pobl sydd wedi profi trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol
- pobl sy'n profi digartrefedd.

## Yr Ystad Ddiogel

123. **Rhaid** i asesiadau o anghenion y boblogaeth hefyd ystyried anghenion gofal a chymorth poblogaethau o fewn yr ystad ddiogel. Mae Rhan 11 o'r Ddeddf yn gwneud darpariaeth ar gyfer oedolion a phlant sydd mewn carchar, llety cadw ieuenctid, safle cymeradwy a llety mechnïaeth, a phreswylfa gyffredin. Gweler hefyd y Cod Ymarfer Rhan 11 (**8**)

**8** https://www.llyw.cymru/sites/default/files/publications/2019-05/cod-ymarfer-rhan-11-amrywiol-a-chyffredinol.pdf

## Y Gymraeg

124. Wrth gynnal eu hasesiadau o anghenion y boblogaeth, **rhaid** i awdurdodau lleol a byrddau iechyd ganfod i ba raddau y mae yna bobl sydd angen gofal a chymorth a gofalwyr sydd angen cymorth yn y Gymraeg, ac ystod a lefel y gwasanaethau y bydd angen iddynt eu darparu er mwyn diwallu'r angen hwnnw. Mae hyn yn cynnwys nodi lle mae bylchau yn y ddarpariaeth. Dylai hyn gael ei adlewyrchu yn yr adroddiad asesu anghenion poblogaeth.

## Effaith Covid-19 a phwysau systemig ehangach ym maes iechyd a gofal cymdeithasol

125. Dylai pob asesiad o anghenion y boblogaeth ystyried effaith y pwysau systemig ehangach ar y system iechyd a gofal cymdeithasol. Gall hyn gynnwys y rhai sy'n deillio o’r pandemig Covid-19, gan gynnwys 'Covid hir' ac effeithiau cysylltiedig ar iechyd a llesiant cysylltiedig ar elfennau o'r boblogaeth yn y rhanbarth. Nid yw hon yn rhestr hollgynhwysfawr. **Dylai** awdurdodau lleol a byrddau iechyd edrych hefyd ar unrhyw ganllawiau atodol gan Lywodraeth Cymru cyn cychwyn pob cylch asesu.

126. O ran pob thema graidd, dylai adran 1 o adroddiad yr asesiad o anghenion y boblogaeth wneud y canlynol:

- dadansoddi tystiolaeth mewn modd gofodol er mwyn meithrin dealltwriaeth o ble ac i ba raddau y mae'r themâu craidd wedi'u canoli neu’u gwasgaru ar draws yr ardal asesu
- nodi'r gwahaniaethau o ran y themâu craidd ar draws awdurdodau lleol ac ardaloedd clwstwr y GIG yn yr ardal asesu
- dadansoddi tystiolaeth o ran grwpiau oedran lle y bo hynny'n briodol
- nodi i ba raddau nad yw'r anghenion hyn yn cael eu diwallu.

## Adran 2: Ystod a lefel y gwasanaethau sy’n ofynnol

127. **Rhaid** i awdurdodau lleol a byrddau iechyd asesu’r canlynol ar y cyd:

- ystod a lefel y gwasanaethau sy’n ofynnol i ddiwallu anghenion gofal a chymorth y boblogaeth ac anghenion cymorth gofalwyr
- ystod a lefel y gwasanaethau sy’n ofynnol i atal anghenion rhag codi neu gynyddu

- y camau sy'n ofynnol er mwyn darparu'r gwasanaethau hyn drwy gyfrwng y Gymraeg

## Diwallu anghenion gofal a chymorth ac anghenion cymorth gofalwyr

128. Yn adran 2 adroddiad yr asesiad o anghenion y boblogaeth, **rhaid** i awdurdodau lleol a byrddau iechyd asesu ystod a lefel y gwasanaethau sy'n ofynnol i ddiwallu'r anghenion gofal a chymorth a nodir yn yr asesiad o anghenion, gan gynnwys cymorth i ofalwyr. Dylai'r adroddiad gynnwys yr wybodaeth hon mewn perthynas â phob un o'r themâu craidd a nodir yn adran 1 o adroddiad yr asesiad o anghenion y boblogaeth.

129. Dylai adran 2 o adroddiad yr asesiad o anghenion y boblogaeth gynnwys asesiad o'r graddau y gallai'r anghenion a nodir mewn perthynas â'r themâu craidd gael eu diwallu drwy ddarparu gwasanaethau mewn partneriaeth â'r bwrdd iechyd ar gyfer ardal yr awdurdod lleol ac awdurdodau lleol eraill yn ardal y bwrdd iechyd hwnnw. Felly, er enghraifft, efallai y gallai anghenion pobl ag anableddau dysgu yn ardal un awdurdod lleol gael eu diwallu drwy ddarparu gwasanaeth a fyddai'n diwallu anghenion pobl ag anabledd dysgu yn ardaloedd dau awdurdod lleol neu fwy. Mae'n bosibl y gallai gwasanaethau gael eu darparu mewn cydweithrediad ag awdurdodau lleol a/neu fyrddau iechyd y tu allan i'r trefniant partneriaeth. Ni ddylai gwasanaethau gael eu cyfyngu i adrannau gwasanaethau cymdeithasol yn unig, a gallent gael eu darparu ar draws swyddogaethau awdurdodau lleol. Yn ogystal, gall y trydydd sector a darparwyr eraill helpu i ddiwallu anghenion drwy'r gwasanaethau a ddarparant.

130. Wrth ystyried sut y bydd anghenion yn cael eu diwallu, **rhaid** i awdurdodau lleol adeiladu ar eu dyletswydd i hyrwyddo mentrau cymdeithasol, mentrau cydweithredol, gwasanaethau sy'n cael eu harwain gan ddefnyddwyr, a'r trydydd sector. Gall pobl ddylunio a gweithredu eu gwasanaethau eu hunain, a gall y modelau amgen hyn o ofal a chymorth ddarparu cyfleoedd ychwanegol i ddiwallu anghenion gofal a chymorth pobl. Rydym yn disgwyl i fwy o fodelau amgen o ofal a chymorth gael eu datblygu dros amser.

131. Bydd nodi asedau ar lefel unigol, cymunedol a phoblogaeth yn hollbwysig er mwyn deall y cyfraniadau presennol a phosibl y mae pobl, cymunedau a sefydliadau yn eu gwneud.

## Y Fframwaith Canlyniadau Cenedlaethol ar gyfer Iechyd a Gofal Cymdeithasol

132. Wrth nodi ystod a lefel y gwasanaethau sydd eu hangen er mwyn diwallu angen, **rhaid** i awdurdodau lleol a byrddau iechyd gael eu llywio gan y Fframwaith Canlyniadau Cenedlaethol ar gyfer Iechyd a Gofal Cymdeithasol. Mae'r fframwaith canlyniadau cenedlaethol yn cynnwys y datganiad llesiant, sy'n nodi'r hyn mae Llywodraeth Cymru yn ei ddisgwyl ar gyfer pobl sydd angen gofal a chymorth, a dangosyddion perfformiad i fesur a yw llesiant yn cael ei gyflawni. Bydd y fframwaith canlyniadau cenedlaethol yn helpu i nodi ystod a lefel y gwasanaethau sydd eu hangen i ddiwallu angen trwy ddisgrifio llwyddiant o ran diwallu anghenion gofal a chymorth a gofalwyr sydd angen cymorth. Dylai adroddiad yr asesiad o anghenion y boblogaeth geisio sicrhau ei fod yn disgrifio ystod a lefel y gwasanaeth sy'n ofynnol er mwyn bodloni safonau'r fframwaith canlyniadau wrth nodi lefel y gwasanaethau sydd eu hangen i ddiwallu'r angen.

## Ymgysylltu â Dinasyddion

133. **Rhaid** i awdurdodau lleol ymgysylltu â dinasyddion wrth nodi ystod a lefel y gwasanaethau a fydd yn angenrheidiol i ddiwallu angen. Gall yr ymgysylltu hwn ddigwydd wrth nodi lefel yr angen am ofal a chymorth gan gynnwys cymorth i ofalwyr. **Rhaid** i awdurdodau lleol gymryd camau i rymuso a galluogi dinasyddion i ymgysylltu â'r broses hon, ac i oresgyn unrhyw rwystrau i ymgysylltu effeithiol.

## Ymgysylltu â Darparwyr Gwasanaethau

134. Bydd y gwasanaethau sydd eu hangen i ddiwallu'r angen a nodir yn cael eu cyflenwi gan awdurdodau lleol a byrddau iechyd, yn ogystal â sefydliadau eraill yn y sector preifat a'r trydydd sector. Felly, mae angen i sefydliadau eraill sy'n cyflenwi gwasanaethau gael eu cynnwys yn y gwaith hwn gan y byddant yn gallu helpu i sicrhau bod ystod a lefel y gwasanaethau a nodir yn realistig a chynaliadwy, yn seiliedig ar ddealltwriaeth glir o gwmpas ac ansawdd y gwasanaethau sydd ar gael.

135. Gall yr ymgysylltu hwn ddigwydd wrth nodi lefel yr anghenion gofal a chymorth ac anghenion gofalwyr gyda sefydliadau eraill sy'n cyflenwi gwasanaethau.

136. Er mwyn i awdurdodau lleol gyflawni eu dyletswydd i hyrwyddo mentrau cymdeithasol, mentrau cydweithredol, gwasanaethau sy'n cael eu harwain gan ddefnyddwyr, a'r trydydd sector, dylent fynd ati i ystyried

sut y gall sefydliadau seiliedig ar werth gyflenwi'r gwasanaethau gofynnol.

## Caffael gwasanaethau

137. Bydd adroddiad yr asesiad o anghenion y boblogaeth yn llywio'r ffordd mae gwasanaethau'n cael eu cynllunio a'u cyflenwi gan awdurdodau lleol a phartneriaid ac yn sicrhau bod gwasanaethau'n cael eu caffael yn briodol i ddiwallu anghenion a nodir.

## Gwasanaethau Ataliol

138. Wrth nodi'r lefelau gwasanaeth sydd eu hangen i ddiwallu angen, **rhaid** i awdurdodau lleol roi sylw i'r angen i ddarparu neu drefnu gwasanaethau ataliol, fel sy'n ofynnol gan adran 15 o'r Ddeddf. **Rhaid** i adran 2 o adroddiad yr asesiad o anghenion y boblogaeth amlinellu'r asesiad o ystod a lefel y gwasanaethau ataliol sy'n ofynnol i gyflawni dibenion adran 15(2) o'r Ddeddf. Wrth wneud hynny, dylid cofio bod eiriolaeth yn wasanaeth ataliol ynddo'i hun ac y dylai gael ei ystyried fel rhan o ystod a lefel y gwasanaethau sy'n ofynnol i ddiwallu'r angen a nodir. Dylai'r asesiad gynnwys i ba raddau y gellir darparu dull ataliol mewn partneriaeth â'r bwrdd iechyd ar gyfer ardal yr awdurdod lleol ac awdurdodau eraill yn ardal y bwrdd iechyd hwnnw (mae'n bosibl y gallai gwasanaethau gael eu cyflenwi mewn cydweithrediad ag awdurdodau lleol a/neu fyrddau iechyd y tu allan i'r trefniant partneriaeth). Wrth ystyried dulliau ataliol, dylai awdurdodau lleol sy'n gweithio gyda byrddau iechyd sicrhau eu bod yn nodi'r hyn sy'n bwysig i bobl sydd angen gofal a chymorth a gofalwyr sydd angen cymorth. Bydd hyn yn helpu i nodi beth sy'n gweithio i bobl yn eu sefyllfa benodol. Dylent sicrhau hefyd fod dealltwriaeth glir o'r adnoddau sydd ar gael gan bobl a chymunedau.

139. Ceir canllawiau ar ddarparu dull ataliol ym mhennod 3 o'r Cod hwn. **Rhaid** i natur a lefel y gwasanaethau ataliol a ddarperir neu a drefnir gael eu dylunio i ddiwallu'r anghenion gofal a chymorth ac anghenion cymorth gofalwyr a nodir yn adroddiad yr asesiad o anghenion y boblogaeth.

## Y Gymraeg

140. **Rhaid** i adran 2 o adroddiad yr asesiad o anghenion y boblogaeth nodi'r camau sy'n ofynnol i gyflenwi ystod a lefel y gwasanaethau sydd eu hangen drwy gyfrwng y Gymraeg. Nod *Mwy na geiriau...,* fframwaith strategol y Gymraeg, yw gwella darpariaeth rheng flaen gwasanaethau

cymdeithasol ac iechyd i siaradwyr Cymraeg, eu teulu a'u gofalwyr. Yn unol â'r egwyddorion yn y fframwaith hwnnw, **rhaid** i systemau cynllunio gynnwys cyfeiriad at broffil ieithyddol eu cymunedau a sicrhau bod hyn yn cael ei adlewyrchu wrth iddynt gyflenwi eu gwasanaethau.

## **2B.** Creu trefniant partneriaeth at ddibenion cynnal asesiadau o anghenion y boblogaeth

141. **Rhaid** i'r holl awdurdodau lleol mewn ardal bwrdd iechyd greu trefniant partneriaeth â'r Bwrdd Iechyd hwnnw i gynnal yr asesiad o anghenion y boblogaeth, a dylent gynhyrchu adroddiad ar y cyd ar yr asesiad.

142. **Rhaid** i awdurdodau lleol a byrddau iechyd gynhyrchu un asesiad o anghenion y boblogaeth ym mhob cylch etholiadol llywodraeth leol. Ar gyfer pob cyfnod asesiad o anghenion y boblogaeth, **rhaid** i'r cyrff yn y bartneriaeth ffurfio cyd-bwyllgor, fel rhan o'r bwrdd partneriaeth ehangach a amlinellir yn y Canllawiau Statudol Rhan 9 ar Drefniadau Partneriaeth, i ysgwyddo cyfrifoldeb dros reoli'r trefniant partneriaeth. Drwy'r cyd-bwyllgor, a chan roi sylw dyladwy i arbenigedd, gwybodaeth ac adnoddau perthnasol, **rhaid** i bartneriaid enwebu corff cydgysylltu arweiniol. Bydd y corff hwnnw'n gyfrifol am gydgysylltu a rheoli'r gwaith o gynhyrchu'r asesiad o anghenion y boblogaeth, ond **rhaid** i bob corff arall gymryd rhan yn yr ymarfer fel sy'n ofynnol gan y corff cydgysylltu arweiniol. Gall y corff cydgysylltu arweiniol a enwebwyd gael ei adolygu pan fydd y bartneriaeth o'r farn bod angen gwneud hynny.

143. Dylai awdurdodau lleol a'r bwrdd iechyd mewn trefniant partneriaeth gyfuno eu hasesiadau anghenion poblogaeth mewn un adroddiad. **Rhaid** i adroddiad cyfunol yr asesiad o anghenion y boblogaeth gynnwys asesiad o anghenion ar gyfer pob un o ardaloedd yr awdurdod lleol a chyfuno'r asesiadau hyn i gynhyrchu asesiad o anghenion y bobl yn ardal y bwrdd iechyd ac asesiad o ystod a lefel y gwasanaethau sy'n ofynnol i ddiwallu'r anghenion hynny.

144. Dylai'r corff cydgysylltu arweiniol sicrhau bod gan adroddiad yr asesiad o anghenion y boblogaeth cyfunol fformat cyson a'i fod yn dangos yn glir i ba raddau y mae themâu craidd wedi'u crynhoi neu eu gwasgaru ledled ardal y trefniant partneriaeth **ac** yn benodol mewn perthynas â phob ardal awdurdod lleol yn y trefniant partneriaeth.

145. Cyfrifoldeb y corff cydgysylltu arweiniol yw datrys materion a allai effeithio ar y gwaith o gynhyrchu adroddiad cyfunol yr asesiad o anghenion y boblogaeth. Yn ogystal, gall byrddau partneriaeth, fel y darperir o dan adran 168 o'r Ddeddf ac fel yr amlinellir yn y Canllawiau Statudol Rhan 9 ar Drefniadau Partneriaeth, fod o gymorth i ddatrys gwrthdaro wrth lunio adroddiad yr asesiad o anghenion y boblogaeth. O dan amgylchiadau eithriadol, efallai na fydd yn bosibl i awdurdod lleol neu fwrdd iechyd gytuno ar agwedd arbennig ar adroddiad cyfunol yr asesiad o anghenion y boblogaeth. Bydd yr awdurdod lleol neu'r bwrdd iechyd hwnnw yn cadw'i ddyletswydd i fodloni'r gofynion statudol a amlinellir yn adran 14 o'r Ddeddf.

146. **Rhaid** i adroddiad yr asesiad o anghenion y boblogaeth gael ei gyflwyno i Weinidogion Cymru adeg ei gyhoeddi.

147. **Rhaid** i awdurdodau lleol a byrddau iechyd adolygu eu hadroddiadau asesu anghenion y boblogaeth yn rheolaidd a'u diwygio os bydd angen. Y corff cydgysylltu arweiniol sy'n gyfrifol am reoli'r adolygiad hwn ac am gyflwyno unrhyw adenda ddilynol i Weinidogion Cymru.

148. Felly, **rhaid** sefydlu'r saith trefniant partneriaeth canlynol at ddibenion cynnal asesiad o anghenion gofal a chymorth, cymorth i ofalwyr ac asesiad o wasanaethau ataliol:

a) Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan a'r awdurdodau lleol canlynol: Sir Fynwy, Casnewydd, Caerffili, Torfaen a Blaenau Gwent
b) Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr a'r awdurdodau lleol canlynol: Sir y Fflint, Wrecsam, Ynys Môn, Gwynedd, Sir Ddinbych a Chonwy.
c) Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro a'r awdurdodau lleol canlynol: Caerdydd a Bro Morgannwg.
d) Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda a'r awdurdodau lleol canlynol: Sir Benfro, Sir Gâr a Cheredigion.
e) Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe a'r awdurdodau lleol canlynol: Abertawe a Chastell-nedd Port Talbot.
f) Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg a'r awdurdodau lleol canlynol: Rhondda Cynon Taf, Merthyr Tudful a Phen-y-bont ar Ogwr.
g) Bwrdd Iechyd Addysgu Powys ac awdurdod lleol Powys.

149. Nod y trefniadau partneriaeth yw cyflawni dibenion adran 14 o'r Ddeddf wrth gynnal yr asesiad a ddisgrifir ym mhennod 2a o'r Cod hwn.

150. **Rhaid** i bob corff yn y trefniant partneriaeth gyfrannu at unrhyw gostau sy'n gysylltiedig â'r ymarferiad. (Dylai'r costau fod yn isel iawn, a chostau staff fyddant yn bennaf, er efallai y bydd rhai costau'n gysylltiedig ag argraffu neu ymgysylltu â dinasyddion).

151. **Rhaid** i bob corff yn y trefniant partneriaeth rannu'r wybodaeth sy'n ofynnol i gynnal yr asesiad o anghenion y boblogaeth. Dylai unrhyw wybodaeth y gellir ei defnyddio i adnabod person gael ei rhannu o fewn egwyddorion Cytundeb Rhannu Gwybodaeth Bersonol Cymru (WASPI). Mae pob bwrdd iechyd ac awdurdod lleol yng Nghymru wedi llofnodi Cytundeb WASPI.

# 3. Gwasanaethau Ataliol ac Ymyrraeth Gynnar Integredig

## Cyflwyniad

## Y cyd-destun

152. Diben y bennod hon yw amlinellu'r gofynion ar awdurdodau lleol a'u partneriaid i ddarparu neu drefnu amrywiaeth o wasanaethau ataliol ac ymyrraeth gynnar integredig er mwyn cyflawni'r gwahanol ddibenion a amlinellir isod.

153. Mae adran 15 o'r Ddeddf yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol ddarparu neu drefnu i ddarparu ystod a lefel o wasanaethau ataliol ac ymyrraeth gynnar y maent o'r farn y byddant yn cyflawni'r dibenion canlynol:

a) cyfrannu at atal neu ohirio datblygiad anghenion gofal a chymorth pobl
b) lleihau anghenion gofal a chymorth pobl sydd ag anghenion o'r fath drwy wasanaethau ataliol ac ymyrraeth gynnar amgen sydd wedi'i lleoli yn y gymuned
c) hyrwyddo magwraeth plant gan eu teuluoedd, pan fo hynny'n gyson â llesiant y plant
d) lleihau'r effaith y mae eu hanableddau neu eu cyflyrau cronig yn eu cael ar bobl anabl
e) cyfrannu at atal pobl rhag dioddef camdriniaeth neu esgeulustod
f) leihau'r angen am:
   - achosion cyfreithiol am orchmynion gofalu neu oruchwylio o dan Ddeddf Plant 1989
   - achosion troseddol yn erbyn plant
   - unrhyw achosion teuluol neu achosion cyfreithiol eraill mewn perthynas â phlant a allai arwain at eu rhoi yng ngofal awdurdod lleol
   - achosion cyfreithiol o dan awdurdodaeth gynhenid yr Uchel Lys mewn perthynas â phlant;
g) annog plant i beidio â throseddu
h) osgoi'r angen i blant gael eu lleoli mewn llety diogel
i) galluogi pobl i fyw eu bywydau mewn ffordd mor annibynnol â phosibl

154. **Rhaid** i awdurdod lleol roi sylw i bwysigrwydd cyflawni'r dibenion hyn mewn perthynas â chyflawni ei holl swyddogaethau, yn hytrach na swyddogaethau gwasanaethau cymdeithasol yn unig. **Rhaid** i fwrdd iechyd roi sylw i bwysigrwydd cyflawni'r dibenion hyn wrth gyflawni ei swyddogaethau hefyd.

155. Mae adran 14 o'r Ddeddf yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol a byrddau iechyd gynnal asesiad strategol ar y cyd o anghenion gofal a chymorth ac anghenion cymorth gofalwyr. **Rhaid** i'r asesiad hwnnw hefyd asesu ystod a lefel y gofal a'r cymorth sydd eu hangen i gyflenwi gwasanaethau ataliol. Mae pennod 2 o'r Cod hwn yn amlinellu'r gofynion ar awdurdodau lleol i gynnal yr asesiad o anghenion y boblogaeth hwn.

156. Mae'r Gronfa Integreiddio Rhanbarthol ar gyfer Iechyd a Gofal Cymdeithasol, sy'n gronfa bum mlynedd hyd at fis Mawrth 2027, yn rhoi pwyslais cryf ar atal ac ymyrraeth gynnar. Mae'n pwysleisio hefyd y bydd gwasanaethau gofal a chymorth, drwy gydweithio a chydweithredu i ddarparu gwasanaeth ataliol ac ymyrraeth gynnar, yn helpu i atal y sefyllfa rhag dwysáu ac i osgoi'r angen am wasanaethau ymyrryd mewn argyfwng. Mae adran 15 o'r Ddeddf yn gosod dyletswydd statudol ar awdurdodau lleol i ddarparu a threfnu'r modd y caiff gwasanaethau eu darparu er mwyn atal neu ohirio datblygiad anghenion gofal a chymorth. Mae'r Gronfa yn adeiladu ar hyn drwy ddarparu'r modd i gefnogi sefydliadau partner i ddatblygu gwydnwch unigol a chymunedol a lliniaru'r angen am ddarpariaeth iechyd a gofal cymdeithasol acíwt neu gritigol.

157. Un o brif amcanion y Gronfa yw datblygu a chyflenwi chwe model gofal integredig cenedlaethol; a phob un ohonynt â dull ataliol. Fodd bynnag, mae gan y model 'gofal cymunedol: atal a chydgysylltu cymunedol' rôl flaenllaw o ran datblygu gweithgareddau ataliol ac ymyrraeth gynnar sy'n bwysig i'r model gofal cyffredinol ac ar draws y grwpiau poblogaeth â blaenoriaeth.

158. Dyma'r chwe model gofal:

- gofal cymunedol: atal a chydgysylltu cymunedol
- gofal cymunedol: gofal cymhleth yn nes at y cartref
- gwasanaethau gartref o'r ysbyty
- hyrwyddo iechyd a llesiant emosiynol da
- cynorthwyo teuluoedd i aros gyda'i gilydd yn ddiogel a chymorth therapiwtig i blant â phrofiad o fod mewn gofal
- atebion seiliedig ar lety.

159. Mae cymunedau ymarfer wedi'u sefydlu, sy'n adlewyrchu'r chwe model gofal. Eu prif swyddogaeth yw dod â'r rhai sydd â diddordeb ynghyd i fod yn rhan o drafodaethau rhagweithiol a chynhyrchiol ac i rannu arferion da o ran gweithgarwch, a fydd yn cyfrannu at gyflenwi a gweithredu'r chwe model gofal integredig ar lefel ranbarthol.

## Diben

160. Mae atal yn rhan annatod o raglen newid Llywodraeth Cymru ar gyfer gwasanaethau cymdeithasol, byrddau iechyd a sefydliadau partner. Mae angen canolbwyntio ar atal ac ymyrraeth gynnar er mwyn sicrhau bod gwasanaethau gofal a chymorth ar draws gwasanaethau cymdeithasol, y maes iechyd a sefydliadau partner yn gynaliadwy i'r dyfodol. Mae'n hollbwysig nad yw gwasanaethau gofal a chymorth yn aros tan i bobl fynd i argyfwng cyn ymateb. Mae dull ataliol integredig yn cynnwys hyrwyddo magwraeth plant gan eu teuluoedd ac atal plant rhag mynd i ofal. Bydd angen i awdurdodau lleol, byrddau iechyd a'u partneriaid ddatblygu dull strategol o gyflenwi gwasanaethau atal ac ymyrraeth gynnar yn lleol, a hefyd yn rhanbarthol lle y bo hynny'n briodol, ac yn unol â bwriadau'r Gronfa Integreiddio Rhanbarthol.

161. Mae angen cryfhau'r dulliau ataliol ac ymyrraeth gynnar sydd eisoes ar gael ar draws rhaglenni fel y Gronfa Integreiddio Rhanbarthol a'r Rhaglen Seilwaith Cymunedol a'i gwasanaethau, gan adeiladu'r sylfaen gweithgarwch a'i hymestyn er mwyn sicrhau bod gwasanaethau ar gael pan fydd ar bobl eu hangen, a hynny ar lefel gymunedol neu mor agos at â phosibl at eu cartrefi.

162. O safbwynt ataliol, mae'n golygu hefyd sicrhau bod pobl a chymunedau yn cael yr wybodaeth a'r cymorth sydd eu hangen arnynt i nodi'r hyn sy'n bwysig iddynt a'r ffordd orau o roi trefniadau ar waith i sicrhau dull sy'n diwallu'r angen lleol hwnnw ac sy'n ei gyflenwi yn y gymuned.

163. Nid oes un diffiniad pendant o'r hyn a olygir wrth weithgarwch ataliol. Gall fod yn unrhyw beth sy'n helpu i ddiwallu angen a nodir, a gallai amrywio o fesurau eang sy'n targedu'r boblogaeth gyfan i ymyriadau mwy personol sy'n targedu unigolion, gan gynnwys mecanweithiau i alluogi pobl i fod yn rhan o'r broses o wneud penderfyniadau sy'n effeithio ar eu bywydau.

164. Wrth ystyried sut i gyflawni dibenion gwasanaethau ataliol a amlinellir yn adran 15(2) (a - i) o'r Ddeddf a hyrwyddo llesiant, dylai awdurdodau lleol ystyried yr ystod o opsiynau sydd ar gael. Mae hyn yn debygol o amrywio rhwng awdurdodau lleol yn dibynnu ar yr angen. Fodd bynnag, dylai'r gwasanaethau ataliol ac ymyrraeth gynnar gofynnol gael eu nodi fel rhan o'r asesiad o anghenion y boblogaeth.

165. **Rhaid** i'r asesiad o ystod a lefel y gwasanaethau ataliol ac ymyrraeth gynnar sy'n ofynnol i gyflawni'r dibenion a amlinellir yn adran 15(2) (a - i) o'r Ddeddf gael ei amlinellu yn adran 2 o adroddiad yr asesiad o anghenion y boblogaeth fel y disgrifir ym mhennod 2 o'r Cod hwn. Mae hyn yn sicrhau bod **rhaid** i wasanaethau ataliol ac ymyrraeth gynnar a ddarperir neu a drefnir gael eu llywio gan yr anghenion gofal a chymorth a nodir gan yr asesiad o anghenion y boblogaeth. Er mwyn nodi ystod a lefel y gwasanaethau gofynnol, mae angen i awdurdodau lleol sefydlu ac asesu'r hyn sy'n cael ei gyflenwi/yr hyn sydd ar gael ar hyn o bryd, gan ystyried lefelau capasiti ac ansawdd y gwasanaeth.

166. Dylai awdurdodau lleol gydweithio a chydweithredu â'i gilydd a gweithio gydag amrywiaeth o bartneriaid a rhanddeiliaid, gan gynnwys byrddau iechyd a'r trydydd sector, i ddatblygu a chyflenwi'r ystod a'r lefel ofynnol o wasanaethau ataliol ac ymyrraeth gynnar integredig. Er y gall awdurdodau lleol ddewis darparu rhai mathau o wasanaethau ataliol ac ymyrraeth gynnar eu hunain, gall eraill gael eu darparu neu eu trefnu'n fwy effeithiol mewn partneriaeth â phartneriaid lleol eraill gan gynnwys y trydydd sector er mwyn sicrhau darpariaeth integredig. Dylid archwilio'r manteision ychwanegol o weithio y tu allan i'r trefniadau a'r partneriaethau presennol i gyflenwi gwasanaethau, er mwyn integreiddio gwasanaethau atal ac ymyrraeth gynnar. Dylai awdurdodau lleol hefyd geisio datblygu a galluogi adnoddau cymunedol i gyfrannu at ddull ataliol ac ymyrraeth gynnar gan ystyried rhanbarthiaeth a datblygiad y chwe model cenedlaethol integredig o ofal.

167. Mae mentrau cymdeithasol, mentrau cydweithredol, gwasanaethau a arweinir gan ddefnyddwyr, a'r trydydd sector, yn adnodd gwerthfawr ac maent yn bwysig o ran

cyflenwi’r elfen adnoddau cymunedol, gan gynnwys drwy'r chwe model cenedlaethol integredig o ofal a gyflenwir yn rhanbarthol. Mae pennod 4 o’r Cod hwn yn nodi gofynion ar gyfer awdurdodau lleol mewn perthynas â'r ddyletswydd o dan adran 16 o'r Ddeddf.

168. Er mwyn darparu neu drefnu gwasanaethau ataliol ac ymyrraeth gynnar, **rhaid** i wasanaethau cymdeithasol weithio ar draws yr awdurdod lleol i sicrhau bod y defnydd gorau posibl yn cael ei wneud o’r rôl arweinyddiaeth gymunedol drwy gydgynhyrchu rhagweithiol a gweithio mewn partneriaeth.

169. Yn yr awdurdod lleol, dylai’r gwaith o atal neu ohirio datblygiad anghenion gofal a chymorth gyd-fynd â chyfrifoldebau eraill awdurdod lleol, megis tai, hamdden ac addysg, gan gynnwys addysg oedolion. **Rhaid** i awdurdodau lleol roi sylw i bwysigrwydd cyflawni’r dibenion a ddisgrifir wrth gyflawni eu swyddogaethau eraill.

170. **Rhaid** i awdurdodau lleol wneud trefniadau i hyrwyddo cydweithrediad mewn perthynas ag arfer swyddogaethau yn ymwneud â phobl ag anghenion gofal a chymorth. Mae hyn yn cynnwys bodloni’r rhwymedigaethau yn adran 15 o’r Ddeddf i ddarparu gwasanaethau ataliol. **Rhaid** i bartner perthnasol, megis bwrdd iechyd, gydymffurfio â chais i gydweithredu mewn perthynas â chyflenwi gwasanaethau ataliol, oni bai y byddai gwneud hynny yn mynd yn groes i’w ddyletswyddau ei hun.

171. Yn aml, mae pobl mewn cymunedau gwledig yn wynebu heriau penodol. Mae’n bwysig cydnabod yr angen i gyflenwi neu drefnu gwasanaethau ataliol ac ymyrraeth gynnar mewn ffordd wahanol er mwyn goresgyn y rhwystrau hyn.

172. Caiff awdurdodau lleol benderfynu ei bod yn fwy ymarferol cyflenwi neu drefnu gwasanaethau ataliol ac ymyrraeth gynnar ar y cyd. Gallai hyn helpu hefyd i gyflenwi gwasanaethau ataliol ac ymyrraeth gynnar gydag asiantaethau eraill, megis bwrdd iechyd, a chyflenwi yn ôl patrwm rhanbarthol ac yn unol â bwriadau'r Gronfa.

173. **Rhaid** i fyrddau iechyd roi sylw i bwysigrwydd cyflawni’r dibenion a ddisgrifir wrth gyflawni eu swyddogaethau iechyd. Dylai byrddau iechyd ystyried egwyddorion gofal iechyd darbodus. Bydd integreiddio effeithiol ar draws gwasanaethau cyhoeddus a mabwysiadu dull amlasiantaethol o ddiwallu anghenion pobl mewn ffordd ataliol, sy’n ymyrryd yn gynnar, o fudd i bob dinesydd, yn enwedig y rheini sydd angen gwasanaethau gofal a chymorth.

## O fewn y sefydliad

174. Er bod sawl enghraifft dda o wasanaethau ataliol ac ymyrraeth gynnar yn cael eu darparu ar draws y gwasanaethau cymdeithasol ac ar y cyd â sefydliadau partner, mae’r gofynion yn y Ddeddf yn golygu newid diwylliannol cyffredinol o ran y ffordd y bydd gwasanaethau’n cael eu cyflenwi. Dylai awdurdodau lleol sicrhau bod staff yn ymwybodol o fanteision gwasanaethau ataliol ac ymyrraeth gynnar ac yn cael eu hannog i ystyried sut y gellir eu cyflenwi. Dylai staff deimlo bod ganddynt rym i weithio gyda defnyddwyr gwasanaethau a gofalwyr i ymdrin â materion mewn

ffordd ataliol, ac i fynd ati i ymgysylltu â theulu, ffrindiau ac eraill i nodi a sicrhau canlyniadau a nodir.

175. Yn ogystal â rhoi manteision i bobl, mae gwasanaethau ataliol ac ymyrraeth gynnar yn darparu mwy o werth am arian i'r awdurdod lleol a'i bartneriaid ac yn arwain at wella cynaliadwyedd. Er ei bod yn gallu bod yn anodd olrhain manteision ariannol cyflenwi gwasanaethau ataliol ac ymyrraeth gynnar, gallai datblygu model busnes sy'n olrhain buddsoddiadau ac yn monitro enillion ariannol gwasanaethau ataliol atgyfnerthu'r dull ataliol.

176. Er mwyn sicrhau bod y diwylliant hwn o gyflenwi gwasanaethau ataliol ac ymyrraeth gynnar yn cael ei wreiddio yn yr awdurdod lleol, ac o fewn ei adran gwasanaethau cymdeithasol, fel bod gofynion statudol yn cael eu bodloni, bydd angen arweinyddiaeth ar draws yr awdurdod lleol gan bob Prif Weithredwr ac, yn bennaf, gan y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol.

177. Bydd angen i awdurdodau lleol, byrddau iechyd a sefydliadau partner, drwy'r byrddau partneriaeth rhanbarthol, fod yn arloesol yn eu hagwedd at wasanaethau ataliol ac ymyrraeth gynnar, gan wneud y defnydd gorau o adnoddau, sicrhau gwerth am arian ac ymgysylltu â dinasyddion a'r trydydd sector a darparwyr eraill i ddiwallu anghenion a nodir.

## Egwyddorion

178. **Rhaid** i wasanaethau ataliol ac ymyrraeth gynnar ar gyfer pob dinesydd, boed yn oedolyn neu'n blentyn (gan gynnwys plant sy'n derbyn gofal), gael eu darparu neu eu trefnu mewn ffordd briodol ac amserol. Fodd bynnag, nid yw'r llwybr at wasanaethau ataliol ac ymyrraeth gynnar yn un syml bob amser, gan fod anghenion pobl yn newid. Er enghraifft, efallai y bydd rhywun angen mwy nag un math o gymorth gan wasanaethau ataliol ac ymyrraeth gynnar, a dylai allu cael cymorth gan wasanaethau ataliol ac ymyrraeth gynnar cymwys ar yr un pryd er mwyn cyflawni gwahanol ganlyniadau llesiant personol.

179. Yn yr un modd, ni ddylai pobl gael eu hatal rhag cael unrhyw wasanaethau ataliol ac ymyrraeth gynnar am fod ganddynt angen gofal a chymorth efallai na fyddant yn 'gwella' ohono. Er enghraifft, efallai y bydd rhywun angen cymorth am gyfnod byr fel y gall gyflawni ei ganlyniadau llesiant personol, ond efallai y bydd angen cymorth pellach yn y dyfodol hefyd. Ni ddylai fod unrhyw wahaniaeth os bydd person angen cymorth eto os yw ei gyflwr yn newid neu'n debygol o waethygu ymhellach. Dylai awdurdod lleol geisio darparu gwasanaethau ataliol ac ymyrraeth gynnar i unigolion ar bob cam o lwybr y person hwnnw.

180. Gall gwasanaethau ataliol ac ymyrraeth gynnar:

- gael eu darparu'n gyffredinol i helpu pobl i osgoi datblygu anghenion gofal a chymorth
- targedu unigolion sy'n wynebu risg uwch o ddatblygu anghenion gofal a chymorth

- ceisio lleihau effaith angen gofal a chymorth presennol ar ddefnyddiwr gwasanaethau.

181. Mae pobl fel arfer yn gwybod beth fydd yn eu helpu. **Rhaid** ymgysylltu'n llawn â defnyddwyr wrth nodi pa fesurau ataliol a allai eu helpu i sicrhau eu llesiant ac wrth gynllunio'r ddarpariaeth. Gall y mesurau hyn ddeillio o'u hadnoddau eu hunain ac adnoddau eu cymunedau. Bydd y Gwasanaeth Gwybodaeth, Cyngor a Chynhorthwy, a ddisgrifir ym mhennod 6 o'r Cod hwn, yn chwarae rôl allweddol o ran yr ymgysylltu hwn. Os na fydd unigolyn yn gallu mynegi ei farn, ei ddymuniadau neu ei deimladau, **rhaid** i awdurdodau lleol sicrhau bod yr unigolyn yn cael cymorth i wneud hynny. Os nad oes modd i deulu neu ffrindiau ddarparu'r cymorth hwn ac os nad oes cymorth ehangach ar gael, **rhaid** i awdurdodau lleol sicrhau bod yr unigolyn yn cael cymorth gan eiriolwr annibynnol ac nad oes angen i'r unigolyn dalu am y cymorth hwnnw.

182. Bydd gwasanaethau ataliol ac ymyrraeth gynnar ar lefel isel yn cael effaith arwyddocaol. Er enghraifft, gall cymorth gyda sgiliau cymdeithasol, datblygu sgiliau bywyd a chyfeillio arwain at welliannau sylweddol i ansawdd bywyd unigolyn. Maent hefyd yn helpu i gadw teuluoedd gyda'i gilydd drwy helpu teuluoedd i ofalu am eu plant. Mae'r mathau hynny o gymorth a gweithgareddau yn debygol o fod yn elfennau gwerthfawr o'r modelau gofal. Gall presgripsiynu cymdeithasol fod yn ffordd effeithiol o gysylltu pobl â'u cymunedau i hybu eu hiechyd a'u llesiant, yn enwedig i'r rhai sy'n teimlo'n unig neu wedi'u hynysu'n gymdeithasol, neu'r rhai nad ydynt efallai'n ymwneud â gwasanaethau prif ffrwd. Cyhoeddodd Llywodraeth Cymru Fframwaith Cenedlaethol ar gyfer Presgripsiynu Cymdeithasol ym mis Rhagfyr 2023. (**9**)

183. Dylai hygyrchedd fod yn egwyddor allweddol wrth gynllunio ar gyfer gwasanaethau ataliol ac ymyrraeth gynnar. Dylid rhoi sylw arbennig i sicrhau bod anghenion pobl anabl yn cael sylw priodol wrth gynllunio ar gyfer gwasanaethau ataliol ac ymyrraeth gynnar mewn ardal.

## Nodi'r rhai a allai elwa ar wasanaethau ataliol ac ymyrraeth gynnar

184. Dylai atal ac ymyrraeth gynnar fod yn ffocws cyson i awdurdodau lleol, byrddau iechyd a sefydliadau partner o ran diwallu anghenion gofal a chymorth pobl ac anghenion cymorth gofalwyr. Fodd bynnag, efallai y bydd adegau allweddol ym mywyd person neu yn y broses gofal a chymorth lle y gallai gwasanaeth ataliol ac ymyrraeth gynnar fod yn hynod briodol. Dylai awdurdodau lleol roi trefniadau ar waith i nodi a thargedu'r unigolion hynny, yn enwedig trwy'r gwasanaeth gwybodaeth, cyngor a chynhorthwy a'r broses asesu a chynllunio gofal. Mae Rhan 3 o'r Ddeddf yn cyfeirio at adrannau 19(4)(b)(ii), 21(4)(c)(ii) a 24(4)(e)(ii) o'r Ddeddf, sy'n ei gwneud yn ofynnol i'r awdurdod lleol asesu a allai darpariaeth gwasanaethau ataliol ac ymyrraeth gynnar gyfrannu at gyflawni canlyniadau personol neu ddiwallu anghenion oedolyn, plentyn neu ofalwr ac, os felly, i ba raddau. Mae rhagor o wybodaeth am y broses asesu ar gael yn y cod ar Ran 3 o'r Ddeddf.

**9** https://www.llyw.cymru/fframwaith-cenedlaethol-ar-gyfer-presgripsiynu-cymdeithasol

185. Gallai pobl o dan yr amgylchiadau canlynol elwa ar gymorth ataliol ac ymyrraeth gynnar. Nid yw'r rhestr hon yn un hollgynhwysfawr:

- derbyn i'r ysbyty / rhyddhau o'r ysbyty i fynd adref neu mor agos i'r cartref â phosibl
- cyswllt â chymorth annibynnol neu gymunedol, neu ddefnydd ohono
- plant sy'n derbyn gofal, plant mewn angen a phlant sydd mewn cyfnod pontio, yn enwedig i fod yn oedolion
- profedigaeth ddiweddar
- ceisiadau am fudd-daliadau fel Lwfans Gweini neu Lwfans Gofalwr
- wedi mynd yn anabl yn ddiweddar.

## Helpu pobl i gael mynediad at wasanaethau ataliol ac ymyrraeth gynnar

186. Mae pennod 6 o'r Cod hwn yn amlinellu'r gofynion ar awdurdodau lleol i ddarparu Gwasanaeth Gwybodaeth, Cyngor a Chynhorthwy. I gefnogi effeithiolrwydd y gwasanaethau ataliol ac ymyrraeth gynnar sy'n cael eu cyflenwi, bydd angen i bobl allu cael gafael ar wybodaeth am y gwasanaethau hyn, a sut i gael mynediad atynt, trwy'r gwasanaeth gwybodaeth, cyngor a chynhorthwy. Dylai unrhyw gyfeiriad at berson ag anghenion gofal a chymorth fod ar ffurf sy'n diwallu anghenion y person hwnnw.

187. Bydd angen cymorth priodol ar rai pobl, gan gynnwys plant, fel y gallant ymgysylltu'n ystyrlon â gwasanaethau ataliol ac ymyrraeth gynnar. Dylai awdurdodau lleol sicrhau bod cymorth o'r fath yn cael ei ddarparu a bod pobl yn ymgysylltu'n llawn â'u datrysiadau eu hunain. Bydd teulu a ffrindiau yn chwarae rôl flaenllaw i helpu unigolion i sicrhau'r ymgysylltu hwn a sicrhau bod eu barn, eu dymuniadau a'u teimladau yn cael eu hadlewyrchu wrth ddatblygu eu hatebion unigol. Fodd bynnag, ar adegau, dim ond drwy eiriolaeth annibynnol y bydd modd cyflawni hyn. O dan yr amgylchiadau hyn, **rhaid** i awdurdodau lleol sicrhau bod yr unigolyn yn cael ei gefnogi gan eiriolwr annibynnol heb orfod talu am y cymorth hwnnw.

## Eiriolaeth

188. Mae gan eiriolaeth rôl bwysig i'w chwarae mewn perthynas â llais a rheolaeth ac fel sail i ofynion ehangach y Ddeddf o ran llesiant, diogelu ac atal. Mae'n gallu helpu pobl i fynegi eu barn a gwneud dewisiadau gwybodus, gan sicrhau bod ganddynt fynediad at wasanaethau perthnasol. Dylai awdurdodau lleol ystyried hyn wrth helpu pobl i gael mynediad at wasanaethau ataliol at y dibenion a amlinellir yn adran 15 o'r Ddeddf. Mae'r cod ymarfer mewn perthynas â Rhan 10 o'r Ddeddf yn egluro dyletswydd awdurdodau lleol i drefnu gwasanaethau eirioli ar gyfer pobl ag anghenion gofal a chymorth.

## Ailalluogi ac Adsefydlu

189. Gall ailalluogi fod yn elfen allweddol o wasanaethau ataliol, drwy ymyrryd yn gynnar gan ddefnyddio pecyn gofal cywir sydd wedi'i asesu. Mae mynediad amserol, uniongyrchol at wasanaethau ailalluogi wedi'u targedu yn helpu pobl, gan gynnwys plant, i gynnal eu gallu yn y tymor hir.

190. Mae ailalluogi yn ymwneud â helpu pobl i wneud pethau drostynt eu hunain er mwyn gwneud y gorau o'u gallu i fyw bywyd mor annibynnol â phosibl gyda lefel briodol o gymorth er mwyn osgoi dirywiad a'r angen am ymyrraeth fwy dwys.

191. Bwriad cyffredinol ailalluogi yw galluogi pobl i adennill y sgiliau a'r medrau a oedd ganddynt o'r blaen er mwyn gallu bod mor annibynnol â phosibl eto. Mae hwn yn ddull personol sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau lle mae'r person sy'n defnyddio'r gwasanaeth yn gosod ei amcanion ei hun ac yn cael cymorth gan dîm ailalluogi i'w cyflawni dros gyfnod cyfyngedig. Mae'n cefnogi anghenion corfforol, synhwyraidd, cymdeithasol ac emosiynol ac yn ceisio lleihau'r angen am gymorth parhaus ar ôl ailalluogi. Mae ailalluogi yn ceisio gwella sgiliau a gwydnwch unigolyn yn ei sefyllfa benodol.

192. Er mwyn bod yn effeithiol, dylai cymorth ailalluogi gael ei gydgynhyrchu rhwng dinasyddion ac ymarferwyr medrus. Gyda'i gilydd, dylent gyfrifo'n gywir botensial y person a'r rhwystrau i wella er mwyn llunio rhaglen i gyflawni canlyniadau llesiant y person hwnnw.

193. Mae adsefydlu yn hollbwysig o ran galluogi plant ac oedolion anabl i fyw mor annibynnol â phosibl gyda'r lefel briodol o gymorth gan ei fod yn allweddol er mwyn caffael a datblygu sgiliau y byddent fel arall wedi'u dysgu yn achlysurol. Mae'n hollbwysig os na fydd unigolyn wedi gallu datblygu'r sgiliau hynny. Mae nodi gwasanaethau ataliol sy'n helpu pobl i ddysgu, cadw neu wella sgiliau a gallu swyddogaethol yn rhan annatod o hyrwyddo llesiant. Yr un fath ag ailalluogi, dylai adsefydlu effeithiol gefnogi anghenion corfforol, synhwyraidd, cymdeithasol ac emosiynol a chael ei gyflenwi mewn partneriaeth rhwng yr awdurdod lleol a'r bwrdd iechyd. Efallai y bydd cymorth adsefydlu yn wahanol i wasanaethau ailalluogi safonol. Os felly, bydd angen gwahanol ddull, sef un sy'n canolbwyntio ar anghenion penodol yr unigolyn a'i deulu. O ganlyniad, efallai y bydd angen rhaglen fwy strwythuredig o gymorth, ac am gyfnod hirach.

194. Dylai ailalluogi ac adsefydlu effeithiol gael eu cyflenwi mewn partneriaeth rhwng yr awdurdod lleol a'r GIG.

## Gofalwyr

195. Mae gan ofalwyr rôl allweddol o ran gwasanaethau ataliol ac ymyrraeth gynnar mewn ardal awdurdod lleol ac yn rhanbarthol. Mae'r gofalwyr eu hunain yn darparu math o wasanaeth ataliol, ac maent hefyd yn nodi'r angen i ymyrryd yn gynnar, er enghraifft pan fydd sefyllfa ofalu yn newid.

196. Felly, dylai awdurdodau lleol helpu i sicrhau bod gofalwyr yn gallu byw eu bywydau eu hunain mor annibynnol â phosibl. Mae hyn yn cynnwys bod yn ymwybodol o anghenion a chanlyniadau iechyd a llesiant y gofalwyr eu hunain, a'r gwasanaethau sydd ar gael yn lleol i gefnogi'r amcanion a'r canlyniadau hynny, er mwyn cefnogi a chynnal rôl ataliol y gofalwr mewn cysylltiad â gofal a chymorth pobl eraill.

## Gwasanaethau Ataliol ac Ymyrraeth Gynnar i Blant a Theuluoedd

197. Mae'r Ddeddf yn pwyso'n drwm ar yr elfennau plant mewn angen a llesiant yn Neddfau Plant 1989 a 2004. Nid oes unrhyw wanhau wedi bod o ran hawliau a hawlogaethau plant. Mae'r Ddeddf yn atgyfnerthu'r egwyddor o helpu teuluoedd i ofalu am blant, gyda phwyslais ar helpu rhieni i ddatblygu eu gallu eu hunain i nodi a rheoli problemau, gan gadw teuluoedd gyda'i gilydd mewn amgylchedd diogel, cefnogol a sefydlog. **Rhaid** i awdurdodau lleol wneud yr egwyddor hon yn rhan annatod o'u broses o gynllunio a chyflenwi gwasanaethau.

198. Mae'r Canllawiau Statudol a ddyroddwyd mewn perthynas â Rhan 7 o'r Ddeddf yn amlinellu'r gofyniad am ddull amlasiantaethol o ddiogelu a hyrwyddo llesiant plant. Mae hyn yn cynnwys sicrhau bod gwaith yn cael ei wneud i atal plant rhag cael eu cam-drin neu eu hesgeuluso a chael eu rhoi yng ngofal awdurdod lleol.

199. Mae pobl sy'n byw mewn tlodi yn wynebu heriau arbennig a dylai awdurdodau lleol ystyried hyn wrth helpu i ddiwallu angen a nodir. Mae ymyrraeth gynnar yn gallu bod yn hollbwysig yn hyn o beth. Mae Llywodraeth Cymru yn ariannu ac yn cyfrannu at amryw o fentrau sy'n ceisio helpu unigolion a theuluoedd i gael cymorth priodol cyn gynted â phosibl ac atal teuluoedd rhag mynd i argyfwng. Er enghraifft, nod Teuluoedd yn Gyntaf yw helpu i wella canlyniadau i deuluoedd, yn enwedig y rhai sy'n byw mewn tlodi. Mae awdurdodau lleol yn nodi'r ffyrdd y gallant ddarparu Teuluoedd yn Gyntaf a darparu tystiolaeth o gyfraniad at gyflawni canlyniadau'r rhaglen. Mae hyn yn golygu bod **rhaid** rhoi lle canolog i deuluoedd yn y broses o ddylunio a chyflenwi gwasanaethau i gefnogi teuluoedd ac adeiladu gwydnwch. Mae gweithgareddau fel hyn yn cyfrannu at gyflawni dyletswyddau statudol mewn perthynas â darparu gwasanaethau ataliol ac ymyrraeth gynnar i blant a theuluoedd.

200. Mae gan wasanaethau ataliol ac ymyrraeth gynnar rôl allweddol i'w chwarae o ran diwallu anghenion plant, gan gynnwys plant sy'n derbyn gofal, drwy atal neu ohirio amgylchiadau a all arwain at blentyn neu berson ifanc yn cael ei roi yng ngofal awdurdod lleol. Bydd y cod ymarfer mewn perthynas â Rhan 6 o'r Ddeddf hefyd yn helpu awdurdodau lleol i gyflawni eu dyletswyddau mewn perthynas ag adran 15 o'r Ddeddf. Bydd y cod ymarfer mewn perthynas â Rhan 6 hefyd yn helpu awdurdodau lleol i gyflawni eu dyletswyddau o ran adran 15 o'r Ddeddf. Mae datblygu'r chwe Model Gofal o dan y Gronfa Integreiddio Rhanbarthol (yn enwedig y modelau ar gynorthwyo teuluoedd i aros gyda'i gilydd yn ddiogel, a chymorth therapiwtig i blant sydd wedi cael profiad o ofal) yn rhoi'r cyfle i ystyried elfennau craidd y modelau hyn o ran:

- atal yr angen i blant fynd i'r system ofal

- rhoi’r cyfle i awdurdodau lleol, byrddau iechyd a sefydliadau partner – o dan fantell byrddau partneriaeth rhanbarthol – integreiddio gwasanaethau gofal a chymorth ar draws gofal cymdeithasol, iechyd ac addysg ar gyfer plant â phrofiad o ofal sydd ag anghenion emosiynol ac ymddygiadol cymhleth.

## Codi ffioedd am ddarparu gwasanaethau ataliol

201. Mae’r rheoliadau a’r cod ymarfer mewn perthynas â Rhan 5 o’r Ddeddf yn amlinellu trefniadau ar gyfer asesiad ariannol a chodi ffioedd. Mae hyn yn cynnwys codi ffioedd am ddarparu neu drefnu gwasanaethau ataliol a chynhorthwy.

202. Caiff awdurdodau lleol godi ffi cyfradd safonol i helpu i ddarparu gwasanaeth ataliol. **Rhaid** i awdurdod lleol ystyried lefel y ffi cyfradd safonol y mae’n cynnig ei chodi, a’i heffaith ariannol bosibl ar y person sydd angen ei thalu. Dylai awdurdodau lleol osgoi sefyllfa lle mae’r ffi cyfradd safonol y maent yn ei gosod yn atal pobl rhag derbyn y gwasanaethau ataliol, gan gyfyngu ar allu’r awdurdod lleol i gyflawni’r dibenion yn adran 15 o’r Ddeddf.

203. **Ni chaiff** awdurdod lleol godi tâl am chwe wythnos gyntaf gwasanaethau ailalluogi a ddarperir er mwyn helpu unigolyn i gynnal neu adennill y gallu i fyw'n annibynnol.

204. **Ni chaiff** awdurdodau lleol godi tâl am wasanaethau ataliol i blant.

## Gwerthuso effeithiolrwydd gwasanaethau ataliol ac ymyrraeth gynnar

205. Dylai awdurdodau lleol roi trefniadau ar waith i fonitro a gwerthuso effeithiolrwydd y gwasanaethau ataliol ac ymyrraeth gynnar a ddarperir neu a drefnir at ddibenion adran 15 o’r Ddeddf. Bydd asesiad o anghenion y boblogaeth yn gyfle i adolygu anghenion y boblogaeth ac effeithiolrwydd y gwasanaethau ataliol ac ymyrraeth gynnar sydd ar waith ar hyn o bryd. Fel rhan o’i phroses arolygu, bydd Arolygiaeth Gofal Cymru yn ystyried effeithiolrwydd y ddarpariaeth gwasanaethau ataliol ac ymyrraeth gynnar.

206. Mae’r cod ymarfer mewn perthynas â mesur perfformiad gwasanaethau cymdeithasol a ddyroddwyd o dan adran 145 o’r Ddeddf yn amlinellu’r fframwaith mesur perfformiad ar gyfer awdurdodau lleol o ran eu swyddogaethau gwasanaethau cymdeithasol. Mae’r fframwaith hwn yn sail i’r gwaith o gynllunio a datblygu gwasanaethau ataliol ac ymyrraeth gynnar ac yn galluogi awdurdodau lleol i dargedu adnoddau er mwyn gwella’n barhaus.

# **4.** Hyrwyddo Mentrau Cymdeithasol, Mentrau Cydweithredol a Gwasanaethau a arweinir gan Ddefnyddwyr, a'r Trydydd Sector

## Cyflwyniad: nod a chwmpas

207. O dan adran 16 o'r Ddeddf, mae dyletswydd ar awdurdodau lleol i hyrwyddo:

- datblygiad mentrau cymdeithasol yn eu hardal i ddarparu gofal a chymorth a gwasanaethau ataliol
- datblygiad sefydliadau neu drefniadau cydweithredol yn eu hardal i ddarparu gofal a chymorth a gwasanaethau ataliol
- cynnwys pobl ('ymglymiad personau' yw'r geiriad yn y Ddeddf) y mae gofal a chymorth neu wasanaethau ataliol i'w darparu ar eu cyfer yn y broses o ddylunio a gweithredu'r ddarpariaeth honno
- argaeledd gwasanaethau gofal a chymorth a gwasanaethau ataliol gan sefydliadau'r trydydd sector yn eu hardal (p'un a yw'r sefydliadau'n fentrau cymdeithasol neu'n sefydliadau cydweithredol ai peidio).

208. Mae'r 'ddyletswydd i hyrwyddo' yn adran 16 yn elfen allweddol o ymdrech y Ddeddf i drawsnewid y ffordd y mae gofal a chymorth yn cael eu dylunio a'u cyflenwi.

209. Mae adran 16 o'r Ddeddf yn ymwneud yn bennaf â darparu gwasanaethau. Nod cyffredinol y ddyletswydd i hyrwyddo yw cynyddu cyfran y gwasanaethau gofal a chymorth a'r gwasanaethau ataliol a ddarperir gan fentrau cymdeithasol, mentrau cydweithredol, gwasanaethau sy'n cael eu harwain gan ddefnyddwyr, a'r trydydd sector. Yn y modelau cyflenwi a'r dulliau gweithredu hyn, mae unrhyw arian dros ben fel arfer yn cael ei ailfuddsoddi yn y busnes neu yn y gymuned.

210. Mae'r ddyletswydd i hyrwyddo yn adran 16 hefyd yn ceisio sicrhau bod y rhai hynny sydd angen gofal a chymorth neu wasanaethau ataliol yn cael eu cynnwys yn llawn yn y broses o ddylunio a chyflenwi'r gwasanaethau hynny, yn unol ag egwyddorion y Ddeddf – yn enwedig cydgynhyrchu, llais a rheolaeth. Mae canllawiau ar yr agwedd hon o ddyletswydd adran 16 i'w gweld ym mhennod 5 o'r Cod hwn.

211. Wrth gyflawni ei ddyletswydd i hyrwyddo o dan adran 16 o'r Ddeddf, **rhaid** i awdurdod lleol weithio mewn partneriaeth â'r awdurdodau lleol eraill, y bwrdd iechyd a phartneriaid eraill a gynrychiolir ar y bwrdd partneriaeth rhanbarthol, yn enwedig o ran cynllunio a chomisiynu gofal a chymorth wedi'u cydgynhyrchu a'u hintegreiddio. Ceir canllawiau pellach ar ddefnyddio dull partneriaeth rhanbarthol o ailgydbwyso'r farchnad a chydgynhyrchu yn Rhan 9 o'r Canllawiau Statudol ar Drefniadau Partneriaeth.

212. **Rhaid** darllen y bennod hon ar y cyd â:

- Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014
- Rheoliadau Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 (Mentrau Cymdeithasol, Cydweithredol a Thrydydd Sector) (Cymru) 2015
- Rheoliadau Gofal a Chymorth (Asesiadau Poblogaeth) (Cymru) 2015
- Rheoliadau Trefniadau Partneriaeth (Diwygio) a Gwasanaethau Rheoleiddiedig (Adroddiadau Sefydlogrwydd y Farchnad) (Cymru) 2021
- Y Cod Ymarfer ar Adroddiadau Sefydlogrwydd y Farchnad (Mawrth 2021)
- Canllawiau Statudol Rhan 9 ar Drefniadau Partneriaeth
- Y penodau eraill yn y Cod hwn ar Swyddogaethau Cyffredinol, yn enwedig pennod 2 (asesiad o anghenion y boblogaeth), pennod 3 (gwasanaethau ataliol), a phennod 5 (cydgynhyrchu).

## Y cyd-destun

213. Nod polisi Llywodraeth Cymru ym maes gwasanaethau cyhoeddus yw sicrhau mwy o amrywiaeth yn y modd y cyflenwir gwasanaethau, drwy gwmnïau cydfuddiannol, mewnoli, cydgomisiynu a pherchnogaeth gymunedol. Ei nod yw grymuso pobl a chymunedau.

214. Yn y maes gofal cymdeithasol, nod polisi Llywodraeth Cymru yw ceisio ailgydbwyso'r ddarpariaeth gofal a chymorth drwy gynyddu nifer y mentrau cymdeithasol, mentrau cydweithredol a darparwyr trydydd sector, cefnogi awdurdodau lleol sy'n ceisio datblygu gwasanaethau mewnol newydd, a hyrwyddo modelau cyflenwi gwasanaethau newydd a rhai sy'n dod i'r amlwg.

215. Mewn gwasanaethau i oedolion, y nod yw creu economi gofal mwy amrywiol a chymysg sy'n fwy sefydlog a chynaliadwy o ran diwallu anghenion lleol. Bydd yr economi gymysg hon yn cynnwys amrywiaeth o ddarparwyr o bob rhan o'r sectorau cyhoeddus, preifat a'r trydydd sector, yn ogystal â mentrau cymdeithasol a chydweithredol, a gwasanaethau sy'n cael eu harwain gan ddefnyddwyr. Bydd darpariaeth y sector preifat yn cynnwys darparwyr mawr sy'n dod ag arbedion maint, a busnesau bach a chanolig fel busnesau cartrefi gofal sy'n cael eu rhedeg gan deuluoedd sy'n canolbwyntio mwy ar y gymuned. Mae pob un o’r rhain yn dod â chryfderau gwahanol i'r farchnad, ac yn cyfrannu at batrwm gwasanaethau sy’n amrywiol a chynaliadwy.

216. Mewn gwasanaethau i blant, y bwriad yw cyflawni newid mwy radical a fydd yn gweld y farchnad yn symud at ddarpariaeth nid-er-elw-preifat yn ystod yr ychydig flynyddoedd nesaf, er mwyn sicrhau profiadau a chanlyniadau gwell i blant a phobl ifanc. Bydd yn seiliedig ar anghenion a gwerthoedd.

217. Bydd y ddyletswydd i hyrwyddo yn adran 16 hefyd yn cael ei chyflawni yng nghyd-destun cynllunio strategol a chomisiynu gofal a chymorth fel y nodir mewn adrannau eraill o’r Ddeddf. Mae hyn yn cynnwys y gofyniad i gynhyrchu asesiadau o anghenion y boblogaeth (adran 14), adroddiadau sefydlogrwydd y farchnad (adran 144B) a chynlluniau ardal ar y cyd (adran 14A). Bydd pob un o'r rhain yn cael eu cynhyrchu’n rhanbarthol drwy'r byrddau partneriaeth rhanbarthol.

## Diffiniadau

218. Mae adran 16 o’r Ddeddf yn cynnwys diffiniadau eang o fenter gymdeithasol a sefydliad trydydd sector. Mae Rheoliadau Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 (Mentrau Cymdeithasol, Cydweithredol a Thrydydd Sector) (Cymru) 2015 yn nodi'n fanylach pa sefydliadau a ystyrir yn fentrau cymdeithasol, mentrau cydweithredol a sefydliadau trydydd sector.

**Mentrau cymdeithasol**

219. Mae Busnes Cymru yn disgrifio menter gymdeithasol fel busnes ag amcanion cymdeithasol yn bennaf. Mae’r arian dros ben yn cael ei ailfuddsoddi yn y busnes neu yn y gymuned gan fwyaf, yn hytrach na sicrhau’r elw mwyaf i gyfranddalwyr a pherchnogion. Mae mentrau cymdeithasol hefyd yn cystadlu yn y farchnad ac mae angen eu rheoli’n dda i sicrhau eu bod yn gwneud arian ac yn cyflawni eu nodau cymdeithasol. Gallant amrywio o siopau bach pentref sy’n eiddo i’r gymuned i sefydliadau mawr sy'n cyflenwi gwasanaethau cyhoeddus. Mae'r Rheoliadau'n cynnwys yr enghreifftiau canlynol o sefydliadau sydd i'w trin fel mentrau cymdeithasol at ddibenion adran 16 o’r Ddeddf: cwmni buddiannau cymunedol, cymdeithas budd cymunedol, mentrau cymunedol, undebau credyd a chymdeithasau tai.

220. Mae rhagor o wybodaeth ac arweiniad ar fentrau cymdeithasol ar gael yn:

- Cwmpas – https://cwmpas.coop
- Busnes Cymdeithasol Cymru – https://businesswales.gov.wales/socialbusinesswales/cy
- Cwmnïau Cymdeithasol Cymru – https://www.socialfirmswales.co.uk/hafan
- Social Enterprise UK - https://www.socialenterprise.org.uk/

**Mentrau cydweithredol**

221. Mae'r Rheoliadau'n pennu y caniateir trin sefydliad neu drefniant fel menter gydweithredol at ddibenion adran 16 (1) o’r Ddeddf, p'un a yw'n bodloni'r holl ofynion ar gyfer cofrestru o dan Ddeddf Cymdeithasau Cydweithredol a Chymdeithasau Budd Cymunedol 2014 ai peidio, os yw'r sefydliad (neu'r sefydliad sy'n gwneud y trefniadau) yn cydymffurfio'n ddigonol â phum egwyddor gydweithredol benodedig – sef bod y sefydliad:
    - yn ymreolaethol
    - ag aelodaeth wirfoddol
    - â'r diben o ddiwallu anghenion a dyheadau economaidd, cymdeithasol a diwylliannol cyffredin
    - mewn cydberchnogaeth
    - yn cael ei reoli'n ddemocrataidd.

222. Ceir gwybodaeth a chanllawiau pellach ar sefydliadau cydweithredol yn:
    - Y Gynghrair Gydweithredol Ryngwladol – https://ica.coop/
    - Cwmpas – https://cwmpas.coop

**Y Trydydd Sector**

223. Mae adran 16 o'r Ddeddf yn nodi mai sefydliad trydydd sector yw sefydliad y gallai person ystyried yn rhesymol ei fod yn bodoli'n gyfan gwbl neu'n bennaf i ddarparu buddion i gymdeithas. Mae Cynllun Trydydd Sector Llywodraeth Cymru yn dweud y derbynnir yn eang bod sefydliadau trydydd sector:
    - yn gyrff anllywodraethol, annibynnol
    - wedi'u sefydlu'n wirfoddol gan bobl sy'n dewis eu trefnu eu hunain
    - yn seiliedig ar werth ac yn cael eu hysgogi gan amcanion cymdeithasol, diwylliannol neu amgylcheddol, yn hytrach nag awydd i wneud elw yn unig
    - yn ymrwymedig i ailfuddsoddi unrhyw arian dros ben i hybu eu nodau cymdeithasol ac er budd pobl a chymunedau yng Nghymru.

224. Ceir rhagor o wybodaeth a chanllawiau am sefydliadau'r trydydd sector yn:
    - Cynllun Trydydd Sector Llywodraeth Cymru
    - Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru (WCVA) - https://wcva.cymru/cy/hafan

225. Ceir rhagor o arweiniad, cefnogaeth a ffynonellau gwybodaeth am fentrau cymdeithasol, mentrau cydweithredol a'r trydydd sector yn Hyb Gwybodaeth a Dysgu Gofal Cymdeithasol Cymru https://gofalcymdeithasol.cymru/adnoddau-canllawiau/hyb-gwybodaeth-a-dysgu

## Gwasanaethau sy’n cael eu harwain gan ddefnyddwyr

226. Mae adran 16 o’r Ddeddf yn rhoi dyletswydd ar awdurdodau lleol i hyrwyddo cynnwys pobl (‘ymglymiad personau’ yw’r geiriad yn y Ddeddf) y mae gofal a chymorth neu wasanaethau ataliol i’w darparu ar eu cyfer yn y broses o ddylunio a gweithredu’r ddarpariaeth honno. Caniateir i rai o’r gwasanaethau hyn gael eu darparu gan sefydliadau sy’n cael eu cynnal a’u rheoli gan unigolion sy’n defnyddio’r gwasanaeth (sefydliadau sy’n cael eu harwain gan ddefnyddwyr), ond mae’r ddyletswydd o dan adran 16 o’r Ddeddf hefyd yn hybu modelau a dulliau amrywiol o gynnwys defnyddwyr gwasanaethau a gofalwyr. Ymhelaethir ar hyn ym mhennod 5 o’r Cod hwn, ar ymgysylltu, llais a chydgynhyrchu.

## Gwerth cymdeithasol ac ychwanegol

227. Mae mentrau cymdeithasol, sefydliadau a dulliau gweithredu cydweithredol, gwasanaethau sy'n cael eu harwain gan ddefnyddwyr, a'r trydydd sector, mewn sefyllfa arbennig o dda i ddarparu gwerth cymdeithasol ac ychwanegol yn y maes gofal cymdeithasol, gan eu bod yn sefydliadau ag aelodaeth ddemocrataidd sydd â gwreiddiau cryf yn eu cymunedau lleol, ac sydd wedi ymrwymo i ailfuddsoddi unrhyw arian dros ben yn uniongyrchol yn ôl i'r sefydliad neu i’r gymuned ehangach.

228. Mae gwerth cymdeithasol yn derm eang a ddefnyddir i ddisgrifio effeithiau cymdeithasol, amgylcheddol ac economaidd y camau gweithredu a gymerir gan gymunedau, sefydliadau, llywodraethau ac unigolion. Yn fwy penodol, o ran

darparu gwasanaethau, mae'n cyfeirio at y gwerth ariannol ac anariannol ehangach a grëir gan sefydliad drwy ei weithgareddau o ddydd i ddydd o ran llesiant unigolion a chymunedau, y cyfalaf cymdeithasol a grëir a'r amgylchedd. Mae dull gwerth cymdeithasol yn ei gwneud yn ofynnol i'r rhai sy'n comisiynu ac yn caffael gwasanaethau cyhoeddus edrych y tu hwnt i gost ariannol contract ac ystyried sut y gallai'r gwasanaethau y maent yn eu comisiynu a'u caffael wella llesiant economaidd, cymdeithasol, diwylliannol ac amgylcheddol yr ardal. Yng Nghymru, mae angen edrych ar werth cymdeithasol yn benodol yng nghyd-destun y nodau llesiant a'r ffyrdd o weithio a amlinellir yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

229. Mae darparu gofal a chymorth o ansawdd i unigolion yn unol ag egwyddorion y Ddeddf (fel y nodir ym mhennod 1 o'r Cod hwn) ynddo'i hun yn ffynhonnell gwerth cymdeithasol, gan ei fod yn canolbwyntio'n glir ar ganlyniadau llesiant i unigolion, teuluoedd a chymunedau, ac yn hyrwyddo dulliau sydd wedi'u gwreiddio mewn cydgynhyrchu a phartneriaeth. Yn ogystal, dylai awdurdodau lleol hefyd fod yn ceisio buddsoddi mewn modelau o ofal a chymorth sy'n rhoi gwerth cymdeithasol, economaidd, diwylliannol ac amgylcheddol ychwanegol sy'n mynd yr ail filltir i gyflenwi gofal cymdeithasol gwych. Mae'r gwerth ychwanegol hwn o fudd i'r gymuned ehangach ac mae hefyd o fudd i genedlaethau'r dyfodol. Mae'n gwneud gofal cymdeithasol yn gynaliadwy.

230. Y nod yw y dylai <u>pob</u> darparwr gofal a chymorth a gwasanaethau ataliol, o bob rhan o bob sector, fod yn darparu gofal cymdeithasol gwych a gwerth ychwanegol. Dylai comisiynwyr awdurdodau lleol weithio gyda darparwyr i sicrhau bod hyn yn cael ei adlewyrchu ym mhob agwedd ar ddylunio a chyflenwi gwasanaethau. Mae gan fentrau cymdeithasol, mentrau cydweithredol, gwasanaethau sy'n cael eu harwain gan ddefnyddwyr a'r trydydd sector rôl arbennig o bwysig i'w chwarae i gyflawni hyn, ac mae'r ddyletswydd i hyrwyddo yn adran 16 yn ceisio ehangu ac atgyfnerthu'r cyfraniad hwn at siapio'r farchnad gofal cymdeithasol.

## <u>Siapio'r farchnad gofal cymdeithasol</u>

231. Mae'r ddyletswydd i hyrwyddo yn adran 16 yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol gymryd ac arddangos dull rhagweithiol o siapio'r farchnad gofal cymdeithasol yn dilyn asesiad o anghenion y boblogaeth (adran 14 o'r Ddeddf) ac adroddiad sefydlogrwydd y farchnad (adran 144B o'r Ddeddf). Ar ôl asesu anghenion gofal a chymorth y boblogaeth leol, mae'n ofynnol hefyd i awdurdodau lleol nodi ystod a lefel y gwasanaethau sydd ei angen i ddiwallu'r anghenion hynny. Mae'r adroddiad sefydlogrwydd y farchnad yn cynnwys asesiad o ddigonolrwydd darpariaeth gofal a chymorth, ac asesiad o sefydlogrwydd y farchnad ar gyfer gwasanaethau rheoleiddiedig. Wrth gynnal yr asesiadau amrywiol hyn, mae'n ofynnol i awdurdodau lleol ystyried rôl mentrau cymdeithasol, mentrau a threfniadau cydweithredol, gwasanaethau a arweinir gan ddefnyddwyr, a'r trydydd sector, o fewn y ddarpariaeth gofal a chymorth yn gyffredinol; a sut y gallant hyrwyddo a chynyddu'r math hwn o ddarpariaeth o fewn y farchnad gofal cymdeithasol leol a rhanbarthol. Dylai hyn gynnwys gofal a chymorth ehangach, gan gynnwys gwasanaethau ataliol, a gwasanaethau rheoleiddiedig fel y'u diffinnir o dan Ddeddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016.

232. Bwriad y ddyletswydd i hyrwyddo yn adran 16 yw cynyddu amrywiaeth y ddarpariaeth sydd ar gael, gan gydnabod nad oes ‘un dull addas i bawb’. Ei nod hefyd yw hwyluso amgylchedd lle mae pobl wedi’u galluogi’n well i’w cefnogi eu hunain, lle y bo’n briodol. Bydd mynd ati'n rhagweithiol i hyrwyddo sefydliadau a modelau adran 16 yn cefnogi arloesedd a chreadigrwydd, yn gwella gwydnwch cymunedol, ac yn lleihau'r risg o ddibynnu ar un math o gyflenwi gwasanaethau.

## Ymgysylltu â darparwyr

233. Er mwyn cyflawni'r ddyletswydd i hyrwyddo yn adran 16, **rhaid** i awdurdodau lleol roi trefniadau ar waith i gefnogi ac annog mentrau cymdeithasol, mentrau cydweithredol, gwasanaethau a arweinir gan ddefnyddwyr, a'r trydydd sector, fel eu bod yn gallu cyflawni cyfleoedd cyflenwi gwasanaethau ac yn barod i wneud hynny. Dylai hyn gynnwys dod â'r darparwyr hyn at ei gilydd i gefnogi ei gilydd, rhannu dysg a hyrwyddo arferion da.

234. Bydd y ffordd y gwneir hyn yn dibynnu ar yr hyn sy'n gweithio orau mewn unrhyw ardal neu ranbarth penodol, ond dylai awdurdodau lleol weithio gyda'i gilydd i hwyluso fforwm rhanbarthol (neu, lle y bo'n briodol, mwy nag un fforwm) i ddod â sefydliadau adran 16 a chomisiynwyr iechyd, gofal cymdeithasol a thai at ei gilydd, i hyrwyddo a thyfu'r rhan hon o'r farchnad gofal cymdeithasol. Dylai awdurdodau lleol gymryd camau priodol i sicrhau bod y fforymau hyn yn cynnwys ac yn cynrychioli’r gwahanol fathau o sefydliadau a dulliau adran 16 yn eu rhanbarth.

235. **Rhaid** i awdurdodau lleol roi arweiniad i’r fforymau hyn, sicrhau bod ganddynt gylch gorchwyl clir, a darparu cefnogaeth ysgrifenyddol ar gyfer cyfarfodydd. Bydd y fforymau yn helpu i hwyluso deialog rhwng comisiynwyr a sefydliadau adran 16 am yr heriau, y risgiau a'r cyfleoedd i'r sector o fewn cymunedau lleol ac ar draws y rhanbarth. Mae gofyn i awdurdodau lleol a byrddau iechyd ymgysylltu â'r fforymau rhanbarthol hyn wrth lunio eu hasesiadau o anghenion y boblogaeth ac adroddiadau sefydlogrwydd y farchnad.

236. **Rhaid** i awdurdodau lleol drefnu i gyhoeddi adroddiad ar y cyd bob tair blynedd ar y ffyrdd y maent wedi hyrwyddo mentrau cymdeithasol, mentrau cydweithredol, gwasanaethau a arweinir gan ddefnyddwyr a'r darparwyr trydydd sector ar draws ardal y bwrdd partneriaeth rhanbarthol, gan gynnwys gweithgareddau'r fforwm neu fforymau o fewn y rhanbarth. Dylai hyn gynnwys y camau maent wedi’u cymryd i ymgysylltu â’r holl sefydliadau perthnasol, a’u cynnwys, yng ngwaith y fforymau adran 16. Dylai awdurdodau lleol hefyd ddarparu a chyhoeddi diweddariad blynyddol ar y gweithgarwch hwn. Gall hyn fod yn rhan o adroddiadau blynyddol byrddau partneriaeth rhanbarthol fel y nodir yng Nghanllawiau Statudol Rhan 9 ar Drefniadau Partneriaeth.

237. Dylid edrych ar ddatblygiad y fforymau hyn yng nghyd-destun ehangach ymgysylltu â'r holl ddarparwyr gofal a chymorth a gwasanaethau ataliol, pa bynnag sector y maent yn perthyn iddo. Dylai awdurdodau lleol ystyried pa drefniadau fydd yn gweithio orau ar draws eu rhanbarthau ar gyfer ymgysylltu â darparwyr ar draws pob sector, a sut y gallant ddod â darparwyr a chomisiynwyr ynghyd ar bob

lefel i feithrin dealltwriaeth gyffredin o beth yw ‘da’ a sut y gellir gweithredu egwyddorion y Ddeddf yn ymarferol.  Bydd hyn yn cynnwys datblygu dealltwriaeth gyffredin o gydgynhyrchu a gwerth ychwanegol.  Dylid darparu cyfleoedd ar gyfer rhannu’r hyn a ddysgwyd a hyrwyddo arferion da.  Bydd fformat y trefniadau hyn yn cael ei benderfynu i raddau helaeth gan anghenion lleol a rhanbarthol.

# 5. Ymgysylltu, Llais a Chydgynhyrchu

238. Mae'r Ddeddf yn gofyn am newid diwylliant o'r ffordd y mae gwasanaethau wedi bod yn cael eu darparu i ddull sy'n seiliedig ar bartneriaethau, a pherthynas gyfartal rhwng ymarferwyr a phobl sydd angen gofal a chymorth a gofalwyr sydd angen cymorth. Mae'r Ddeddf yn canolbwyntio ar lesiant a sut y gall gwasanaethau helpu pobl i gyflawni'r hyn sy'n bwysig iddynt. Bydd hyn yn cynnwys pwyslais newydd ar fodelau arloesol o wasanaethau i gefnogi llesiant, sydd wedi'u dylunio a'u cydgynhyrchu gyda dinasyddion.

239. Mae pobl – plant, pobl ifanc, oedolion a gofalwyr, eu teuluoedd a'u cymunedau – yn asedau pwysig, ac mae ganddynt sgiliau, arbenigedd a medrau. Maent yn rhan annatod o'r fframwaith cyfreithiol hwn. Bydd gweithio gyda phobl yn allweddol er mwyn cyflawni llesiant a datgloi'r potensial ar gyfer creadigrwydd a fydd yn gwneud defnydd gwell a mwy effeithiol o'r holl adnoddau sydd ar gael.

## Cynnwys Pobl

240. O dan adran 16(1)(c) o'r Ddeddf, **rhaid** i awdurdodau lleol hyrwyddo cynnwys pobl ('ymglymiad personau' yw'r geiriad yn y Ddeddf) y mae gofal a chymorth neu wasanaethau ataliol i'w darparu ar eu cyfer yn y broses o ddylunio a gweithredu'r ddarpariaeth honno.

241. Prif ffocws adran 16 o'r Ddeddf yw hyrwyddo'r broses o gyflenwi gwasanaethau gan fentrau cymdeithasol, mentrau cydweithredol, gwasanaethau sy'n cael eu harwain gan ddefnyddwyr, a sefydliadau'r trydydd sector. Fodd bynnag, mae adran 16(1)(c) yn mynd y tu hwnt i sut y caiff gwasanaethau eu cyflenwi, ac mae'n ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol hyrwyddo cynnwys defnyddwyr gwasanaethau a gofalwyr ar bob cam o'r cylch comisiynu, o asesu angen drwy ddylunio a chyflenwi i fonitro a gwerthuso, yn unol ag ymrwymiad y Ddeddf i gydgynhyrchu a phartneriaeth ddilys.

242. **Rhaid** i awdurdodau lleol roi trefniadau cadarn ar waith ar gyfer annog a galluogi cynnwys pobl ar bob cam o ddylunio a gweithredu gwasanaethau gofal a chymorth a gwasanaethau ataliol. Bydd hyn yn golygu canolbwyntio'n glir ar ganlyniadau llesiant, yn hytrach nag ar brosesau ac allbynnau, er mwyn i sefydliadau a threfniadau gael eu dylunio gyda phobl sydd angen gofal a chymorth a gofalwyr sydd angen cymorth, a chael eu harwain ganddynt.

## Cydgynhyrchu

243. Bydd amrywiaeth o ffyrdd o gynnwys pobl, ond yn hanfodol i gyflawni'r ddyletswydd hon bydd dull sy'n seiliedig ar werthoedd ac egwyddorion cydgynhyrchu.

244. Mae cydgynhyrchu yn digwydd pan fydd cyrff statudol yn gweithio mewn partneriaeth â phobl sydd â phrofiad bywyd, i ddatblygu atebion i heriau mewn gwasanaethau cyhoeddus a chymunedau. Mae Rhwydwaith Cydgynhyrchu Cymru yn diffinio cydgynhyrchu fel dull seiliedig ar asedau ar gyfer gwasanaethau cyhoeddus sy'n galluogi'r bobl sy'n darparu gwasanaethau a'r bobl sy'n derbyn gwasanaethau i rannu pŵer a chyfrifoldeb ac i gydweithio mewn perthynas gyfartal, ddwyochrog a gofalgar. Mae'n creu cyfleoedd i bobl gael cymorth pan fydd ei angen arnynt, ac i gyfrannu at newid cymdeithasol.

245. Mae cydgynhyrchu yn feddylfryd ac yn ffordd o weithio, yn seiliedig ar y pum gwerth hyn:

- gwerthfawrogi pobl ac adeiladu ar eu cryfderau
- datblygu rhwydweithiau sy'n gweithredu ar draws ffiniau sefydliadol a ffiniau eraill
- canolbwyntio ar yr hyn sy'n bwysig i'r bobl dan sylw
- meithrin perthynas o ymddiriedaeth a rhannu pŵer
- galluogi pobl i fod yn rhai sy'n creu newid.

246. Mae hyn yn golygu bod cydgynhyrchu yn ddull sy'n:

- cydnabod bod pobl yn asedau sydd â chyfraniad cadarnhaol i'w wneud at ddylunio a gweithredu gwasanaethau
- cefnogi a grymuso pobl i gymryd rhan yn y broses o ddylunio a gweithredu gwasanaethau
- grymuso pobl i ysgwyddo cyfrifoldeb dros eu llesiant eu hunain, a chyfrannu at y llesiant hwnnw
- sicrhau bod ymarferwyr yn gweithio mewn partneriaeth â phobl i gyflawni canlyniadau personol ar lefel unigol ac ar lefel gwasanaeth
- cynnwys pobl yn y gwaith o ddylunio canlyniadau ar gyfer gwasanaethau.

247. Bydd dull cydgynhyrchiol yn cyfrannu pob math o brofiad, sgiliau a gwybodaeth at y broses o ddylunio a gweithredu gwasanaethau. Bwriad egwyddorion ac arferion cydgynhyrchu yw adeiladu'r economi graidd leol o bobl sy'n cyfnewid eu sgiliau, eu diddordebau a'u hamser. Byddant yn helpu i newid y pwyslais tuag at gymorth a grëir drwy ddiddordeb ac ymrwymiad cyffredin pobl sydd wedi buddsoddi ynddo, yn awr ac yn y dyfodol. Bydd gan ddinasyddion (defnyddwyr gwasanaethau a gofalwyr), gweithwyr proffesiynol a gweithwyr gofal, comisiynwyr a chynllunwyr – oll rôl i'w chwarae wrth gydgynhyrchu, a byddant yn gallu cyfrannu gwahanol safbwyntiau, sgiliau ac arbenigeddau.

248. **Rhaid** i awdurdodau lleol roi trefniadau tryloyw ar waith lle mae pobl yn bartneriaid cyfartal wrth ddylunio, gweithredu, adolygu a gwerthuso gwasanaethau gofal a chymorth a gwasanaethau ataliol.

249. Wrth wneud hynny, **rhaid** i awdurdodau lleol fabwysiadu dull o gydgynhyrchu sy'n hyrwyddo cydraddoldeb, yn gwerthfawrogi amrywiaeth ac yn cefnogi cynhwysiant. Mae cydgynhyrchu yn golygu gweld pawb fel asedau a phartneriaid cyfartal wrth ddylunio a chyflenwi gwasanaethau, a sicrhau bod pobl o bob oed, cefndir a gallu yn cael eu cynnwys a'u lleisiau'n cael eu clywed. Bydd dulliau gwahanol yn addas

ar gyfer gwahanol grwpiau a bydd angen dod o hyd i ffyrdd arloesol a chreadigol o glywed lleisiau nad ydynt yn cael eu clywed yn aml. Mae'r adran Adnoddau ar ddiwedd y bennod hon yn rhoi dolenni at wahanol adnoddau a fydd yn helpu awdurdodau lleol i wneud hyn.

250. **Rhaid** i awdurdodau lleol adrodd ar yr hyn y maent yn ei wneud i gefnogi cydgynhyrchu yn Adroddiad Blynyddol y Cyfarwyddwr. Mae'n ofynnol hefyd i fyrddau partneriaethau rhanbarthol adrodd ar sut y maent wedi ymgysylltu â phobl yn eu hadroddiadau blynyddol.

## Gwreiddio cydgynhyrchu

251. Mae cydgynhyrchu yn gweithio ar lefel unigol, sefydliadol a strategol.

252. Ar lefel unigol, mae'r Ddeddf yn nodi dyletswyddau cyffredinol mewn perthynas â llesiant. Egwyddor sylfaenol y dull a'r system gyfan yw bod ymarferwyr yn cydgynhyrchu atebion gyda phobl sydd angen gofal a chymorth, gofalwyr a'u teuluoedd – atebion sy'n diwallu eu hanghenion llesiant ac yn eu helpu i gyflawni eu canlyniadau llesiant personol. Mae'r canlyniadau hyn yn cael eu cydgynhyrchu ar sail y sgyrsiau 'beth sy'n bwysig i mi?' sy'n sylfaenol i benderfynu a diwallu anghenion gofal a chymorth unigolyn. Mae'n egwyddor o'r Ddeddf y dylai awdurdod lleol ymateb mewn ffordd gydgynhyrchiol, sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn, i amgylchiadau penodol pob unigolyn, a rhaid i unigolyn deimlo ei fod yn bartner cyfartal yn eu perthynas â gweithwyr proffesiynol. Mae'r fframwaith ar gyfer asesu a diwallu angen unigol mewn ffordd gydgynhyrchiol wedi'i nodi yng Nghod Ymarfer Rhan 3 (Asesu Gofal a Chymorth) a Chod Ymarfer Rhan 4 (Diwallu Anghenion).

### Creu’r amgylchedd cywir

253. Mae gan awdurdodau lleol rôl hanfodol o ran creu'r amgylchedd cywir lle gall pobl sydd â diddordeb mewn diwallu anghenion gofal a chymorth y boblogaeth leol ddod at ei gilydd i gydgynhyrchu'r cymorth sydd ei angen arnynt. Dylai hyn gynnwys:

- creu amgylchedd yn lleol er mwyn sicrhau bod defnyddwyr gwasanaethau a lleisiau gofalwyr yn cael eu clywed a'u bod yn gallu arfer rheolaeth dros y gwasanaethau y maent yn eu derbyn
- gweithio'n rhagweithiol gyda darparwyr gofal a chymorth i sicrhau eu bod yn ymgysylltu’n llawn â phobl sy'n defnyddio gwasanaethau, neu a fydd o bosibl yn eu defnyddio, ac yn eu cynnwys yn llawn, yn y broses o ddylunio, cyflenwi a gwerthuso'r gwasanaethau hynny - mae hyn yn cynnwys darparwyr ar draws yr holl sectorau a gwasanaethau wedi'u rheoleiddio, yn ogystal â gwasanaethau ataliol fel y nodir ym mhennod 3
- ymgysylltu â’r gweithlu gofal cymdeithasol a chyrff cynrychiadol
- codi ymwybyddiaeth am y rôl y gall mentrau cymdeithasol, modelau a threfniadau cydweithredol, gwasanaethau a arweinir gan ddefnyddwyr a darparwyr trydydd sector ei chwarae wrth gyflawni amcanion polisi'r Ddeddf, fel y nodir ym mhennod 4.

254. Mae arweinyddiaeth yn hanfodol er mwyn creu amgylchedd cadarnhaol lle gall cydgynhyrchu ffynnu, ac efallai y bydd awdurdodau lleol am ystyried creu rolau sy'n hyrwyddo'r dulliau hyn. Dylent ystyried rôl strategol y bwrdd partneriaeth rhanbarthol o ran ysgogi arferion cydgynhyrchiol da ar draws y bartneriaeth ranbarthol.

255. **Rhaid** i awdurdodau lleol greu cyfleoedd i alluogi pobl i rannu arferion da ac archwilio syniadau, dulliau a materion mewn ffordd greadigol ac adeiladol. Gallai hyn gynnwys creu fforymau lleol neu ranbarthol, gan ddod ag awdurdodau lleol a phartneriaid statudol eraill ynghyd gyda dinasyddion a darparwyr i gydweithio i lunio gwasanaethau – ond bydd angen amrywiaeth o ddulliau gweithredu, er mwyn estyn allan at gynifer o bobl ac amrywiaeth mor eang o bobl â phosibl.

256. **Rhaid** i awdurdodau lleol gymryd camau i annog cyfranogiad siaradwyr Cymraeg yn y broses o ddylunio a chyflenwi gofal a chymorth a gwasanaethau ataliol, yn unol ag egwyddorion *Mwy na geiriau*, fframwaith Llywodraeth Cymru ar gyfer gwreiddio'r Gymraeg mewn gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol.

## Ymgysylltu â'r boblogaeth leol

257. Ar y lefel strategol, **rhaid i** awdurdodau lleol ymgysylltu ag ystod eang o bobl wrth gynhyrchu asesiadau o anghenion y boblogaeth ranbarthol, adroddiadau sefydlogrwydd y farchnad, a chynlluniau ardal ar y cyd.

258. Nodir y gofynion o ran asesiadau o anghenion y boblogaeth yn adran 14 o'r Ddeddf ac ym mhennod 2B o'r Cod hwn. Wrth baratoi eu hasesiadau, mae'n ofynnol i awdurdodau lleol weithio gyda'r byrddau iechyd i ymgysylltu â'u dinasyddion (gan gynnwys oedolion a phlant ag anghenion gofal a chymorth, gofalwyr, a rhieni plant sydd ag anghenion gofal a chymorth) wrth asesu anghenion gofal a chymorth ac ystod a lefel y gwasanaethau y mae angen iddynt eu darparu er mwyn diwallu'r anghenion hynny.

259. Mae'n ofynnol hefyd i awdurdodau lleol gynnwys pobl wrth baratoi adroddiadau sefydlogrwydd y farchnad ranbarthol o dan adran 144B o'r Ddeddf, ac yn unol â'r Cod Ymarfer ar Adroddiadau Sefydlogrwydd y Farchnad. Dylid eu cynnwys yn y broses o asesu digonolrwydd gofal a chymorth sy'n cysylltu'n ôl ag ystod a lefel y gwasanaethau a nodir yn yr asesiad o anghenion y boblogaeth, ac (fel y bo'n briodol) wrth asesu sefydlogrwydd y farchnad ar gyfer gwasanaethau rheoleiddiedig.

260. Mae'r Canllawiau Statudol ar Gynllun Ardal (Llywodraeth Cymru, 2017) hefyd yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol gynnwys pobl wrth baratoi'r cynlluniau ardal ar y cyd y mae awdurdodau lleol a byrddau iechyd yn eu cynhyrchu o dan adran 14A o'r Ddeddf.

261. Cynrychiolir dinasyddion hefyd ar y byrddau partneriaeth rhanbarthol. Mae aelodaeth o'r byrddau hyn yn cynnwys o leiaf un person i gynrychioli pobl sydd ag anghenion gofal a chymorth yn y rhanbarth, ac o leiaf un person i gynrychioli

gofalwyr yn y rhanbarth. Mae'r aelodau yn helpu i sicrhau bod gwerthoedd a dulliau cydgynhyrchiol yn rhan annatod o waith y byrddau. Mae rhagor o wybodaeth am rôl y byrddau partneriaeth rhanbarthol ar gael yn y Canllawiau Statudol Rhan 9 ar Weithio mewn Partneriaeth.

## Cynllunio a chyflenwi gwasanaethau

262. Mae cydgynhyrchu yn golygu defnyddio dull mwy agored o nodi cyfleoedd cyffredin, a threfniadau mwy hyblyg ar gyfer cynllunio, hyrwyddo a chyflenwi gwasanaethau. Bydd awdurdodau lleol yn defnyddio'r sylfaen dystiolaeth a ddarperir gan yr asesiad o anghenion y boblogaeth ac adroddiadau sefydlogrwydd y farchnad i wneud penderfyniadau gwybodus am y dulliau mwyaf priodol o ddatblygu’r farchnad ac o gaffael yn eu hardal leol. Bydd cydgynhyrchu yn sicrhau mwy o bwyslais ar ganlyniadau sy'n bwysig i bobl, yn ogystal â hyrwyddo'r cydbwysedd cywir o effeithlonrwydd adnoddau a budd cymunedol. Bydd hefyd yn helpu i sicrhau ffocws cliriach ar y gwasanaethau ataliol ac ymyrraeth gynnar sydd eisoes ar gael o fewn y gymuned, yn unol ag adran 15 o'r Ddeddf.

263. Mae cael hyn yn iawn yn hollbwysig i sicrhau newid mewn diwylliant, systemau ac arferion. Mae’r ffordd y caiff y newid hwn ei gynllunio, ei hyrwyddo a’i gyflenwi yr un mor bwysig â’r hyn sy’n cael ei wneud. Mae’r ffordd y mae pethau'n cael eu gwneud yn hollbwysig i sicrhau ansawdd yr hyn sy'n cael ei wneud.

264. Gall gofal a chymorth ddod o lawer o wahanol ffynonellau, er enghraifft, gan bobl sy’n defnyddio gwasanaethau eu hunain fel cyfranwyr gweithredol, ffrindiau, teuluoedd, cefnogwyr, gofalwyr, gwasanaethau a ddarperir gan y sector annibynnol neu’r trydydd sector, modelau busnes megis mentrau cymdeithasol, mentrau cydweithredol, trefniadau cydweithredol a gwasanaethau sy’n cael eu harwain gan ddefnyddwyr.

265. **Rhaid** i awdurdodau lleol sicrhau bod darparwyr y maent yn comisiynu neu'n caffael gwasanaethau ganddynt yn annog ac yn galluogi cynnwys pobl wrth ddylunio ffurf gwasanaethau a’r ffordd y byddant yn gweithredu i gyflawni canlyniadau personol, a sicrhau bod darparwyr yn cynnwys pobl wrth werthuso ac adolygu. **Rhaid** i awdurdodau lleol hefyd gynnwys pobl wrth ddylunio, cyflenwi, gwerthuso ac adolygu eu darpariaeth fewnol eu hunain.

266. Mae mentrau cymdeithasol, mentrau cydweithredol, gwasanaethau a arweinir gan ddefnyddwyr a sefydliadau trydydd sector yn rhai addas iawn i gymhwyso egwyddorion cydgynhyrchu gan eu bod yn aml yn sefydliadau democrataidd sydd ag aelodau; ond fe all ac fe ddylai pob darparwr, gan gynnwys y rhai yn y sector preifat, sicrhau eu bod yn cynnwys cydgynhyrchu wrth ddylunio a chyflenwi eu gwasanaethau. **Rhaid** i awdurdodau lleol weithio gyda darparwyr preifat i sicrhau bod hynny’n wir ar draws yr holl wasanaethau a gomisiynir.

267. **Rhaid** i awdurdodau lleol hefyd gryfhau’r modd y mae pobl sydd angen gofal a chymorth yn cael eu cynnwys yn y broses o lunio manylebau tendro, er mwyn sicrhau bod gwasanaethau'n briodol i anghenion dinasyddion, ac er mwyn helpu i sicrhau bod y gwasanaethau a ddarperir yn addas ac yn briodol yn unol ag

egwyddorion y Ddeddf. Dylent hefyd gyfeirio at yr egwyddorion a'r safonau a nodir yn y Cod Ymarfer ar Gomisiynu Gofal a Chymorth (sydd i ddod).

## Mesur Llwyddiant

268. Mae cydgynhyrchu yn gofyn am ddull newydd o fesur llwyddiant sy’n cynnwys casglu gwybodaeth ynghylch a yw cymorth yn cyflawni’r pethau sy’n bwysig i bobl. Mae angen i fesuriadau edrych ar lesiant ar lefel poblogaeth ac ar ganlyniadau personol unigolion, a gallu olrhain cynnydd dros amser. Crynhoir hyn yn y dull cyffredinol o ymdrin â chanlyniadau personol, yn y datganiad llesiant ac yn y fframwaith canlyniadau cenedlaethol. Bydd rôl Arolygiaeth Gofal Cymru yn hanfodol o ran mesur llwyddiant.

269. **Rhaid** i awdurdodau lleol weithio gyda phobl i nodi a monitro’r cynnydd y mae pobl yn ei wneud tuag at gyflawni a chynnal eu canlyniadau personol. Mae canolbwyntio ar ganlyniadau personol yn golygu y dylai awdurdodau lleol edrych y tu hwnt i ddarpariaeth gwasanaethau ffurfiol a gweithio gyda phobl a chymunedau i nodi a chynllunio ar gyfer cymorth a chyfleoedd a all helpu pobl i gyflawni'r hyn sy'n bwysig iddyn nhw. Mae hyn yn gofyn am bwyslais ar fodelau gwasanaeth newydd, arloesol, i gefnogi llesiant.

270. Mae'r Cod Ymarfer ar fesur perfformiad gwasanaethau cymdeithasol yn nodi fframwaith mesur perfformiad ar gyfer awdurdodau lleol o ran eu swyddogaethau gwasanaethau cymdeithasol. Mae hefyd yn manylu ar bwysigrwydd defnyddio gwybodaeth am ganlyniadau personol er mwyn deall perfformiad.

271. Bydd data ansoddol, fel y nodir yn y cod hwnnw, yn cynnwys holi pobl am eu profiad o wasanaethau cymdeithasol ac a yw hyn wedi cyfrannu at wella’u llesiant. Dylid deall y data hyn yng nghyd-destun perfformiad awdurdodau lleol i weld gwir effaith gwasanaethau ar fywydau pobl. Lle darperir gwasanaethau i blant a phobl ifanc, **rhaid** i awdurdodau lleol sicrhau cydbwysedd priodol rhwng cynnwys plentyn neu berson ifanc yn y broses o ddylunio a chyflenwi gwasanaeth drwy roi cyfle iddynt fynegi eu barn, eu dymuniadau a’u teimladau, gan sicrhau y gweithredir er lles pennaf y plentyn neu’r person ifanc.

## Adnoddau

272. Mae gwefan Rhwydwaith Cyd-gynhyrchu Cymru yn cynnwys llawer o adnoddau a dolenni defnyddiol ynglŷn â phob agwedd ar gydgynhyrchu: Rhwydwaith Cyd-gynhyrchu Cymru (copronet.wales)

273. Mae’r Safonau Cyfranogi Cenedlaethol ar gyfer Plant a Phobl Ifanc yn helpu sefydliadau i fesur a gwella ansawdd y broses o sicrhau bod plant a phobl ifanc yn cyfranogi. Mae’r safonau’n seiliedig ar egwyddorion craidd cyfranogiad, ac maent wedi’u cymeradwyo gan bobl ifanc. Mae'r saith safon yn gwneud yn siŵr bod plant a phobl ifanc yn rhan o'r broses o ddylunio, cyflenwi a gwerthuso gwasanaethau: https://www.llyw.cymru/safonau-cyfranogi-ar-gyfer-plant-phobl-ifanc-taflen-ffeithiau

274. Mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi canllaw arferion da i helpu i weithredu'r safonau cyfranogi. https://www.llyw.cymru/safonau-cyfranogi-ar-gyfer-plant-phobl-ifanc-canllaw-arferion-da

275. Mae’r pecyn cymorth Galluogi Cymru gan Anabledd Cymru yn nodi'r rhwystrau i gynnwys pobl a sut y gellir eu goresgyn. Dylai awdurdodau lleol a'u partneriaid ddefnyddio'r pecyn cymorth yn sail i sicrhau eu bod yn cynnwys pobl mewn modd ystyrlon. Mae'r pecyn yn disgrifio’r arferion sy’n analluogi y mae’n rhaid rhoi’r gorau iddynt, a’r arferion sy’n galluogi y mae angen eu mabwysiadu. Mae’n sôn hefyd am y cwestiynau y mae angen eu gofyn er mwyn cynnwys pobl sydd angen gofal a chymorth, cynyddu llais a rheolaeth a chymhwyso egwyddorion cydgynhyrchu. Gellir lawrlwytho'r pecyn cymorth yma: https://www.disabilitywales.org/?lang=cy

# 6. Gwybodaeth, Cyngor a Chynhorthwy

276. Mae’r bennod hon o’r Cod yn nodi'r dyletswyddau ar awdurdodau lleol o ran darparu gwasanaeth sy’n darparu’r canlynol i bobl (plant ac oedolion):

- gwybodaeth a chyngor yn ymwneud â gofal a chymorth, a chynhorthwy i gael mynediad at ofal a chymorth.

277. **Rhaid** i'r gwasanaeth gwybodaeth, cyngor a chynhorthwy gynnwys, fan leiaf, wybodaeth a chyngor wedi’u cyhoeddi ynghylch:

- sut y mae’r system gofal a chymorth yn gweithredu yn yr ardal awdurdod lleol;
- y mathau o ofal a chymorth sydd ar gael;
- sut i gael mynediad at y gofal a’r cymorth sydd ar gael;
- sut i godi pryderon ynglŷn â llesiant unigolion y mae’n ymddangos bod ganddynt anghenion gofal a chymorth.

278. **Rhaid** i fyrddau iechyd neu Ymddiriedolaeth GIG sy’n darparu gwasanaethau yn ardal yr awdurdod lleol, ddarparu gwybodaeth i’r awdurdod lleol hwnnw am y gofal a’r cymorth y mae’n eu darparu yn ardal yr awdurdod lleol. Bydd gan sefydliadau partner eraill, gan gynnwys sefydliadau’r sector annibynnol a’r trydydd sector, a dinasyddion Cymru, gan gynnwys y rhai mewn carchar, llety cadw ieuenctid a llety mechnïaeth, ddiddordeb yng nghynnwys y gofal a’r cymorth hynny a sut y maent yn cael eu cyflenwi.

## Y Gwasanaeth Gwybodaeth, Cyngor a Chynhorthwy

279. Mae’r gwasanaeth gwybodaeth, cyngor a chynhorthwy yn rhan annatod o lwyddiant y pontio i’r system gofal a chymorth o dan y Ddeddf. Mae’n gyfle i newid barn pobl am wasanaethau gofal a chymorth cymdeithasol yng Nghymru. **Rhaid** iddo hyrwyddo ymyrraeth gynnar ac atal i sicrhau bod pobl o bob oedran yn gallu cael gwell cymorth i gyflawni eu canlyniadau personol, ac i archwilio opsiynau ar gyfer diwallu eu hanghenion gofal a chymorth. Dylai gael ei ystyried yn wasanaeth ataliol ynddo’i hun drwy’r ddarpariaeth o wybodaeth, cyngor a chynhorthwy amserol o safon uchel.

280. Bydd y gwasanaeth gwybodaeth, cyngor a chynhorthwy yn seiliedig ar dystiolaeth, gan ddatblygu ei ystod a’i ffocws ar sail canfyddiadau’r asesiad o anghenion y boblogaeth y bydd yr awdurdod lleol yn ei gynnal yn gyfnodol, drwy ei drefniadau partneriaeth rhanbarthol (gweler pennod 2 ar Asesiad o Anghenion y Boblogaeth). Bydd yr asesiad o anghenion y boblogaeth yn defnyddio’r gwasanaeth gwybodaeth, cyngor a chynhorthwy i ddeall pa anghenion sydd gan bobl yn ei ardal a pha wybodaeth, cyngor a chynhorthwy y maent yn awyddus i’w cael.

281. Bydd y gwasanaeth gwybodaeth, cyngor a chynhorthwy (y gwasanaeth) yn hawdd ei ddefnyddio, yn groesawgar ac yn addysgiadol i greu gwasanaeth sy'n cyrraedd pobl cyn iddynt gyrraedd argyfwng, a bydd yn cynnig ymyrraeth gynnar ac atal.

## Gofynion Craidd y Gwasanaeth Gwybodaeth, Cyngor a Chynhorthwy

282. **Rhaid** i awdurdodau lleol ddarparu gwasanaeth gwybodaeth, cyngor a chynhorthwy sy'n cynnwys darparu:

a) ymateb cymesur i'r ymholiad, gan alluogi'r unigolyn i gael mynediad at wasanaethau ymyrraeth gynnar ac ataliol
b) gwybodaeth am ofal a chymorth, neu gymorth yn achos gofalwr, sy'n gywir a chyfredol, heb yr angen i ddata craidd gael ei gofnodi yn yr Offeryn Asesu a Chymhwysedd Cenedlaethol a heb i asesiad fod wedi'i gynnal
c) cyngor ar ofal a chymorth, neu gymorth yn achos gofalwr, sy'n briodol i'r unigolyn, yn dilyn asesiad cymesur
d) cyngor sy'n gynhwysfawr, yn ddiduedd ac er lles pennaf yr unigolyn, gan staff sydd wedi'u hyfforddi ac sy'n fedrus yn y broses asesu
e) cynhorthwy sy'n galluogi'r unigolyn i gael mynediad at y gwasanaethau gofal a chymorth priodol, gan gynnwys gwasanaethau ymyrraeth gynnar ac atal
f) gwybodaeth, cyngor a chynhorthwy hygyrch ar ofal a chymorth drwy amrywiaeth o gyfryngau (gan gynnwys ar-lein, cyfryngau cymdeithasol, ffôn, wyneb yn wyneb, allgymorth, posteri a chyhoeddiadau)
g) gwybodaeth, cyngor a chynhorthwy hygyrch ar faterion gofal a chymorth sydd wedi'u teilwra i ddiwallu anghenion gwahanol grwpiau (gan gynnwys siaradwyr Cymraeg, deunyddiau hawdd eu darllen, addas i blant ac ati)
h) gwybodaeth, cyngor a chynhorthwy hygyrch i grwpiau penodol, gan gynnwys gweithwyr cymorth un-i-un os bydd angen, er enghraifft, plant ac oedolion byddar a dall
i) ymateb ysgrifenedig neu lafar i ymholiadau ar y we o fewn tri diwrnod gwaith
j) cymorth eiriolaeth, fel y gall unigolion ymgysylltu a chyfrannu'n llawn at benderfyniadau sy'n effeithio arnynt
k) protocolau diogelu lleol sy'n sicrhau bod camau'n cael eu cymryd yn syth os bydd pryderon ynglŷn â diogelwch unigolyn
l) proses glir i staff ei dilyn yn achos argyfwng neu gais am ofal a chymorth brys
m) mecanweithiau sy'n sicrhau caniatâd i rannu gwybodaeth pan fo data craidd yn cael eu cofnodi a phan fo asesiad yn cael ei gynnal.

Diffiniadau

| **Gwybodaeth:** |
|---|
| Ystyr gwybodaeth yw data o ansawdd sy'n darparu cymorth i berson i'w helpu i wneud dewis gwybodus ynglŷn â'i lesiant. Bydd hyn yn cynnwys gwybodaeth am sut y mae'r system ofal yn gweithio, y gwasanaethau llesiant ataliol sydd ar |

gael, gwybodaeth ariannol, gwybodaeth am daliadau uniongyrchol, gwybodaeth am ffioedd a materion eraill a fyddai'n galluogi rhywun i gynllunio sut i ddiwallu ei anghenion gofal a chymorth, neu anghenion cymorth yn achos gofalwr.

Dylai'r rhai sy'n gweithredu'r gwasanaeth gipio gwybodaeth am natur yr ymholiad a pha fath o wasanaeth y cafodd yr ymholwr ei gyfeirio neu ei atgyfeirio ato, at eu dibenion gwybodaeth reoli eu hunain ac i gyfrannu at asesiadau o anghenion y boblogaeth. **Nid oes angen data personol**. Fel hyn, gallai'r person sy'n cael mynediad at y gwasanaeth er mwyn cael gwybodaeth aros yn ddienw at ddibenion cofnodi.

**Cyngor:**

Ystyr cyngor yw ffordd o gydweithredu â pherson i archwilio'r opsiynau sydd ar gael. Bydd hyn yn golygu ei bod yn ofynnol i staff gynnal asesiad cymesur drwy drafod a dadansoddi pum elfen yr Offeryn Asesu a Chymhwysedd Cenedlaethol. Mae'n hanfodol bod yr ymholwr yn deall beth sydd ar gael iddo a'i fod yn cael ei gynnwys yn weithredol yn y broses o wneud penderfyniadau ynglŷn â'r hyn sy'n bwysig iddo a'r canlyniadau personol y mae am eu cyflawni.

Wrth ddarparu cyngor, bydd yn ofynnol i'r darparwr gwasanaethau ddefnyddio'r Offeryn Asesu a Chymhwysedd Cenedlaethol i gofnodi'r asesiad. Dylai staff gofnodi cymaint o'r data personol sylfaenol ar gyfer y Set Ddata Graidd ag sy'n briodol i'r asesiad hwnnw, a chofnodi'r cyngor a roddir a chanlyniad yr ymholiad.

**Cynhorthwy:**

Os bydd angen, darperir cynhorthwy ar ôl darparu gwybodaeth a chyngor. Bydd cynhorthwy yn golygu person arall yn cymryd camau gyda'r ymholwr i gael mynediad at ofal a chymorth, neu ofalwr yn cael mynediad at gymorth.

Mae'r cyfrifoldeb dros y gweithgarwch a gynhelir yn cael ei rannu rhwng y cynorthwyydd a'r sawl sy'n derbyn y cynhorthwy. Wrth ddarparu cynhorthwy, bydd angen asesiad hefyd a bydd yn ofynnol i'r gwasanaeth gofnodi unrhyw ddata personol ychwanegol ar gyfer y set ddata graidd a manylion y cynhorthwy a gynigir ac a dderbynnir ar yr Offeryn Asesu a Chymhwysedd Cenedlaethol. Drwy'r broses o gynnig cynhorthwy, cynhelir asesiad cymesur.

283. Bydd y gwasanaeth yn cynnig pwynt cyswllt cyntaf â'r system gofal a chymorth ac, i lawer o bobl, dyma fydd eu cysylltiad cyntaf â gwasanaethau cymdeithasol. **Rhaid** i'r rhai sy'n gweithredu'r gwasanaeth wneud hwn yn ymateb cadarnhaol. **Rhaid** i'r ymateb fod yn addysgiadol a gwybodus gan dawelu meddwl yr unigolyn fod y cyngor a roddir er ei les pennaf.

284. Bydd ffyrdd eraill y bydd pobl yn ceisio cael help, ond **rhaid** mai'r gwasanaeth yw'r ffordd fwyaf cyhoeddus y mae unigolion, neu'r rhai sy'n gofalu amdanynt, yn cael gwybodaeth a chyngor ar eu hanghenion gofal a chymorth.

## Sut beth fydd y gwasanaeth i'r rhai sy'n ei dderbyn?

285. I'r rhai sy'n defnyddio'r gwasanaeth, **rhaid** iddynt deimlo eu bod wedi dod o hyd i rywun sy'n gwrando arnynt. **Rhaid** i bobl gael cyfle i esbonio'r hyn sy'n bwysig iddynt, i archwilio pa opsiynau sydd ar gael ac i ddod o hyd i'r help sy'n briodol iddynt i'w helpu i gyflawni eu canlyniadau personol.

286. Bydd y gwasanaeth yn canolbwyntio ar bobl a'u canlyniadau personol, yn enwedig ymyrraeth gynnar ac atal. Bydd yn darparu gwybodaeth a chyngor sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn, gan atgyfeirio at wasanaeth llesiant ac atal priodol yn y gymuned a darparu cynhorthwy, lle y bo'n briodol, i alluogi pobl i'w helpu eu hunain ac eraill yn well.

287. Mae'r model cymdeithasol o anabledd yn bwynt cyfeirio defnyddiol i awdurdodau lleol sy'n dylunio ac yn datblygu eu gwasanaeth gwybodaeth, cyngor a chynhorthwy.

288. Bydd cyfeirio ac atgyfeirio yn rhoi dewis i unigolion ynglŷn â'r cymorth a'r gwasanaethau sydd ar gael yn eu hardal, a chyfle i drafod yr opsiynau a chael cyngor ar y ffordd sy'n fwyaf tebygol o ddiwallu anghenion gofal a chymorth penodol yr unigolyn, yn ogystal â thrafod pa adnoddau sydd ar gael i'r unigolyn i'w helpu i sicrhau'r cymorth hwn. Mae'r gwasanaeth ar gael i bawb, beth bynnag fo'i amgylchiadau, gan gynnwys os bydd yn dewis ariannu ei ofal ei hun.

289. Dylai'r gwasanaeth gael ei ystyried yn wasanaeth ataliol sy'n cynnig ymyrraeth gynnar drwyr wybodaeth, cyngor a chynhorthwy o ansawdd. Fodd bynnag, **rhaid** iddo weithredu hefyd fel cyswllt canolog i wasanaethau ataliol sydd ar gael yn y gymuned a hyrwyddo'r cyfle i gael mynediad at y gwasanaethau hyn. Bydd y rhain yn amrywio o wasanaethau cyffredinol i gymorth mwy penodol. Pan fo'n briodol, **rhaid** i'r gwasanaeth helpu pobl i gael mynediad at y gwasanaethau hyn, gan eu hatgyfeirio neu eu helpu i gysylltu, yn hytrach na chynnig cyswllt sylfaenol yn unig.

290. **Rhaid** i'r dull fod yn agored, yn groesawgar ac yn syml – ceisio helpu pawb i ddod o hyd i ffyrdd o ddiwallu eu hanghenion gofal a chymorth, beth bynnag yw lefel yr anghenion hynny.

291. **Rhaid** i'r dull fod yn rhagweithiol – grymuso staff annog pobl i gael help yn gynharach a'u cefnogi i helpu eu hunain i gadw eu hannibyniaeth mewn ffordd gymesur.

292. **Rhaid** i'r gwasanaeth sicrhau bod staff yn ymateb mewn ffordd gymesur a phrydlon os bydd unrhyw faterion neu bryderon diogelu neu amddiffyn yn codi.

**Rhaid** i'r gwasanaeth sicrhau bod protocol diogelu ar waith a **rhaid** i staff gael eu hyfforddi'n llawn i weithredu'r protocol hwnnw.

## Sut y bydd asesiad yn gweithredu o fewn y gwasanaeth gwybodaeth, cyngor a chynhorthwy?

293. Efallai y bydd ar unigolyn angen mynediad cyflym at asesiad o'i anghenion gofal a chymorth. Bydd angen i staff y gwasanaeth ddeall sut i nodi pan fo angen asesiad, bod yn ddigon cymwys a medrus i gynnal yr asesiad hwnnw a sicrhau bod modd ei gynnal yn gyflym.

294. Bydd yr asesiad yn amrywio o unigolyn i unigolyn o ran yr hyn sy'n ofynnol. **Rhaid** i staff y gwasanaeth gydnabod natur a maint yr ymholiad a cheisio darparu ymateb cymesur. Dim ond y gwaith o ddarparu gwybodaeth sydd ddim yn gofyn am ryw fath o asesiad. Os rhoddir cyngor a/neu gynhorthwy, bydd asesiad o anghenion person wedi'i gynnal.

295. **Rhaid** i'r cydbwysedd rhwng unigolyn yn cael atebion i'w holl bryderon y tro cyntaf y bydd yn cysylltu â'r gwasanaeth gwybodaeth, cyngor a chynhorthwy, ac wedyn yn cael ei atgyfeirio at bobl eraill sydd â gwybodaeth neu arbenigedd mwy priodol, fod yn un pragmataidd.

296. **Rhaid** i bobl deimlo eu bod wedi cael gwasanaeth teg a phriodol. Yn bwysicaf oll, **rhaid** iddynt wybod beth yw canlyniad eu cyswllt a pha gamau, os o gwbl, fydd yn cael eu cymryd a chan bwy.

297. Bydd staff sy'n gweithio yn y gwasanaeth yn cynnal asesiadau. Bydd staff wedi cynnal asesiad wrth iddynt archwilio pum elfen yr Offeryn Asesu a Chymhwysedd Cenedlaethol gyda'r unigolyn a nodir yn y cod ymarfer ar Ran 3 o'r Ddeddf. **Rhaid** i staff sy'n cynnal asesiadau ddefnyddio'r Offeryn Asesu a Chymhwysedd Cenedlaethol, waeth pa mor gymesur yw'r dull hwnnw. Mae manylion am ofynion yr offeryn wedi'u cynnwys yn y cod ymarfer ar Ran 3.

## Hygyrchedd i bawb

298. **Rhaid** i'r gwasanaeth fod yn hygyrch i bawb mewn sawl ffordd fel y gall pobl ddewis sut y byddant yn defnyddio'r gwasanaeth a pha fformat sy'n addas iddynt. **Rhaid** i'r awdurdod lleol sicrhau y bydd y gwasanaeth yn cynnig cymorth ac arweiniad i bobl a gweithwyr proffesiynol drwy amrywiaeth o gyfryngau e.e. y we, ffôn, wyneb yn wyneb, allgymorth, rhwydweithiau cymdeithasol, cyhoeddiadau.

299. Mae cydrannau strwythurol y gwasanaeth yn gallu amrywio. Pa bynnag fodel a fabwysiedir, **rhaid** i awdurdodau lleol sicrhau bod y gwasanaeth y byddant yn ei roi ar waith yn cael ei gynllunio a'i gyflenwi yn seiliedig ar yr asesiad o anghenion y boblogaeth a'i fod yn hygyrch i bawb, beth bynnag fo'u hoedran, eu hanabledd neu eu hangen.

300. **Rhaid** i awdurdodau lleol geisio sicrhau bod gwybodaeth, cyngor a chynhorthwy yn cael eu cynnig mewn modd sy'n hygyrch ac yn diwallu anghenion eu poblogaeth. Mae Deddf Cydraddoldeb 2010 yn ei gwneud yn ofynnol i addasiadau rhesymol gael eu gwneud i sicrhau bod pobl yn cael mynediad cyfartal at wasanaethau gwybodaeth, cyngor a chynhorthwy. **Rhaid** i awdurdodau lleol sicrhau hefyd fod pobl yn cael y cymorth priodol i'w galluogi i gael mynediad at y gwasanaeth.

301. **Rhaid** i'r gwasanaeth fod ar gael yn Gymraeg a Saesneg – dim ond drwy gyfrwng y Gymraeg y mae llawer o siaradwyr Cymraeg yn gallu cyfleu eu hanghenion gofal yn effeithiol. I lawer o siaradwyr Cymraeg, mae defnyddio'r Gymraeg yn ofyniad, yn hytrach nag yn ychwanegiad dewisol. **Rhaid** i'r gwasanaeth ystyried yr angen i fod yn hygyrch i bawb, a **rhaid** iddo gydymffurfio â'r egwyddorion a amlinellir yn *Mwy na geiriau*, fframwaith strategol Llywodraeth Cymru ar gyfer gwasanaethau Cymraeg mewn gwasanaethau iechyd, gwasanaethau cymdeithasol a gofal cymdeithasol.

302. **Rhaid** i'r awdurdod lleol sicrhau bod gwybodaeth a chyngor yn hygyrch mewn amrywiaeth o fformatau, gan gynnwys fersiynau hawdd eu darllen a deunydd arbennig ar gyfer plant a phobl ifanc ac eraill sydd angen cymorth ychwanegol.

303. **Rhaid** i awdurdodau lleol hyrwyddo a rhoi cyhoeddusrwydd i'r gwasanaeth gwybodaeth, cyngor a chynhorthwy ledled yr ardal. **Rhaid** i'r gwasanaeth gael ei hysbysebu yn y fath fodd fel y bydd pobl ar draws yr holl gymunedau amrywiol yn gwybod beth y gall y gwasanaeth ei gynnig ac yn deall sut y gallant gael mynediad ato.

304. **Rhaid** i bobl ei chael yn hawdd cael mynediad at y gwasanaeth, a chael eu trin ag urddas a pharch bob amser gan staff sydd wedi'u hyfforddi'n dda i gyflenwi'r gwasanaeth. Mae hyn yn arbennig o berthnasol i blant a phobl ifanc a fydd angen teimlo'n hyderus bod y gwasanaeth hwn yn darparu gwybodaeth a chyngor perthnasol, cywir a chyfredol iddynt a'i fod yn hygyrch yn y ffyrdd y maent am eu defnyddio.

305. Ym mhob achos, dylai awdurdodau lleol gynnwys oedolion, plant a phobl ifanc yn y broses o ddylunio a gweithredu'r gwasanaeth gwybodaeth, cyngor a chynhorthwy yn eu hardal leol. Fel hyn, bydd y gwasanaeth yn eiddo i'r boblogaeth leol ac yn cael ei werthfawrogi ganddi.

306. Mae'n hanfodol bod pob unigolyn, waeth beth yw ei anghenion hygyrchedd, yn deall beth sydd ar gael iddo ac yn cael ei gynnwys yn weithredol yn y broses o wneud penderfyniadau ynglŷn â'r hyn sy'n bwysig iddo a sut i gyflawni ei ganlyniadau personol. Gallai addasiadau rhesymol gynnwys darparu gwybodaeth a chyngor mewn fformatau hygyrch a/neu gyda chymorth cyfathrebu i sicrhau nad yw unrhyw un sy'n wynebu heriau yn cael ei allgáu.

307. **Rhaid** i awdurdodau lleol ddarparu gwybodaeth, cyngor a chynhorthwy i blant ac oedolion mewn fformatau a chyfryngau sy'n hygyrch iddynt, gan ystyried, er enghraifft, anghenion pobl ag amhariadau ar y synhwyrau (gan gynnwys

byddardod / dallineb), pobl ag anableddau dysgu, a phobl niwrowahanol. **Rhaid** i awdurdodau lleol hefyd sicrhau bod ganddynt fynediad at weithwyr cymorth un-i-un hyfforddedig, yn ôl yr angen.

## Eiriolaeth

308. **Rhaid** i unigolyn deimlo ei fod yn bartner cyfartal yn ei berthynas â gweithwyr proffesiynol. Gall unrhyw unigolyn wahodd rhywun o'i ddewis i'w helpu i gyfrannu'n llawn a mynegi ei farn, ei ddymuniadau a'i deimladau. Gall y cymorth hwn gael ei ddarparu gan ffrindiau, teulu neu rwydwaith cymorth ehangach rhywun.

309. Mae'n hollbwysig sicrhau bod pawb yn gallu cyfrannu'n llawn at brosesau sy'n effeithio ar eu bywydau. Bydd angen cymorth ar rai er mwyn gwneud y cysylltiad cychwynnol. **Rhaid** i awdurdodau lleol ystyried y ffordd orau o gefnogi unigolion yn hyn o beth i sicrhau bod y gwasanaeth yn hygyrch ac yn cynnig cynhorthwy priodol, gan gynnwys eiriolaeth.

310. Un o rolau allweddol y gwasanaeth fydd darparu gwybodaeth i unigolion am yr amrywiaeth o wasanaethau eiriolaeth yn eu hardal a'u helpu i gael mynediad atynt.

311. **Rhaid** i anghenion unigolyn am eiriolaeth gael eu nodi adeg y cyswllt cyntaf. **Rhaid** i awdurdodau lleol sicrhau bod staff y gwasanaeth yn ddigon medrus i allu nodi unigolion sydd angen eiriolwr a bod y gwasanaeth yn cymryd camau i sicrhau bod yr unigolion hynny yn cael eu cefnogi.

312. Mae'r cod ymarfer penodedig ar eiriolaeth o dan Ran 10 o'r Ddeddf yn amlinellu'r swyddogaethau pan fydd **rhaid** i awdurdod lleol, mewn partneriaeth â'r unigolyn, benderfynu sut y gallai eiriolaeth gefnogi'r gwaith o bennu a chyflawni canlyniadau personol unigolyn; ynghyd â'r amgylchiadau pan fydd **rhaid** i awdurdod lleol drefnu eiriolwr proffesiynol annibynnol. **Rhaid** i weithwyr proffesiynol ac unigolion sicrhau bod penderfyniadau ynglŷn â'r anghenion am eiriolaeth yn rhan annatod o'r dyletswyddau perthnasol o dan y Cod hwn.

## Diogelu

313. Os yw'n ymddangos bod anghenion yr unigolyn yn golygu bod dyletswydd ar yr awdurdod lleol i gyflawni ei swyddogaeth er mwyn amddiffyn a diogelu'r person rhag cael ei gam-drin neu ei esgeuluso neu wynebu risg o gael ei gam-drin neu ei esgeuluso (ac, yn achos plentyn: niwed neu'r risg o niwed), **rhaid** i'r awdurdod lleol weithredu ar yr wybodaeth hon yn syth ac yn ddi-oed. **Rhaid** i awdurdodau lleol bennu a yw anghenion yr unigolyn yn gofyn am gyflawni unrhyw swyddogaeth sydd ganddo o dan Ran 4 (Gofal a Goruchwyliaeth) neu Ran 5 (Amddiffyn Plant) o Ddeddf Plant 1989 neu o dan y Ddeddf hon ac, os felly, dylai'r awdurdod lleol weithredu ar hyn yn syth ac yn ddi-oed.

314. Felly, **rhaid** i awdurdodau lleol adlewyrchu'r dyletswyddau hyn a'r dyletswyddau cyfochrog i adrodd amheuon bod oedolyn neu blentyn yn wynebu risg wrth

ddylunio a datblygu'r gwasanaeth gwybodaeth, cyngor a chynhorthwy i sicrhau bod staff yn deall ac yn gweithredu'r protocol diogelu.

## Codi Ffioedd am Gynhorthwy

315. Yn unol â Rhan 5 o'r Ddeddf, Codi Ffioedd ac Asesiadau Ariannol, caiff awdurdodau lleol godi ffi cyfradd safonol am gynhorthwy. Bydd y ffioedd hyn yn mynd tuag at dalu costau darparu'r cynhorthwy. Dylai awdurdodau lleol osgoi sefyllfa lle mae'r ffi cyfradd safonol y maent yn ei gosod yn atal pobl rhag derbyn cynhorthwy, gan gyfyngu ar allu'r awdurdod lleol i gyflawni dibenion y gwasanaeth gwybodaeth, cyngor a chynhorthwy o dan adran 17 o'r Ddeddf.

316. **Ni chaiff** awdurdodau lleol godi ffioedd am gynhorthwy a ddarperir i blant.

## Beth sydd ar gael a sut i gael gafael arno

317. **Rhaid** i'r gwasanaeth ddarparu mynediad at wybodaeth, cyngor a chynhorthwy perthnasol, priodol ac amserol o safon uchel, a rhaid iddo ddarparu pwynt mynediad rhwydd i bobl leol i'r system gofal a chymorth.

318. Bydd hyn yn ymwneud â ffyrdd y gall pobl ddiwallu eu hanghenion gofal a chymorth, neu anghenion gofal a chymorth pobl eraill y maent yn gofalu amdanynt, nawr ac yn y dyfodol. **Rhaid** i'r gwasanaeth ddarparu gwybodaeth a chyngor ar sut i godi pryderon ynglŷn â llesiant person arall y mae'n ymddangos bod ganddo anghenion gofal a chymorth.

319. **Rhaid** i'r gwasanaeth ddarparu gwybodaeth am y gwasanaethau llesiant ataliol sydd ar gael yn y gymuned, **a** chyngor ar yr hyn a fyddai fwyaf priodol i bobl a'u hamgylchiadau personol. **Rhaid** i'r gwasanaeth sicrhau bod pobl yn cydnabod eu bod wedi derbyn cyngor diduedd er eu lles pennaf. Bydd y gwasanaeth yn darparu cynhorthwyi'r rhai sydd ei angen, i'w helpu i gael mynediad at yr wybodaeth a'r cyngor. Mae rhagor o wybodaeth am wasanaethau ataliol ar gael ym mhennod 3 o'r Cod hwn.

320. Mae'r gwasanaeth yn adnodd sydd ar gael i ymarferwyr, waeth a ydynt yn gweithio i'r awdurdod lleol neu i sefydliad / asiantaeth arall. Bydd angen i staff sy'n gweithredu'r gwasanaeth gydnabod anghenion ymarferwyr eraill a sicrhau bod yr wybodaeth a'r cyngor ar gael mewn fformat sy'n addas i'w hanghenion wrth iddynt geisio helpu'r rhai y maent yn eu cynorthwyo.

321. Os oes gan unigolyn fodd ariannol uwchlaw'r terfyn ariannol (fel yr amlinellir mewn Rheoliadau a wnaed o dan adran 69 o'r Ddeddf), sef yr hyn a elwir yn hunangyllido, dylai'r awdurdod lleol sicrhau ei fod yn gallu cael mynediad at wybodaeth, cyngor a chynhorthwy o safon uchel sy'n ei alluogi i wneud penderfyniadau gwybodus ynglŷn â'i anghenion gofal a chymorth. Mae hyn yn arbennig o berthnasol i bobl sy'n gwneud penderfyniadau hollbwysig ynglŷn â'u gallu i fyw'n annibynnol.

322. Dylai'r gwasanaeth wneud cysylltiadau â'i bartneriaid ehangach i sicrhau eu bod yn gyfarwydd â sut y mae'r system yn gweithio ac yn gallu adrodd ar faterion a chodi pryderon e.e. y gwasanaeth tân sy'n dod i gysylltiad ag unigolion a theuluoedd yn ystod eu gwaith ataliol e.e. archwiliadau diogelwch tân.

323. **Rhaid** i'r gwasanaeth ddarparu gwybodaeth am daliadau uniongyrchol, ffioedd am ofal a chymorth a gwybodaeth a chyngor arall ar faterion a fyddai'n galluogi pobl i gynllunio sut i ddiwallu eu hanghenion gofal a chymorth eu hunain, neu anghenion cymorth gofalwyr a allai godi. Mae rhagor o wybodaeth am daliadau uniongyrchol ar gael yng Nghod Ymarfer Rhan 4 (Diwallu Anghenion) ac mae gwybodaeth am godi ffioedd ar gael yng Nghod Ymarfer Rhan 5 (Codi Ffioedd ac Asesiadau Ariannol).

324. **Rhaid** i'r gwasanaeth gael ei ddarparu i'r rhai sydd yn yr ystad ddiogel – er efallai y bydd y ffordd y cyflenwir y gwasanaeth hwn yn amodol ar ofynion penodol y system cyfiawnder troseddol. Mae rhagor o wybodaeth am y dyletswyddau tuag at y rhai sydd yn yr ystad ddiogel ar gael yng Nghod Ymarfer Rhan 11.

## <u>Mesur Perfformiad</u>

325. Bydd y gwasanaeth gwybodaeth, cyngor a chynhorthwy yn helpu pobl i gael mynediad at yr wybodaeth iawn, pan fyddant ei hangen ac yn y ffordd y dymunant. Bydd pobl yn disgwyl gwybod a deall pa ofal, cymorth a chyfleoedd sydd ar gael iddynt ac yn gallu defnyddio'r wybodaeth, y cyngor a'r cynhorthwy hwn i'w helpu i reoli a sicrhau eu llesiant.

326. **Rhaid** i effeithiolrwydd y gwasanaeth hwn gael ei fesur a'i adrodd. Mae manylion fframwaith mesur perfformiad ar gyfer awdurdodau lleol ar gael yn y cod ymarfer ar fesur perfformiad gwasanaethau. Mae'r fframwaith hwn yn cynnwys:

- safonau ansawdd ar gyfer awdurdodau lleol sy'n disgrifio gweithgareddau awdurdodau lleol sy'n cyfrannu at gyflawni canlyniadau personol, mewn perthynas â'u swyddogaethau gwasanaethau cymdeithasol
- mesurau perfformiad a nodir mewn perthynas â chyflawni'r safonau ansawdd.

327. Mae Safon 1 yn cynnwys gofynion mewn perthynas â'r gwasanaeth gwybodaeth, cyngor a chynhorthwy.

328. Mae Safon 1 yn nodi:

*__Rhaid__ i awdurdodau lleol weithio gyda phobl sydd angen gofal a chymorth a gofalwyr sydd angen cymorth i ddiffinio a chydgynhyrchu'r canlyniadau personol y mae pobl am eu cyflawni, a byddant yn sicrhau eu bod yn mesur effaith y gofal a'r cymorth a ddarperir ar fywydau pobl, yn ogystal â chyflawni canlyniadau personol.*

329. Er mwyn cyflawni Safon 1 mewn perthynas â'r gwasanaeth, **rhaid** i awdurdodau lleol wneud y canlynol:

- gweithio gyda phobl fel partneriaid i atal yr angen am ofal a chymorth, a chyda phartneriaid eraill i drefnu gwasanaethau mewn ffordd sy'n atal neu'n gohirio angen pobl am ofal a chymorth
- gweithio gyda phartneriaid i sicrhau mynediad at wybodaeth, cyngor a chynhorthwy clir a dealladwy i helpu pobl i reoli eu llesiant a gwneud penderfyniadau gwybodus
- sicrhau bod y penderfyniadau a wneir yn ystyried amgylchiadau personol person, yn trin pobl ag urddas a pharch ac yn hyrwyddo hawliau dynol pobl
- gweithio gyda gweithwyr proffesiynol eraill, gan gynnwys darparwyr, i hwyluso ac arwain cynllun amlddisgyblaethol ar gyfer gofal a chymorth.

330. Defnyddir mesurau ansoddol (cael adborth gan y rhai sy'n defnyddio'r gwasanaeth) a meintiol i fesur cyflawniad o ran y safonau ansawdd, ac mae'r rhain wedi'u rhestru yn y cod ar fesur perfformiad gwasanaethau cymdeithasol, a ddyroddwyd o dan adran 145 o'r Ddeddf.

## Cofnodi Gwybodaeth

331. **Rhaid** i awdurdodau lleol gofnodi data o'u gwasanaeth at y dibenion canlynol:

**Monitro Perfformiad**

Mae cofnodi gwybodaeth yn bwysig er mwyn cefnogi perfformiad y gwasanaeth a gwella'r gwasanaeth. Gellir dadansoddi'r cofnodion o'r dulliau cyfnewid gwybodaeth (galwadau a blogiau) er mwyn sicrhau gwell dealltwriaeth o natur yr ymholiad a phroffiliau cwsmeriaid. Bydd data rheoli hefyd yn helpu i archwilio ac arolygu'r gwasanaeth ac, at y diben hwn, dylai awdurdodau lleol ystyried cael adborth gan ddefnyddwyr gwasanaethau a gofalwyr.

**Cynllunio Gwasanaethau**

Mae'n bwysig bod awdurdodau lleol yn cofnodi gwybodaeth am natur ymholiadau ac ymatebion, yn ogystal â'r math o wybodaeth a chyngor a gynigir gan eu gwasanaeth i gefnogi'r asesiad o anghenion y boblogaeth a chynllunio gwasanaethau llesiant ataliol (gweler pennod 2 o'r Cod hwn).

**Gwella'r Gwasanaeth**

Cofnodi data personol pan ddarperir cyngor a chynhorthwy fel na fydd rhaid i unigolyn ailadrodd yr un wybodaeth os bydd yn defnyddio'r un gwasanaeth eto neu'n parhau drwy'r system gofal a chymorth. Bydd hyn yn gwneud y system yn fwy effeithlon hefyd.

## Gwybodaeth Bersonol

332. Pan gynigir gwybodaeth, **rhaid** gwneud cofnod o'r ymholiad, ond nid oes angen i ddata personol gael eu casglu / cofnodi.

333. Pan gynigir cyngor, **rhaid** i'r asesydd gofnodi cymaint o ddata personol â phosibl yn y set ddata graidd a chofnodi natur a chanlyniad yr ymholiad. **Rhaid** i'r gwaith cofnodi gael ei wneud gan ddefnyddio'r Offeryn Asesu a Chymhwysedd Cenedlaethol, ond mewn ffordd sy'n gymesur â'r ymholiad. Dim ond os ystyrir bod anghenion unigolyn yn gymwys a bod angen cynllun gofal a chymorth, neu gynllun cymorth yn achos gofalwr, y bydd gofyn bodloni'r rhwymedigaeth i gwblhau'r set ddata graidd yn ei chyfanrwydd.

334. Bydd defnyddio'r Offeryn Asesu a Chymhwysedd Cenedlaethol i gofnodi data personol yn galluogi staff i nodi'n gyflym a oes gan yr ymholwr gynllun gofal a chymorth ar waith neu a yw wedi derbyn gwybodaeth, cyngor neu gynhorthwy yn flaenorol. Yn ogystal, bydd yn galluogi i unrhyw ymholiadau eraill ynglŷn â'r un person yn y dyfodol gael eu prosesu'n gyflym, ac yn osgoi ailadrodd gwybodaeth bersonol ym mhob pwynt cyswllt.

335. **Rhaid** i staff sy'n gweithredu'r gwasanaeth fod yn hyfforddedig a chymwys i gynnal asesiadau a deall yr Offeryn Asesu a Chymhwysedd Cenedlaethol fel y gall ymholiad gael ei brosesu'n gyflym.

336. Mae rhagor o fanylion am yr Offeryn Asesu a Chymhwysedd Cenedlaethol ar gael yng nghod ymarfer Rhan 3 o'r Ddeddf (ar asesu anghenion unigolion) a chod ymarfer Rhan 4 o'r Ddeddf ar ddiwallu anghenion.

337. Pan fo gwybodaeth bersonol yn cael ei chipio yn y set ddata graidd o fewn yr Offeryn Asesu a Chymhwysedd Cenedlaethol, **rhaid** cael caniatâd yr unigolyn i rannu ei wybodaeth â phartneriaid perthnasol.

338. **Rhaid** i awdurdodau lleol weithio mewn partneriaeth â phartneriaid y GIG i sicrhau bod unrhyw wybodaeth y gellir ei defnyddio i adnabod unigolyn yn cael ei rhannu o fewn egwyddorion Cytundeb Rhannu Gwybodaeth Bersonol Cymru (WASPI). Mae pob bwrdd iechyd, Ymddiriedolaeth y GIG ac awdurdod lleol yng Nghymru wedi llofnodi'r protocol hwn.

## Trefniadau Llywodraethu

## Gwaith partneriaeth rhanbarthol

339. Dylai'r gwasanaeth gwybodaeth, cyngor a chynhorthwy gynnig ymagwedd iechyd a gofal cymdeithasol integredig. **Rhaid** i'r gwasanaeth gyfeirio neu atgyfeirio unigolion yn effeithlon i sicrhau eu bod yn derbyn yr ymateb cywir i gyflawni eu canlyniadau personol.

340. Mae gan y byrddau partneriaeth rhanbarthol rôl allweddol i'w chwarae o ran dod â phartneriaid iechyd a gofal cymdeithasol ynghyd i bennu sut y bydd darpariaeth

integredig gwasanaethau, gofal a chymorth o fudd i bobl o fewn eu rhanbarth. Bydd angen i fyrddau partneriaeth rhanbarthol sicrhau bod gwybodaeth, cyngor a chynhorthwy yn cael eu cynnig ar draws y rhanbarth mewn ffordd hygyrch sy'n diwallu anghenion eu poblogaeth. Dylai awdurdodau lleol arwain y gwaith o gytuno, gyda phartneriaid rhanbarthol, pa elfennau o'r gwasanaeth y dylid eu datblygu ar lefel leol, ranbarthol a chenedlaethol.

341. **Rhaid** i bob awdurdod lleol gymryd arweiniad gan y bwrdd partneriaeth rhanbarthol ynghylch sut i ddylunio, cynllunio a datblygu'r model ar gyfer y gwasanaeth gwybodaeth, cyngor a chynhorthwy a fydd yn sicrhau bod pobl yn ei chael yn hawdd cael mynediad at wybodaeth hyd yn oed os ydynt am gael gwybodaeth a/neu gyngor ar ofal a chymorth mewn rhan arall o Gymru. Bydd hyn yn uniongyrchol berthnasol i'r rhai sy'n byw ar y ffin rhwng dau awdurdod lleol ac i unigolion sy'n cysylltu â'r gwasanaeth ar ran rhywun arall sy'n byw mewn ardal wahanol.

342. **Dylai** awdurdodau lleol sy'n gweithio mewn partneriaeth drwy'r bwrdd partneriaeth rhanbarthol gynhyrchu strategaeth gyfathrebu i hyrwyddo eu gwasanaeth gwybodaeth, cyngor a chynhorthwy. Dylai awdurdodau lleol arwain y broses, ond dylent ddatblygu'r strategaeth gyfathrebu ar y cyd â phartneriaid. Dylai'r strategaeth ystyried y gwahanol gynulleidfaoedd targed a sut i'w cyrraedd, gan roi blaenoriaeth i'r rhai mwyaf agored i niwed.

## Asesiad o anghenion y boblogaeth

343. Bydd y byrddau partneriaeth rhanbarthol hefyd yn gyfrifol am sicrhau bod y cyrff partneriaeth yn gweithio gyda'i gilydd yn effeithiol i ymateb i'r asesiad o anghenion y boblogaeth a gynhelir o dan adran 14 o'r Ddeddf.

344. **Rhaid** i awdurdodau lleol ddefnyddio gwybodaeth a gesglir drwy'r asesiad o anghenion y boblogaeth i ddylunio a datblygu'r gwasanaeth gwybodaeth, cyngor a chynhorthwy a'i wella'n barhaus. Bydd hyn yn sicrhau bod y gwasanaeth yn cael ei ddylunio'n briodol a'i fod yn hygyrch i wahanol grwpiau cleient yn yr ardal, ac yn ystyried pa agweddau ar y gwasanaeth fyddai orau ar lefel leol, ranbarthol neu genedlaethol.

345. **Rhaid** i awdurdodau lleol ystyried a chymhwyso Rheoliadau Gofal a Chymorth (Asesiadau Poblogaeth) (Cymru) 2015 a phennod 2 o'r Cod hwn ar asesiadau o anghenion y boblogaeth.

## Dyletswydd ar bartneriaid iechyd

346. **Rhaid** i fyrddau iechyd a/neu Ymddiriedolaethau'r GIG ddarparu i awdurdodau lleol, o fewn y fenter gydweithredol ranbarthol, wybodaeth am y gofal a'r cymorth y maent yn eu darparu yn yr ardal. Dylai'r wybodaeth hon fod yn berthnasol a chywir a dylai gael ei darparu mewn fformat hygyrch y cytunwyd arno gyda'r gwasanaeth gwybodaeth, cyngor a chynhorthwy.

## Darparwyr trydydd parti

347. Os bydd elfennau o'r gwasanaeth yn cael eu cyflenwi drwy drydydd parti, bydd y ddyletswydd yn aros gyda'r awdurdod lleol a **rhaid** i'r gwaith o gyflenwi'r gwasanaeth gael ei fonitro'n agos. Ym mhob achos, **rhaid** i adborth gan bobl sydd wedi defnyddio'r gwasanaeth gael ei gasglu a chyfrannu at wella'r gwasanaeth.

## Atebolrwydd

348. Y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol sydd â chyfrifoldeb cyffredinol dros y gwasanaeth gwybodaeth, cyngor a chynhorthwy. **Rhaid** i'r Cyfarwyddwr gyflwyno adroddiad blynyddol i'r Cyngor ar y cyflenwi, y perfformiad a'r risg, ynghyd â chynlluniau ar gyfer gwella'r holl swyddogaethau gwasanaethau cymdeithasol. Dylai'r adroddiad hwn gynnwys y cynnydd a wnaed gan y gwasanaeth gwybodaeth, cyngor a chynhorthwy a'i effeithiolrwydd o ran galluogi pobl i gyflawni eu canlyniadau personol.

## Gwybodaeth, Cyngor a Chynhorthwy i rai sydd yn yr ystad ddiogel

349. **Rhaid** i awdurdodau lleol roi sylw i'r Cod Ymarfer Rhan 11 sy'n pennu'r dyletswyddau mewn perthynas â gofal a chymorth i oedolion a phlant mewn carchardai, llety cadw ieuenctid a llety mechnïaeth. Mae awdurdodau lleol yn gyfrifol am ddarparu gwybodaeth, cyngor a chynhorthwy i oedolion mewn carchardai, llety cadw ieuenctid a llety mechnïaeth os yw'r sefydliadau hyn o fewn eu ffiniau. Rhaid iddynt weithio gyda'r asiantaethau a'r sefydliadau perthnasol i nodi sut y bydd y gwasanaeth hwn yn gweithredu.

350. Ar gyfer oedolion, mae'r cyfrifoldeb yn cael ei ysgwyddo gan yr awdurdod lleol lle lleolir y carchar. Ar gyfer plant a phobl ifanc mewn llety cadw ieuenctid neu sefydliadau troseddwyr ifanc, mae'r cyfrifoldebau hyn yn cael eu hysgwyddo gan yr awdurdod lleol lle'r oedd y troseddwr yn byw cyn iddo gael ei ddedfrydu neu ei roi ar remánd.

351. **Rhaid** i awdurdodau lleol ystyried sut i ddarparu gwybodaeth, cyngor a chynhorthwy i'r rhai sydd yn yr ystad ddiogel, gan sicrhau eu bod yn hygyrch o ran cynnwys yr wybodaeth a'r ffordd y cyflenwir y gwasanaeth. Mae angen i'r gwasanaeth a darpariaeth a hygyrchedd gwasanaethau llesiant ac ataliol gael eu hystyried fel modd o gefnogi'r unigolion hynny yn ystod eu hamser yn yr ystad ddiogel ac wrth baratoi i'w rhyddhau a'u hadsefydlu.

352. Dylai awdurdodau lleol sicrhau bod y gwasanaeth gwybodaeth, cyngor a chynhorthwy yn gysylltiedig â'r gwaith o ddarparu gwybodaeth a chyngor a'r darpariaethau ar gyfer adsefydlu carcharorion o dan Ddeddf Tai (Cymru) 2014 a bod gwasanaeth cynhwysfawr ac integredig yn cael ei ddatblygu.

## Modelau cyflenwi

353. Bydd y gwasanaeth yn tyfu dros amser drwy'r wybodaeth a ddarperir drwy'r asesiadau o anghenion y boblogaeth ac adborth gan gwsmeriaid.

354. **Rhaid** i awdurdodau lleol wneud cysylltiadau â gwasanaethau gwybodaeth a chyngor eraill ar lefel leol, ranbarthol a chenedlaethol, yn enwedig y rhai sy'n cael eu hariannu'n gyhoeddus, megis y gwasanaeth gwybodaeth i deuluoedd.

355. Dylid gwneud pob ymdrech i leihau dyblygu a sicrhau bod yr wybodaeth a'r cyngor yn cael eu cynnig gan y staff mwyaf priodol a medrus. **Rhaid** i awdurdodau lleol sicrhau eu bod yn ystyried pa wasanaethau gwybodaeth, cyngor a chynhorthwy eraill sydd ar gael wrth ddylunio a datblygu eu gwasanaeth. Ni ddylai gwasanaethau gwybodaeth a chyngor eraill gael eu dyblygu a dylent naill ai gael eu hintegreiddio â'r gwasanaeth gwybodaeth, cyngor a chynhorthwy neu fod yn gwbl hygyrch drwy'r gwasanaeth. **Rhaid** i awdurdodau lleol, mewn partneriaeth â'u partneriaid rhanbarthol, sicrhau bod y gwasanaethau cyngor a'r llinellau cymorth sydd ar gael, megis MEIC a'r gwasanaeth gwybodaeth i deuluoedd, yn gydgysylltiedig ac yn cael eu defnyddio'n effeithiol i ddatblygu gwasanaethau dibynadwy i bawb.

356. Efallai y bydd rhai agweddau ar y gwasanaeth yn fwy priodol i'w dylunio a'u cyflenwi ar lefel genedlaethol. Er enghraifft, byddai un pwynt mynediad ar-lein yn sicrhau mynediad cyson i'r cyhoedd ac yn osgoi dyblygu gwybodaeth genedlaethol. Mae hyn yn fwy hygyrch i'r dinesydd ac yn ddull darparu mwy darbodus ac effeithlon.

357. **Rhaid** i'r gwasanaeth gwybodaeth, cyngor a chynhorthwy gael ei ategu gan gyfeiriadur cywir a chyfredol o wasanaethau. **Rhaid** i awdurdodau lleol ystyried sut y mae'r cyfeiriadur hwn yn cael ei reoli i sicrhau ei fod yn cynnwys gwybodaeth am wasanaethau lleol sy'n gywir yn y pwynt mynediad. Dylai awdurdodau lleol ystyried sut i fynd ati i gynnal a chadw'r cyfeiriadur gyda'u partneriaid ar lefel ranbarthol a chenedlaethol.

358. Er bod **rhaid** i'r gwasanaeth gynnig gwasanaeth cyson waeth ble mae rhywun yn byw, **rhaid** i'r unigolyn deimlo ei fod yn gallu cael mynediad at wybodaeth a chyngor lleol yn rhwydd.

## Argaeledd y gwasanaeth

359. Nid gwasanaeth argyfwng yw'r gwasanaeth, felly nid oes disgwyliad y bydd staff ar gael 24 awr y dydd, 7 diwrnod yr wythnos. Fodd bynnag, efallai na fydd gwasanaeth sy'n cael ei staffio rhwng 9am a 5pm yn ddigon a dylai awdurdodau lleol nodi beth yw anghenion y boblogaeth ac adolygu hynny'n rheolaidd. Dylai gwefan hygyrch olygu y bydd pobl yn gallu cael gafael ar wybodaeth a chyngor eu hunain y tu allan i oriau arferol, a dylent ddisgwyl derbyn ymateb i'w hymholiadau o fewn tri diwrnod gwaith.

360. Bydd adegau pan fydd pobl yn cysylltu â'r gwasanaeth am eu bod angen ymateb mewn argyfwng, naill ai gan yr awdurdod lleol neu sefydliad partner arall. Mae angen i'r gwasanaeth allu ymateb yn gyflym drwy drosglwyddo neu atgyfeirio'r

ymholwr at y gwasanaeth cywir. Mae angen sicrhau bod protocolau ar waith fel y gall hyn ddigwydd ac y gellir adolygu'r broses yn rheolaidd.

## Cwynion

361. Mae'n ofynnol i bob awdurdod lleol roi trefniadau ar waith i ymateb i gwynion ynglŷn ag unrhyw agwedd ar eu swyddogaethau gwasanaethau cymdeithasol. Os bydd unigolyn yn anfodlon â'r gwasanaeth y bydd wedi'i dderbyn drwy'r gwasanaeth gwybodaeth, cyngor a chynhorthwy, gall wneud cwyn gan ddefnyddio gweithdrefn gwyno gwasanaethau cymdeithasol yr awdurdod lleol.

362. **Rhaid** i awdurdodau lleol roi trefniadau ar waith i sicrhau bod gwybodaeth am eu proses gwyno ar gael i'r cyhoedd, gan gynnwys drwy'r gwasanaeth gwybodaeth, cyngor a chynhorthwy.

363. Dyroddodd Llywodraeth Cymru ganllawiau ar ddelio â chwynion: *Canllawiau ar ddelio â chwynion a sylwadau mewn gwasanaethau cymdeithasol awdurdodau lleol*, a ddaeth i rym ar 1 Awst 2014.

## Goblygiadau o ran y gweithlu

364. Rhaid i awdurdodau lleol sefydlu tîm sy'n adlewyrchu cymysgedd o sgiliau a phrofiad o amrywiaeth o weithwyr proffesiynol a sectorau. **Rhaid** i awdurdodau lleol sicrhau bod pobl fyddar a dall yn gallu cael mynediad at weithwyr cymorth un-i-un sydd wedi derbyn hyfforddiant arbennig ar gyfer y bobl hynny yr aseswyd eu bod angen cymorth o'r fath.

365. **Rhaid** i awdurdodau lleol ddatblygu cynllun hyfforddi'r gweithlu a ddylai gwmpasu staff rheng flaen sy'n gweithio yn y gwasanaeth gwybodaeth, cyngor a chynhorthwy a'r gweithlu ehangach. Dylai'r cynlluniau hyfforddi unigol ar gyfer staff y gwasanaeth gael eu hadolygu a'u cynnal yn rheolaidd.

366. **Rhaid** bod staff wedi derbyn hyfforddiant ar yr Offeryn Asesu a Chymhwysedd Cenedlaethol a **rhaid** iddynt allu pennu'r angen i deulu, ffrindiau neu unigolion eraill eirioli ar ran yr unigolyn.

367. Mae'n bwysig bod yr hyfforddiant hwn yn cael ei gynnig i staff sy'n gweithio mewn sefydliadau partner i sicrhau bod yr ymagwedd gyfannol integredig at y system gofal â chymorth yn cael ei chyfathrebu drwy amrywiaeth eang o weithwyr proffesiynol. Dylai awdurdodau lleol hefyd ystyried hawliau mynediad ar gyfer y gweithlu ehangach sy'n darparu gwybodaeth, cyngor a chynhorthwy.

## 7. Cofrestrau o bobl ag amhariad ar eu golwg, pobl ag amhariad ar eu clyw a phobl anabl eraill

368. Mae adran 18 o'r Ddeddf yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol sefydlu a chynnal a chadw cofrestrau o bobl sy'n byw yn yr ardal fel arfer ac sydd ag amhariad ar eu golwg, amhariad difrifol ar eu golwg, amhariad ar eu clyw, amhariad difrifol ar eu clyw neu sydd ag amhariad ar eu golwg a'u clyw sy'n cael effaith sylweddol ar eu bywydau o ddydd i ddydd. Ar gyfer y gofrestr o bobl ag amhariad ar eu golwg a'u clyw, nid oes angen i unigolyn gael ei gofrestru ar wahân ar y gofrestr o bobl ag amhariad ar eu golwg neu ar y gofrestr o bobl ag amhariad ar eu clyw.

369. **Rhaid** i awdurdodau lleol hefyd sefydlu a chynnal cofrestr o blant yn ardal yr awdurdod lleol sy'n anabl neu sydd ag amhariad corfforol neu feddyliol sy'n arwain at anghenion gofal a chymorth, neu a allai arwain at yr anghenion hynny yn y dyfodol. Caiff awdurdodau lleol hefyd gynnal cofrestr o oedolion yn eu hardal y mae'r meini prawf hyn yn gymwys iddynt.

370. Wrth gyflawni eu dyletswyddau o dan adran 18 o'r Ddeddf, **rhaid** i awdurdodau lleol nodi a chysylltu â phobl sydd ag amhariad ar eu golwg a'u clyw, gan gynnwys y rhai sydd ag anableddau lluosog, gan gynnwys amhariad ar ddau synnwyr. Rhaid i awdurdod lleol hefyd nodi amgylchiadau ieithyddol yr holl bobl hynny yn y gofrestr berthnasol. Byddai hyn yn cynnwys dewisiadau pobl o ran cyfathrebu, er enghraifft Iaith Arwyddion Prydain neu Braille, neu drwy gyfrwng y Gymraeg.